Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun gweithredu seinwedd

2018 - 2023

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG36311 ISBN Digidol: 978 1 78964 366 4

Tabl Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog 1

Rhagair – y broses cynllun gweithredu ynghylch sŵn 2

Deddfwriaeth ynglŷn â sŵn amgylcheddol 2

Mapiau sŵn amgylcheddol 2

Cynllun gweithredu ynghylch sŵn a seinwedd i Gymru 4

Ymgyngoriadau cyhoeddus cysylltiedig a gynhaliwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf 6

Y broses adolygu a diweddaru 7

1 Pam mae sŵn a seinwedd yn bwysig 9

1.1 Iechyd a llesiant 9

1.2 Y nodau llesiant cenedlaethol 10

1.3 Rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru 13

2 Ffyrdd o weithio 15

2.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 15

2.2 Pethau i'w gwneud ac i beidio â'u gwneud 16

3 Integreiddio polisi sŵn a pholisi ansawdd aer 17

3.1 Adolygu'r trefniadau ar gyfer rheoli ansawdd aer a sŵn yng Nghymru 17

3.2 Yr hyn y mae'r canllawiau polisi yn ei ddweud am sŵn 17

3.3 Yr hyn y mae'r canllawiau polisi yn ei ddweud am seilwaith gwyrdd 18

3.4 Yr hyn y mae'r canllawiau polisi yn ei ddweud am adroddiadau cynnydd ansawdd aer blynyddol 19

3.5 Yr hyn y mae'r canllawiau polisi yn ei ddweud am gynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol 20

3.6 Parthau Aer Glân 20

4 Cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd 23

4.1 Canolbwyntio ar greu lleoedd 23

4.2 Yr hyn y mae'r polisi cynllunio newydd yn ei ddweud am ansawdd aer a seinwedd 24

4.3 Egluro egwyddor 'cyfrwng newid' 25

4.4 Dylunio acwstig 27

4.5 Inswleiddiad acwstig, defnyddio ynni'n effeithlon a gordwymo 29

5 Mannau gwyrdd llonydd yn yr amgylchedd adeiledig 31
5.1 Trosolwg 31
5.2 Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy 32
5.3 Yr hyn y mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn ei ddweud am fannau gwyrdd 32
5.4 Cyllid grant Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd 34
5.5 Rôl Cyfoeth Naturiol Cymru 35
5.6 Dathlu mannau gwyrdd trefol llonydd 37
5.7 Diogelu mannau gwyrdd trefol llonydd 39

6 Sŵn traffig ffyrdd yng Nghymru 42
6.1 Trosolwg 42
6.2 Pwy sy'n gyfrifol? 43
6.3 Yr hyn y mae'r mapiau sŵn yn ei ddweud wrthym 44
6.4 Ardaloedd â blaenoriaeth ac ardaloedd agosrwydd 47
6.5 Gwaith lliniaru sŵn ar y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd 48
6.6 Cefnogi technolegau cerbydau tawelach 49
6.7 Cefnogi teithio llesol 50
6.8 Rôl yr heddlu 51

7 Sŵn rheilffyrdd yng Nghymru 52
7.1 Trosolwg 53
7.2 Pwy sy'n gyfrifol? 54
7.3 Yr hyn y mae'r mapiau sŵn yn ei ddweud wrthym 55
7.4 Ardaloedd â blaenoriaeth 57
7.5 Electrification 57
7.6 Gwasanaethau a ddarperir gan y diwydiant rheilffyrdd 58

8 Sŵn diwydiannol yng Nghymru 59
8.1 Mapio sŵn o ddiwydiannau mawr mewn crynodrefi 59
8.2 Atal a rheoli llygredd mewn ffordd integredig 60
8.3 Grŵp Cyswllt Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol Cymru Gyfan 62
8.4 Niwsans statudol 63

9 Mathau eraill o sŵn 64

9.1 Sŵn mewn cymdogaethau 64
9.2 Sŵn milwrol 67
9.3 Sŵn galwedigaethol a niwed i'r clyw 69
9.4 Sŵn o weithgareddau hamdden a niwed i'r clyw 71

10 Crynodref Caerdydd a Phenarth 72
10.1 Yr hyn y mae'r mapiau sŵn yn ei ddweud wrthym 72
10.2 Mannau tawel 74
10.3 Cyngor Caerdydd 75
10.4 Cyngor Bro Morgannwg 80
10.5 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 85
10.6 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful 91
10.7 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf 93

11 Crynodref Casnewydd 96
11.1 Yr hyn y mae'r mapiau sŵn yn ei ddweud wrthym 96
11.2 Mannau tawel 98
11.3 Cyngor Dinas Casnewydd 99
11.4 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 102

12 Crynodref Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot 107
12.1 Yr hyn y mae'r mapiau sŵn yn ei ddweud wrthym 107
12.2 Mannau tawel 109
12.3 Cyngor Abertawe 110
12.4 Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot 114

Atodiad A – mapiau sŵn 118

Atodiad B – Arolwg Cenedlaethol Cymru: llygredd sŵn 123

Atodiad C – rhestr o ofynion ar gyfer cynlluniau gweithredu ynghylch sŵn 127

Atodiad D – rhestr o'r byrfoddau a ddefnyddir yn y ddogfen hon 129

Atodiad E – y sefydliadau a gyfrannodd at ddatblygu'r ddogfen hon 130

Rhagair gan y Gweinidog

Yn yr oes ddigidol chwyldroadol hon rydym yn cael ein gorlwytho â gwybodaeth, o'r eiliad y byddwn yn deffro i'r adeg y byddwn yn mynd i gysgu. Gall y golygfeydd a'r seiniau sy'n cystadlu'n barhaus i gael ein sylw effeithio arnom pan fyddwn yn deffro a phan fyddwn yn cysgu ac maent yn effeithio ar ein hiechyd corfforol a'n hiechyd meddwl.

Gall sŵn, sy'n golygu sain ddiangen neu niweidiol, yn y byrdymor, amharu ar gwsg a chynyddu lefelau straen, dicter neu flinder, yn ogystal â tharfu ar weithgareddau pwysig megis dysgu, gweithio ac ymlacio. Mewn geiriau eraill, mae'n lleihau ansawdd ein bywyd. Gall amlygiad i seiniau uchel achosi niwed i'r clyw, tra gall amlygiad i sŵn yn yr hirdymor gynyddu ein risg o gael clefydau sy'n gysylltiedig â phwysedd gwaed uchel a chlefyd cardiofasgwlaidd. Ac eto mae ein bywydau yn cael eu cyfoethogi gan sgwrsio, chwerthin a bloeddio cymeradwyaeth, cerddoriaeth a seiniau natur. Mae a wnelo amgylchedd acwstig iach â mwy nag absenoldeb sain ddiangen.

Rhaid i'r cynllun gweithredu ynghylch sŵn, y mae'n ofynnol inni ei adolygu a'i ddiweddaru bob pum mlynedd, fod â ffocws ehangach na dim ond lleihau'r desibelau. Mae angen inni greu seinweddau priodol, sy'n golygu sicrhau'r amgylchedd acwstig cywir ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir. Mae'r trefi a'r dinasoedd, y mae'r rhan fwyaf ohonom yn byw ynddynt, yn ein gwasanaethu mewn nifer o ffyrdd ac, felly, dylent gynnwys amrywiaeth o seinweddau sy'n briodol i'r defnydd tir. Yn union fel na ddylai pob stryd ac adeilad edrych yn debyg, ni ddylai fod un seinwedd drefol sy'n addas at bob diben, rydym yn ei phrofi ble bynnag yr awn.

Dros y blynyddoedd i ddod, rwy'n disgwyl i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ddechrau meddwl llai am liniaru sŵn yn unig a mwy am greu seinweddau iachach i'n cymunedau. At hynny, ble bynnag y ceir llygredd aer a llygredd sŵn a hynny o'r un ffynonellau neu ffynonellau tebyg, dylid eu hystyried gyda'i gilydd yn hytrach nag fel problemau ar wahân. Mae llygredd aer a sŵn yn llygryddion a gludir yn yr awyr, a all gael effaith gyfunol ar iechyd y cyhoedd ac, mewn llawer o sefyllfaoedd, y ffordd orau o fynd i'r afael â nhw yw drwy ddefnyddio atebion a rennir.

Os bydd cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn derbyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ffyrdd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, byddwn yn gallu chwalu'r seilos polisi presennol a chyflawni canlyniadau lluosog er budd cymdeithas.

Hannah Blythyn AC
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd

Rhagair – y broses cynllun gweithredu ynghylch sŵn

Deddfwriaeth ynglŷn â sŵn amgylcheddol

Mae **sŵn amgylcheddol** yn sain ddiangen neu niweidiol a grëir gan weithgareddau pobl, yn arbenig trafnidiaeth fodurol a safleoedd lle y ceir gweithgarwch diwydiannol. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod sŵn amgylcheddol yn llygrydd a gludir yn yr awyr.

Nod y Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol[1] yw diffinio dull cyffredin o weithredu er mwyn osgoi, atal neu leihau, ar sail blaenoriaeth, yr effeithiau niweidiol, gan gynnwys annifyrrwch, a gaiff amlygiad i sŵn amgylcheddol.

Rhoddir grym cyfreithiol iddi yng Nghymru drwy Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006[2] fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) (Diwygio) 2009[3] (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel y Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol).

Mapiau sŵn amgylcheddol

O dan y Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol, mae gan Weinidogion Cymru rwymedigaeth i lunio mapiau sŵn, a'u diweddaru'n gyson, ar gyfer y canlynol:

- **crynodrefi** (ardaloedd trefol mawr â phoblogaethau o fwy na 100,000);
- **prif ffyrdd** (ffyrdd y ceir mwy na thair miliwn o dramwyadau cerbydau y flwyddyn);
- **prif reilffyrdd** (rheilffyrdd lle y ceir mwy na 30,000 o dramwyadau trên y flwyddyn).

Mae tair crynodref yng Nghymru, sef:

- crynodref Caerdydd a Phenarth;
- crynodref Casnewydd;
- crynodref Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

[1] http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=CELEX:32002L0049:en:NOT
[2] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2006/2629/made
[3] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2009/47/made

Nid oes unrhyw feysydd awyr mawr yng Nghymru sy'n ddigon prysur i fodloni'r meini prawf ar gyfer mapio sŵn a llunio cynlluniau gweithredu o dan y Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol.

Rhaid i'r mapiau sŵn gael eu llunio drwy gyfrifo, nid mesur.

Yn 2012 lluniodd Extrium Ltd, o dan gontract gan Lywodraeth Cymru, fapiau sŵn ar gyfer prif ffyrdd ledled Cymru, prif reilffyrdd ledled Cymru a phob ffordd, rheilffordd a diwydiannau yn y tair crynodref.

Yn 2015 cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'i mapiau sŵn[4] er mwyn nodi pa rai ohonynt roedd angen eu diweddaru yn 2017. Yn unol â chasgliadau'r adolygiad hwn, lluniwyd mapiau sŵn newydd yn 2017 ar gyfer prif ffyrdd ledled Cymru a diwydiannau mawr yn y tair crynodref, ond nid ar gyfer prif reilffyrdd na ffyrdd nad oeddent yn brif ffyrdd na rheilffyrdd nad oeddent yn brif reilffyrdd mewn crynodrefi.

Gellir gweld mapiau sŵn 2012 a 2017[5], a lawrlwytho'r setiau data gofodol sy'n gysylltiedig â nhw, yn http://lle.gov.wales/catalogue?t=1&lang=cy.

Disgwylir i'r mapiau sŵn lywio amrywiaeth o weithgareddau a gynhelir gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru dros y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- gwaith lliniaru sŵn â blaenoriaeth, megis rhwystrau sŵn a rhoi wyneb newydd ar ffyrdd;
- y broses gynllunio;
- ansawdd aer, seilwaith gwyrdd a chynlluniau a strategaethau trafnidiaeth;
- yr asesiadau llesiant lleol a gynhaliwyd gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus (BGCau)[6] o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[7];

[4] https://gov.wales/docs/desh/publications/151026-review-of-strategic-noise-maps-in-wales-en.pdf
[5] Dylid nodi, oherwydd newidiadau a wnaed i'r ffordd y cafodd lefelau sŵn eu cyfrifo rhwng 2012 a 2017, fod y lefelau sŵn a gyfrifwyd wrth dderbynyddion sydd wedi'u lleoli lai na 7.5 metr o ffynhonnell sŵn traffig ffyrdd yn uwch yn 2017 nag yn 2012. Yn anffodus, golyga hyn, yn agos iawn at y ffordd, nad oes modd cymharu mapiau sŵn 2012 a 2017 yn uniongyrchol.
[6] Mae Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Asesiadau Llesiant Lleol) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i BGCau ystyried y mapiau sŵn mwyaf diweddar a luniwyd ac a fabwysiadwyd gan Weinidogion Cymru pan fyddant yn cynnal eu hasesiadau llesiant lleol.
[7] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2

- yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a'r datganiadau ardal a luniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016[8].

Cynllun gweithredu ynghylch sŵn a seinwedd i Gymru

O dan y Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol, mae gan Weinidogion Cymru rwymedigaeth i lunio cynlluniau gweithredu ar gyfer mannau ger prif ffyrdd a phrif reilffyrdd ac ar gyfer crynodrefi. Mae'r Rheoliadau yn gymwys i sŵn amgylcheddol y caiff pobl eu hamlygu iddo mewn ardaloedd adeiledig, parciau cyhoeddus neu fannau tawel eraill mewn crynodref a ger ysgolion, ysbytai ac adeiladau ac ardaloedd eraill sy'n sensitif i sŵn. Nid ydynt yn gymwys i sŵn a achosir gan yr unigolyn a amlygwyd i sŵn amgylcheddol, sŵn a achosir gan weithgareddau domestig, sŵn a grëir gan gymdogion, sŵn mewn gweithleoedd, sŵn y tu mewn i ddulliau teithio na sŵn a achosir gan weithgareddau milwrol mewn ardaloedd milwrol.

Yn 2013, gan gydweithio â chyrff cyhoeddus eraill, lluniodd Llywodraeth Cymru un cynllun gweithredu pum mlynedd cyfun ynghylch sŵn i Gymru[9]. Roedd y ddogfen hon yn cynnwys y cynlluniau gweithredu a oedd yn ofynnol o dan y Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol, ynghyd â gwybodaeth am bolisïau i Gymru gyfan a oedd yn ymwneud â'r mathau hynny o sŵn nad oeddent yn cael eu cwmpasu gan y Rheoliadau, megis sŵn mewn cymdogaethau. Y bwriad oedd rhoi darlun cyffredinol o'r sefyllfa bryd hynny i gyrff cyfrifol ac eraill â diddordeb arbennig mewn sŵn, ac eglurder ynglŷn â'r hyn a ddisgwylid gan gyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill mewn perthynas â sŵn dros y pum mlynedd rhwng 2013 a 2018 . At hynny, drwy lunio un ddogfen bolisi sŵn i Gymru gyfan, llwyddwyd i osgoi ailadrodd deunydd a fyddai'n deillio o gael dau gynllun gweithredu ar wahân ar gyfer prif ffyrdd, prif reilffyrdd a chrynodrefi.

Mae'r gofyniad statudol i adolygu ac, os bydd angen, ddiwygio ein cynllun gweithredu ynghylch sŵn yn 2018 yn cynnig cyfle inni ddwyn y clytwaith rhydd o weithgareddau rheoleiddio sŵn a ddisgrifiwyd yng nghynllun 2013 ynghyd i ffurfio cyfanwaith mwy cydlynol, gan ddefnyddio'r fframwaith a ddarperir gan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sail gyffredin ar gyfer yr holl weithgareddau rheoli sŵn a **seinwedd**[10] yn y dyfodol yng Nghymru.

[8] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3
[9] https://gov.wales/docs/desh/publications/131217noise-action-plan-for-wales-cy.pdf
[10] Diffinnir seinwedd yn ISO 12913-1:2014 fel yr amgylchedd acwstig fel y'i canfyddir neu y'i profir a/neu y'i deëllir gan unigolion neu bobl, yn ei gyd-destun.

At ddibenion y Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol:

- mae'r Rhagair hwn, ynghyd â Penodau 1-6 ac Atodiad A i'r ddogfen hon, yn ffurfio cynllun gweithredu 2018 ar gyfer prif ffyrdd yng Nghymru;

- mae'r Rhagair hwn, ynghyd â phenodau 1-5 ac Atodiad A i'r ddogfen hon, yn ffurfio cynllun gweithredu 2018 ar gyfer prif reilffyrdd yng Nghymru;

- mae'r Rhagair hwn, ynghyd â Phenodau 1-8 a 10 ac Atodiad A i'r ddogfen hon, yn ffurfio cynllun gweithredu 2018 ar gyfer crynodref Caerdydd a Phenarth;

- mae'r Rhagair hwn, ynghyd â Phenodau 1-8 ac 11 ac Atodiad A i'r ddogfen hon, yn ffurfio cynllun gweithredu 2018 ar gyfer crynodref Casnewydd;

- mae'r Rhagair hwn, ynghyd â Phenodau 1-8 a 12 ac Atodiad A i'r ddogfen hon, yn ffurfio cynllun gweithredu 2018 ar gyfer crynodref Abertawe a Castell-nedd Port Talbot.

Os bydd cynllun gweithredu wedi'i fabwysiadu o dan y Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol a'i fod yn nodi bod corff cyhoeddus[11] yn gyfrifol am gam gweithredu penodol, bydd yn rhaid i'r corff cyhoeddus hwnnw drin y cynllun gweithredu fel ei bolisi i'r graddau y mae'n ymwneud â'r cam gweithredu hwnnw. Dim ond os bydd yn rhoi rhesymau ysgrifenedig dros wyro oddi wrth y polisi hwnnw a'i fod yn cyhoeddi'r rhesymau hynny y caiff corff cyhoeddus wyro oddi wrth bolisi o'r fath.

Dylid nodi mai dim ond i'r elfennau o'r cynllun gweithredu a gwmpesir gan y Rheoliadau y mae'r rhwymedigaeth gyfreithiol o dan y Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol ar gyfer cyrff cyhoeddus i drin cynllun gweithredu fel polisi yn gymwys.

Mae adrannau 3.2 i 3.5 o'r ddogfen hon yn efelychu canllawiau polisi statudol a ddosbarthwyd i awdurdodau lleol gan Weinidogion Cymru yn 2017 o dan adran 88 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Rhaid i awdurdodau lleol ystyried y testun hwn wrth gyflawni eu dyletswyddau rheoli ansawdd aer lleol o dan Ddeddf 1995.

[11] Mae'r Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol yn defnyddio'r term 'awdurdod cyhoeddus' yn hytrach na chorff cyhoeddus', ac mae hyn yn cynnwys unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus, ond nid yw'n cynnwys (a) Tŷ'r Cyffredin na Thŷ'r Arglwyddi na pherson sy'n arfer swyddogaethau mewn cysylltiad â thrafodion yn y Senedd, (b) llysoedd na thribiwnlysoedd, nac (c) Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn ogystal â'r rhwymedigaethau statudol y cyfeiriwyd atynt uchod, mae Llywodraeth Cymru yn argymell yn gryf y dylai cyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r ddogfen hon i'r graddau y mae'n cyd-fynd â gofynion deddfwriaeth drawsbynciol megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac yn helpu i fodloni'r gofynion hynny.

Bwriedir i'r cyfeiriadau at ddeddfwriaeth a geir yn y cynllun gweithredu hwn ddangos sut y caiff sŵn ei reoleiddio yng Nghymru, ac ni ddylid ystyried eu bod yn gyngor ar sut yn union y dylid cymhwyso'r gyfraith. Am wybodaeth lawn a manwl am sŵn a'r gyfraith, dylai darllenwyr gyfeirio at y ddeddfwriaeth ei hun neu geisio cyngor gan eu cynghorwyr cyfreithiol eu hunain.

Ymgyngoriadau cyhoeddus cysylltiedig a gynhaliwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf

13 Medi 2016 i 16 Rhagfyr 2016 – Rheoli ansawdd aer a sŵn yng Nghymru

https://beta.llyw.cymru/rheoli-ansawdd-aer-swn-yng-nghymru

12 Chwefror 2018 i 18 Mai 2018 – Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 10

https://beta.llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru-argraffiad-10

25 Ebrill 2018 i 19 Mehefin 2018 – Fframwaith Parth Aer Glân i Gymru

https://beta.llyw.cymru/fframwaith-parth-aer-glan-i-gymru

11 Gorffenaf 2018 i 3 Hydref 2018 – Cynllun gweithredu ynghylch sŵn a seinwedd 2018-2023

https://beta.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-ynghylch-swn-seinwedd-2018-2023

Y broses adolygu a diweddaru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal o leiaf ddau gyfarfod i reoleiddwyr sŵn yng Nghymru bob blwyddyn ers cyhoeddi cynllun gweithredu ynghylch sŵn 2013, fel arfer gefn wrth gefn â chyfarfodydd Fforwm Ansawdd Aer Cymru er mwyn osgoi teithio diangen. Mynychir y cyfarfodydd hyn yn rheolaidd gan swyddogion iechyd yr amgylchedd a/neu swyddogion rheoli llygredd o'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru, yn ogystal â CNC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae siaradwyr gwadd, gan gynnwys cynrychiolwyr sefydliadau anllywodraethol ac ymgyngoriaethau sŵn, wedi arwain trafodaethau ynghylch pynciau megis mapiau sŵn Cymru, y Safon Brydeinig newydd ar gyfer seiniau diwydiannol a masnachol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Rheoliadau Adeiladu, y broses gynllunio yng Nghymru, Wythnos Atal Sŵn a'r cysyniad o seinwedd.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad rhannol o gynllun gweithredu ynghylch sŵn 2013 ym Mhennod 4 o'i hymgynghoriad cyhoeddus ynghylch ansawdd aer lleol a rheoli sŵn yng Nghymru yn 2016. O ganlyniad i hyn, datblygwyd rhai camau gweithredu ychwanegol. Mae cynllun gweithredu ynghylch sŵn 2013 bellach yn cael ei ddiweddaru'n llwyr yn 2018.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnal cyfarfodydd sy'n agored i bob corff cyhoeddus sydd â chyfrifoldebau o dan y cynllun gweithredu hwn o leiaf ddwywaith y flwyddyn yn ystod oes y cynllun, er mwyn helpu i ddatblygu polisi a chamau gweithredu a strategaeth hirdymor.

Bydd Llywodraeth Cymru yn diweddaru'r cynllun ei hun pan fydd o'r farn bod angen gwneud hynny, gan gynnal o leiaf un adolygiad a fydd yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus llawn o fewn pum mlynedd ar ôl iddo gael ei fabwysiadu gyntaf.

Yr ymatebion i'r ymgynghoriad: seinwedd

Diffinnir seinwedd yn ISO 12913-1:2014 fel yr amgylchedd acwstig fel y'i canfyddir neu y'i profir a/neu y'i deëllir gan unigolion neu bobl, yn ei gyd-destun. Cafwyd nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun gweithredu ynghylch sŵn a seinwedd oedd yn datblygu'r diffiniad hwn.

Ysgrifennodd Dr Yiying Hao ar ran Wood E&IS UK:

"Sound is perceived as a resource rather than waste in soundscape management. Soundscape management focuses on sounds of preference and requires differentiation between sound sources. Enhancing wanted sounds and reducing unwanted sounds are both important in soundscape management. The environmental noise assessment and soundscape approaches to management and design of the acoustic environment vary substantially, but they are not mutually exclusive. The traditional noise control and the soundscape approaches are complementary methods rather than alternative or conflicting."

Nododd Philip Dunbavin, cyfunydd Gweithgor ISO TC43/SC1/WG54 y Sefydliad Safoni Rhyngwladol fod seinwedd yn wyddoniaeth ifanc, ar ddechrau datblygu. Mae Rhannau 1 a 2 safon ISO[12] wedi cael eu cyhoeddi ac mae'r gweithgor yn gweithio nawr ar Ran 3 sy'n dadansoddi data o astudiaethau seinwedd. Bwriad y gweithgor yw cyhoeddi pedwaredd ran sy'n ymdrin â dehongli canlyniadau'r dadansoddiad.

Ysgrifennodd Stephen Turner ar ran yr Athrofa Acwsteg:

"Although the document introduces the concept of soundscape into Government policy, it is important to recognise that this should be regarded as a first step. There is the scope for more guidance, one key point being the users' involvement in the management and design of the acoustic environments. The action plan provides a framework for such involvement and could include recommendations for public awareness and engagement campaigns, establishment of noise and soundscape local action teams, etc."

Mae Llywodraeth Cymru'n ddiolchgar am yr uchod a phob cyfraniad technegol arall am y pwnc, a bydd yn dal i droi at gyngor o'r fath wrth i'r wybodaeth ddatblygu.

[12] https://www.iso.org/standard/52161.html a https://www.iso.org/standard/75267.html

1 Pam mae sŵn a seinwedd yn bwysig

1.1 Iechyd a llesiant

1.1.1 Ni all y rhan fwyaf o bobl ddychmygu byw mewn byd heb sain. Rhoddir gwerth mawr ar leferydd, cerddoriaeth, seiniau natur ac ati. Gwlad y gân yw Cymru a'r peth olaf y mae Lywodraeth Cymru am ei weld yw Gymru sy'n ddistaw. Ond mae sŵn, sef sain ddiangen neu niweidiol sydd i'w phriodoli i weithgareddau pobl, yn llygrydd.

1.1.2 Ar ei leiaf ymwthiol, mae sŵn traffig yn dwrw annymunol yn y cefndir nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn ymwybodol ohono fel arfer am ei fod yn cael ei ystyried yn rhan annatod o fyw mewn ardaloedd trefol. Fodd bynnag, gallai amharu ar werthfawrogiad pobl o harddwch a llonyddwch natur pe câi ei glywed ar gopa mynydd neu yng nghanol parc cenedlaethol. Ar ei waethaf, gall sŵn arwain at golli clyw, cyfrannu at bwysedd gwaed uwch a chynyddu'r risg o gael trawiad ar y galon. Gan amlaf mae effaith negyddol sŵn ar bobl ar ffurf annifyrrwch, sy'n cynnwys ei allu i guddio seiniau cadarnhaol ac amharu ar y mwynhad ohonynt, a tharfu ar gwsg. Gall amlygiad i lefelau cymedrol o sŵn dros gyfnodau hir o amser amharu ar lesiant neu ansawdd bywyd unigolion.

1.1.3 Yn 2011 cyhoeddodd Sefydliad Iechyd y Byd yr adroddiad *Burden of disease from environmental noise: Quantification of healthy life years lost in Europe*[13]. Amcangyfrifodd yr adroddiad fod o leiaf filiwn o **flynyddoedd o fywyd iach**[14] yn cael eu colli bob blwyddyn o ganlyniad i sŵn amgylcheddol yn rhan orllewinol Ewrop, yn benodol:

- 61,000 o flynyddoedd ar gyfer clefyd isgemig y galon;
- 45,000 o flynyddoedd ar gyfer plant sydd â nam gwybyddol;
- 903,000 o flynyddoedd ar gyfer tarfu ar gwsg;
- 22,000 o flynyddoedd ar gyfer tinitws;
- 654,000 o flynyddoedd ar gyfer annifyrrwch.

[13] http://www.euro.who.int/en/what-we-do/health-topics/environment-and-health/noise/publications/2011/burden-of-disease-from-environmental-noise.-quantification-of-healthy-life-years-lost-in-europe

[14] Blynyddoedd o fywyd iach neu flynyddoedd o fywyd wedi'u haddasu yn ôl anabledd yw swm nifer y blynyddoedd posibl a gollir o ganlyniad i farw'n gynamserol a nifer gyfatebol y blynyddoedd o fywyd ‘iach’ a gollir oherwydd iechyd gwael neu anabledd.

1.1.4 Yn 2017 cyhoeddodd Sefydliad Iechyd y Byd daflen ffeithiau[15] ar leihau sŵn er mwyn hybu iechyd. Mae'n gorffen gyda chyfres o argymhellion sy'n cyd-fynd yn agos â'r pum ffordd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a drafodir yn fanylach ym Mhennod 2 o'r cynllun gweithredu ynghylch sŵn a seinwedd.

1.1.5 Mae Pennod 4 o adroddiad blynyddol 2017 Prif Swyddog Meddygol Lloegr[16] yn cynnwys crynodeb o'r dystiolaeth ar gyfer effeithiau llygredd sŵn ar iechyd, a ysgrifennwyd gan yr Athro Stephen Stansfield o Sefydliad Meddygaeth Ataliol Wolfson, Prifysgol Queen Mary, Llundain. Mae'r adroddiad yn argymell, er mwyn atal iechyd gwael, y dylai awdurdodau lleol ehangu strategaethau cyfredol ar gyfer yr amgylchedd, a all ymdrin â llygredd aer neu sŵn, y dylai'r strategaethau hyn fod yn ymwybodol o bob math o lygredd ac y dylent ystyried risg ar lefelau isel o amlygiad cyson a lefelau uchel o amlygiad ysbeidiol.

1.1.6 Mae Pennod 3 o adroddiad blynyddol 2016/17 Prif Swyddog Meddygol Cymru[17] yn nodi bod llygredd sŵn lleol yn anghydraddoldeb iechyd amgylcheddol ac y gall buddsoddi mewn systemau i fonitro iechyd cyhoeddus amgylcheddol helpu i lywio blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn y dyfodol a hwyluso gwaith cydgysylltiedig a gwella iechyd y genedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

1.1.7 Yn 2018, cyhoeddodd y WHO ei fersiwn newydd o *Environmental Noise Guidelines for the European Region*[18]. Prif bwrpas y canllawiau hyn yw gwneud argymhellion ar gyfer diogelu iechyd pobl rhag sŵn amgylcheddol o ffynonellau gwahanol. Maen nhw'n seiliedig ar adolygiadau o dystiolaeth[19] am ganlyniadau iechyd penodol a ddewiswyd gan grŵp datblygu'r canllawiau.

1.2 Y nodau llesiant cenedlaethol

1.2.1 Mae mynd i'r afael â sŵn a gwella'r seinwedd yn cyfrannu at gyflawni pob un o'r saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

[15] http://www.euro.who.int/__data/assets/pdf_file/0015/341133/Fact-Sheet-6-Reducing-Noise-to-Promote-Health.pdf
[16] https://www.gov.uk/government/publications/chief-medical-officer-annual-report-2017-health-impacts-of-all-pollution-what-do-we-know
[17] https://gov.wales/docs/phhs/publications/cmo-report2017en.pdf
[18] http://www.euro.who.int/en/publications/abstracts/environmental-noise-guidelines-for-the-european-region-2018
[19] https://www.mdpi.com/journal/ijerph/special_issues/WHO_reviews

- **Cymru ffyniannus:** Mae sŵn yn gallu bod yn un o ganlyniadau anorfod gweithgarwch economaidd. Fodd bynnag, mae lefelau sŵn yn cael effaith negyddol, a brofwyd ac y gellir ei fesur, ar brisiau eiddo. Derbynnir hefyd fod sŵn yn effeithio ar gynhyrchiant mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys drwy gyrhaeddiad addysgol, blinder a thynnu sylw tra'n gweithio, er nad yw'r effeithiau hyn yn cael eu mesur ar hyn o bryd. Mae ardaloedd lle na cheir gormod sŵn yn lleoedd deniadol i fyw a gweithio ynddynt. Mae grŵp pwnc sŵn y Grŵp Rhyngadrannol ar Gostau a Manteision a arweinir gan Defra[20] wedi amcangyfrif bod cost gymdeithasol sŵn traffig ffyrdd yn Lloegr yn unig rhwng £7 a £10 billion y flwyddyn.

- **Cymru gydnerth:** Gall ymyriadau i wella seinwedd drwy seilwaith gwyrdd gyflawni nifer o ganlyniadau amgylcheddol, yn enwedig pan fyddant yn frodorol ac yn fioamrywiol. Er enghraifft, mae daear feddal a waliau gwyrdd ar adeiladau yn amsugno sain yn hytrach na'i adlewyrchu, mae seiniau naturiol yn meddalu seinweddau mecanyddol aflafar ac mae coed yn gwasgaru ac yn lleihau'r canfyddiad o sŵn. Gwyddys fod sŵn amgylcheddol a gludir yn yr awyr yn effeithio ar fywyd gwyllt daearol yn ogystal â phobl, er bod angen gwneud llawer o ymchwil bellach yn y maes hwn[21].

- **Cymru iachach:** Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi nodi mai sŵn amgylcheddol yw'r ffactor amgylcheddol mwyaf ond un sy'n cyfrannu at faich clefydau yn Ewrop ar ôl llygredd aer amgylchynol. Mae ein mapiau sŵn ein hunain yn awgrymu bod cartrefi mwy na 200,000 o bobl ledled Cymru yn cael eu hamlygu i lefelau sŵn traffig ffyrdd sy'n uwch na chanllawiau Sefydliad Iechyd y Byd 2009 ar gyfer sŵn gyda'r nos (ac mae'r nifer hwnnw yn uwch fyth yn ôl canllawiau diweddaraf 2018 y WHO).

[20] https://www.gov.uk/guidance/noise-pollution-economic-analysis

[21] Yn ymateb Wood E&IS UK, ysgrifennodd Dr Yiying Hao: *"Airborne environmental noise reduces the biodiversity of the urban areas partially by masking the communication signal of the fauna. Every organism has its own acoustic signal and calendar. Soundscape work by R. Murray Schafer has in part led to the development of a field called* ***acoustic ecology*** *– study of the relationships between organisms (people, animals, etc.) and the environment through sound. The research on the influence of environmental noise on wildlife is mainly from the field of animal behaviour, e.g. homogenisation of avifauna in the urbanised areas. There is a need to investigate the influence of sound environment on the wildlife within the scope of soundscape study."*

- **Cymru sy'n fwy cyfartal:** Mae rhai pobl yn ddigon ffodus i fyw a gweithio mewn mannau llonydd, ond nid yw llawer mewn sefyllfa i wneud y dewis hwn. Gall targedu ymyriadau er mwyn helpu'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf[22], tra'n cydnabod ac yn diogelu seinweddau sy'n cynnal iechyd a lles, leihau'r effeithiau hyn ac anghydraddoldebau amgylcheddol eraill.

- **Cymru o gymunedau cydlynus:** Ailadroddodd Arolwg Cenedlaethol y DU o Agweddau at Sŵn 2012[23] arolwg a gynhaliwyd yn 2000. Ymhlith ei ganfyddiadau allweddol oedd bod pobl yn y DU wedi rhoi sŵn yn y pedwerydd safle mewn rhestr o broblemau amgylcheddol a oedd yn effeithio arnynt, ar ôl cŵn yn baeddu, sbwriel a cholli tir llain las. Dros y 12 mlynedd rhwng y ddau arolwg, cynyddodd cyfran y bobl "sy'n cael eu poeni, eu digio neu eu cynhyrfu i ryw raddau gan sŵn traffig ffyrdd" o 40% i 55%, tra bod cyfran y bobl "'sy'n cael eu poeni, eu digio neu eu cynhyrfu "'yn fawr' neu 'yn fawr iawn' wedi aros yn ddigyfnewid ar 8%. Cynyddodd cyfran y bobl "sy'n cael eu poeni, eu digio neu eu cynhyrfu i ryw raddau gan sŵn a achosir gan gymdogion/neu bobl gerllaw" o 37% i 54%, tra bu cyfran y bobl "sy'n cael eu poeni, eu digio neu eu cynhyrfu i ryw raddau gan sŵn a achosir gan waith adeiladu, dymchwel ac adnewyddu a gwaith ffordd" bron â dyblu o 15% i 29%. Mae'n debygol bod y cynnydd hwn mewn lefelau annifyrrwch i'w briodoli i gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys dwysedd poblogaeth uwch mewn ardaloedd trefol a newidiadau o ran agweddau a disgwyliadau cymdeithas.

- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu:** Gall amgylchedd acwstig gwael yn yr ysgol ei gwneud yn anodd i blant ganolbwyntio a deall yr hyn y mae'r athro yn ei ddweud, yn enwedig pan fyddant yn ceisio dysgu iaith newydd. Gall sŵn gormodol amharu ar werthfawrogiad unigolion o leoliadau hanesyddol a gall hyn hefyd gael canlyniadau economaidd andwyol o ran twristiaeth. Ar y llaw arall, gall y seinwedd iawn gyfoethogi profiadau creadigol a diwylliannol.

[22] Yn ymateb Wood E&IS UK, ysgrifennodd Dr Yiying Hao: *"Noise effects can be offset through careful design and application of soundscaping principles to external amenity space. Combining soundscaping concepts with environmental noise control can enable the creation of more pleasant acoustic environments in areas traditionally considered blighted by noise. These areas of environmental inequality frequently exist alongside busy infrastructure corridors. where property values are lower, with properties more likely to be occupied by those with lower income. Soundscaping there has the ability to provide improved conditions, leading to reduction in this environmental inequality."*

[23] http://randd.defra.gov.uk/Default.aspx?Module=More&Location=None&ProjectID=18288

- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:** Mae sŵn yn tueddu i beidio â chario'n bell o'r naill wlad i'r llall, ond gall arfer da fynd yn bell. Gall annog datblygu technolegau tawelach a hyrwyddo safonau a ddatblygwyd yn y DU helpu i ddatblygu polisïau sŵn mewn gwledydd eraill.

1.3 Rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru

Darparwyd y wybodaeth yn yr adran hon gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

1.3.1 Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhoi cyngor iechyd y cyhoedd arbenigol i amrywiaeth eang o asiantaethau partner ac aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru ar amlygiadau i sŵn analwedigaethol. Bwriedir i'r cyngor hwn roi pŵer i bobl ddiogelu a gwella iechyd a llesiant yn ei ystyr ehangach a lleihau anghydraddoldebau ac amrywiadau o ran amlygiad i sŵn o'r fath.

1.3.2 Uchelgais Llywodraeth Cymru, asiantaethau iechyd y cyhoedd, byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol yng Nghymru yw creu Cymru iachach, hapusach a thecach. Rydym yn cydweithio er mwyn sicrhau bod gwneuthurwyr penderfyniadau ar bob lefel yn cael eu llywio gan y dystiolaeth ddiweddaraf am effeithiau sŵn ar iechyd a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r dystiolaeth honno.

1.3.3 Ceir sŵn amgylcheddol, o bosibl, mewn cyfuniad â pheryglon amgylcheddol eraill, yn arbennig mathau eraill o allyriadau o draffig ffyrdd a diwydiannau. Dylai ymyriadau i fynd i'r afael â sŵn hefyd geisio gwella iechyd drwy leihau amlygiad i lygryddion eraill, a/neu gael cydfanteision iechyd anuniongyrchol, er enghraifft, drwy leihau tagfeydd, gwella diogelwch ar y ffyrdd a hyrwyddo teithio llesol.

1.3.4 Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydnabod pwysigrwydd seinweddau priodol i iechyd a llesiant pobl a'r amgylchedd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi'r angen i fabwysiadu dull hirdymor o greu lleoedd er mwyn sicrhau na chaiff peryglon amgylcheddol presennol eu gwaethygu neu na chaiff rhai newydd eu creu ac annog atebion integredig sy'n ceisio lleihau sŵn a lefelau cyfartalog llygredd a gludir yn yr awyr a lliniaru effeithiau'r hinsawdd.

Blwch 1.1

Lle gallant, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i lywio a chefnogi'r gwaith i fesur a deall effaith sŵn amgylcheddol ar iechyd. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cefnogi camau i leihau sŵn amgylcheddol ac i ystyried seinweddau addas, er enghraifft, trwy roi cyngor i helpu awdurdodau cynllunio i wneud penderfyniadau, er mwyn manteisio ar bob cyfle i amddiffyn a gwella iechyd.

2 Ffyrdd o weithio

2.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

2.1.1 Yn hytrach na bod yn bolisi ar wahân, mae polisi sŵn yng Nghymru bellach yn rhan o'r fframwaith polisi trawsbynciol a bennwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r fframwaith hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, CNC, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru ymgymryd â **datblygu cynaliadwy**. Dyma'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau gweithredu, a hynny'n unol â'r **egwyddor datblygu cynaliadwy**, sydd â'r nod o gyflawni'r nodau llesiant.

2.1.2 Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a ddiffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan sylfaenol o'r ffordd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus a BGCau weithredu bellach. Rhaid iddynt weithredu mewn modd sy'n sicrhau y diwellir anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

2.1.3 Mae'r egwyddor yn cynnwys pum ffordd o weithio y dylai cyrff cyhoeddus eu dilyn wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy, sef:

- ystyried yr **hirdymor** er mwyn sicrhau nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- dilyn dull gweithredu **integredig**;
- **cynnwys** amrywiaeth o bobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- gweithio gydag eraill mewn modd **cydweithredol** er mwyn dod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir;
- gweithredu er mwyn **atal** problemau rhag codi neu waethygu.

Blwch 2.1

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddilyn y pum ffordd o weithio wrth reoli sŵn a seinweddau.

2.2 Pethau i’w gwneud ac i beidio â’u gwneud

2.2.1 O ystyried yr uchod, **ni ddylai** sŵn a seinwedd yng Nghymru gael eu rheoli yn y ffyrdd canlynol:

- Ceisio atebion byrdymor i achosion o niwsans sŵn yn unig;
- Ceisio rheoli sŵn a seinweddau ar wahân i geisio cyflawni canlyniadau cysylltiedig eraill megis aer glân, effeithlonrwydd ynni, ffyrdd diogelach, ffyrdd o fyw iachach ac ecosystemau gwytnach;
- Gadael i'r arbenigwyr benderfynu beth sydd orau a hysbysu'r cyhoedd ar ôl i'r cyfan gael ei setlo yn unig;
- Timau iechyd yr amgylchedd a rheoli llygredd yn ceisio gwneud y cyfan ar eu pen eu hunain; neu
- Aros i niwsans statudol neu ardal blaenoriaeth cynlluniau gweithredu ynghylch sŵn gael ei nodi cyn dechrau gwneud rhywbeth yn ei gylch.

2.2.2 Yn lle hynny, **dylai** sŵn a seinwedd gael eu rheoli drwy wneud y canlynol:

- Ceisio dod o hyd i atebion hirdymor i unrhyw achosion presennol o niwsans sŵn;
- Ceisio rheoli sŵn a seinweddau wrth gyflawni canlyniadau cysylltiedig eraill;
- Manteisio ar gyfleoedd i sôn wrth y cyhoedd am yr heriau sy'n gysylltiedig ag amlygiad i sŵn a seinweddau afiach, gwrando ar eu pryderon a cheisio eu barn ar atebion posibl a'u cynnwys yn y gwaith o'u cyflawni;
- Gweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol er budd pawb wrth gyflawni'r canlyniadau dymunol;
- Cadw lefelau amlygiad i sŵn (hynny yw, sain ddiangen neu niweidiol) mor isel ag sy'n rhesymol bosibl yn y boblogaeth gyfan, gan gadw golwg yn benodol am ardaloedd lle y gallai lefelau sŵn fod yn ddigon uchel i gyfiawnhau sefydlu niwsans statudol neu ardal blaenoriaeth cynlluniau gweithredu ynghylch sŵn, neu lle y gallai sŵn amharu ar amwynder y cyhoedd rywbryd yn y dyfodol, a chymryd camau rhagataliol er mwyn sicrhau na fydd y pethau hynny'n digwydd.

3 Integreiddio polisi sŵn a pholisi ansawdd aer

3.1 Adolygu'r trefniadau ar gyfer rheoli ansawdd aer a sŵn yng Nghymru

3.1.1 Rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2016, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus eang ei gwmpas ar ffyrdd i wella gweithgarwch rheoli ansawdd aer a sŵn lleol yng Nghymru. Ar 15 Mehefin 2017, sef Diwrnod Aer Glân, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau polisi statudol newydd[24] o dan adran 88 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, gan roi llawer o gynigion yr ymgynghoriad ar waith. Bellach mae'n rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru ystyried y canllawiau hyn wrth gyflawni eu swyddogaethau rheoli ansawdd aer lleol o dan Ran IV o Ddeddf 1995[25] i'r graddau y mae'n ymwneud â'r swyddogaethau hynny.

3.2 Yr hyn y mae'r canllawiau polisi yn ei ddweud am sŵn

3.2.1 Mae gan lygredd sŵn amgylcheddol a gludir yn yr awyr, sy'n golygu sain ddiangen neu niweidiol o drafnidiaeth a diwydiant, a llygredd aer lawer yn gyffredin. Mae ffynonellau llygredd aer a ffynonellau llygredd sŵn amgylcheddol yn tueddu i fod yn union yr un peth neu mae cysylltiad agos rhyngddynt, mae eu llwybrau trawsyrru yn debyg, ac mae'r derbynyddion yr effeithir arnynt fwyaf yn aml yn perthyn i'r un categori o bobl hefyd, sef y rhai sydd wedi'u lleoli agosaf at y ffynhonnell.

3.2.2 Ar gyfer traffig ffyrdd sy'n teithio ar gyflymder sefydlog, mae allyriadau llygredd aer a sŵn yn cynyddu neu'n lleihau yn gymesur â nifer y cerbydau. Yn aml y cerbydau mwyaf swnllyd yw'r cerbydau mwyaf brwnt a'r cerbydau tawelaf yw'r cerbydau glanaf. Mae lefelau llygredd aer a sŵn ar eu huchaf ger y ffordd ei hun ac maent yn gostwng gyda phellter. Gall adeiladau a thir atal neu sianeli llygredd aer a sŵn. Gall traffig sy'n teithio'n gyflym iawn a thagfeydd traffig arwain at lefelau uchel o lygredd aer a sŵn. At hynny, mae rhai effeithiau andwyol wedi'u cysylltu â llygredd aer a sŵn, er enghraifft mwy o risg o gael clefyd cardiofasgwlaidd.

3.2.3 Am yr holl resymau hyn, mae'n gwneud synnwyr ystyried y ddwy ffurf ar lygredd traffig a gludir yn yr awyr gyda'i gilydd. Byddai eu hystyried ar wahân, ar y gorau, yn arwain at ddyblygu ymdrech a cholli cyfleoedd ac, ar y gwaethaf, at roi polisïau croes ar waith.

[24] https://gov.wales/docs/desh/publications/170614-policy-guidance-cy.pdf
[25] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1995/25/part/IV

3.2.4 Pryd bynnag y byddant yn datblygu cynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol neu bolisïau ehangach er mwyn gwella ansawdd aer, dylai awdurdodau lleol ofyn y cwestiynau canlynol iddynt eu hunain:

- A oes problemau sy'n bodoli eisoes o ran sŵn amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r problemau hysbys o ran ansawdd aer? Os felly, a allwn fynd i'r afael â nhw ar yr un pryd?

- A oes risg y bydd rhai o'n camau gweithredu arfaethedig i wella ansawdd aer yn gwneud y sefyllfa o ran llygredd sŵn yn waeth? Os felly, sut y gallwn leihau'r risg hon?

Blwch 3.1

Diben rheoli ansawdd aer lleol yw gwella iechyd ac ansawdd bywyd pobl. Bydd y gwelliant hwn i iechyd ac ansawdd bywyd yn fwy os byddwn yn llwyddo i wella seinweddau ochr yn ochr â lleihau llygredd aer.

3.3 Yr hyn y mae'r canllawiau polisi yn ei ddweud am seilwaith gwyrdd

3.3.1 Mae seilwaith gwyrdd yn cyfeirio at ardaloedd naturiol neu led-naturiol sydd wedi'u gorchuddio'n rhannol neu'n gyfan gwbl â llystyfiant neu ddŵr mewn ardaloedd adeiledig neu'n agos atynt. Mae'n cynnwys parciau a gerddi, coetiroedd, rhandiroedd, gwarchodfeydd natur, pyllau, llynnoedd, afonydd, camlesi, gwlyptiroedd a llwybrau oddi ar y ffordd y mae llystyfiant neu ddŵr yn ffinio â nhw, sy'n darparu cynefin ar gyfer bywyd gwyllt ac y gellir eu defnyddio ar gyfer hamdden, addysg neu deithio llesol.

3.3.2 Gall coed, gwrychoedd a seilwaith gwyrdd yn fwy cyffredinol gyfrannu at leihau effeithiau niweidiol llygredd aer a sŵn mewn sawl ffordd:

- Drwy dynnu llygredd o'r aer a helpu i'w wasgaru, a thrwy amsugno a gwasgaru sŵn a lleihau'r canfyddiad ohono.

- Drwy roi pellter clustogi rhwng pellterau a derbynyddion.

- Drwy alluogi teithio llesol oddi ar y ffordd a'i wneud yn ddewis amgen deniadol yn lle defnyddio cerbydau modur, gan leihau allyriadau cerbydol y defnyddiwr a'i amlygiad personol i lygredd.

- Drwy ddarparu amgylcheddau llonydd a seinweddau cadarnhaol, sy'n gostwng y lefelau straen sy'n gysylltiedig â ffyrdd prysur.

- Drwy annog chwaraeon a mathau eraill o weithgareddau hamdden awyr agored a gwella iechyd pobl yn gyffredinol, gan eu gwneud yn fwy abl i wrthsefyll y risgiau i iechyd sy'n gysylltiedig â llygredd aer a sŵn.

3.3.3 At hynny, gall presenoldeb coed a gwrychoedd wrth ymyl y ffordd neu ar hyd y llain ganol dawelu modurwyr gan beri iddynt yrru'n fwy llyfn.

Blwch 3.2

Drwy roi'r Polisi Adnoddau Naturiol ar waith, mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu'r gwaith o ddarparu atebion sy'n seiliedig ar natur er mwyn gwella ein cydnerthedd cymdeithasol, ecolegol ac economaidd. Dylid rhoi sylw dyledus i atebion o'r fath wrth ddatblygu unrhyw gynllun neu strategaeth i fynd i'r afael â llygredd aer a/neu sŵn yn lleol ac yn rhanbarthol.

3.4 Yr hyn y mae'r canllawiau polisi yn ei ddweud am adroddiadau cynnydd ansawdd aer blynyddol

3.4.1 Mae gan aelodau'r cyhoedd hawl, nid yn unig i wybod y graddau y maent yn cael eu hamlygu i lygredd a gludir yn yr awyr, ond hefyd p'un a yw'r cyrff cyhoeddus perthnasol yn ei drin fel blaenoriaeth. O 2018 ymlaen, yn ogystal ag adrodd ar y cynnydd sydd wedi'i wneud mewn perthynas ag ardaloedd rheoli ansawdd aer, dylai pob adroddiad cynnydd blynyddol hefyd nodi'r canlynol:

- p'un a ymdrinnir â llygredd aer a/neu sŵn amgylcheddol yn amcanion llesiant yr awdurdodau lleol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac, os felly, sut yr ymdrinnir ag ef, a pha gynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni'r amcanion llesiant hynny hyd yma;

- pa bolisïau, os oes unrhyw rai (e.e. sy'n ymwneud â chynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth, seilwaith gwyrdd a theithio llesol), y mae awdurdodau lleol wedi'u rhoi ar waith er mwyn lleihau lefelau cyffredinol o nitrogen deuocsid, deunydd gronynnol a llygredd sŵn amgylcheddol ar gyfer y boblogaeth gyfan, gan ystyried dangosyddion amlygiad ansawdd aer Cymru a'r mapiau sŵn cenedlaethol.

3.4.2 Dylai pob adroddiad cynnydd blynyddol nodi p'un a yw gweithgarwch monitro ansawdd aer, dangosyddion amlygiad ansawdd aer Cymru a'r mapiau sŵn cenedlaethol wedi llywio, neu a fyddant yn llywio, asesiadau byrddau gwasanaethau cyhoeddus o lesiant lleol a sut maent wedi gwneud hynny.

3.5 Yr hyn y mae'r canllawiau polisi yn ei ddweud am gynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol

3.5.1 Dylai unrhyw gynllun gweithredu newydd neu wedi'i ddiweddaru ar gyfer ansawdd aer lleol o 2017 ymlaen nodi sut mae camau gweithredu'n cael eu datblygu, nid yn unig er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth dechnegol ag amcanion ansawdd aer, ond hefyd eu bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at leihau lefelau cyffredinol o nitrogen deuocsid, deunydd gronynnol a llygredd sŵn amgylcheddol ar gyfer y boblogaeth yn gyffredinol, er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl o ran iechyd y cyhoedd.

3.5.2 Er mwyn bod yn glir, nid yw Llywodraeth Cymru yn awgrymu y dylai awdurdodau lleol allu dangos bod lefelau llygredd sŵn ac aer wedi gostwng ledled eu hardal gyfan drwy fesur lefelau llygredd a phriodoli'r gostyngiadau hynny i gynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol. Fodd bynnag, gofynnir iddynt ystyried unrhyw fanteision posibl o ran lleihau llygredd a gludir yn yr awyr yn fwy cyffredinol wrth ddewis a blaenoriaethu mesurau yn eu cynlluniau gweithredu. Dylai'r ffordd hon o feddwl ddod yn naturiol dros amser wrth i'r ffyrdd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddod yn fwy cyffredin mewn awdurdodau lleol. Wrth weithio yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, dylai awdurdodau lleol, fel rhan o'r drefn, geisio manteisio ar unrhyw gyfleoedd i sicrhau manteision ehangach sy'n codi o'u gweithgareddau, gan gynnwys y canlyniadau i iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig â'r ffordd y maent yn dewis ac yn blaenoriaethu camau gweithredu yn eu cynlluniau gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol. Dylid cynnwys naratif ar yr ystyriaethau ehangach hyn mewn cynlluniau gweithredu.

3.6 Parthau Aer Glân

3.6.1 Ystyrir bod dynodi Parth Aer Glân yn ymrwymiad llawer cryfach i sicrhau gwelliannau gwirioneddol o ran ansawdd aer mewn ardal na dynodi ardal rheoli ansawdd aer o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ei wneud ble bynnag y maent yn nodi achosion o fethu â chydymffurfio ag un o'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol. Mae datgan ardal rheoli ansawdd aer yn sbarduno gofyniad i lunio cynllun gweithredu ynghylch ansawdd aer lleol er mwyn ceisio cyrraedd safonau a chyflawni amcanion ansawdd aer yn yr ardal ddynodedig. Er mai'r prif ofyniad, mewn ardal rheoli ansawdd aer, yw ceisio sicrhau cydymffurfiaeth â'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol, mewn Parth Aer Glân y prif ofyniad yw sicrhau gwelliannau i ansawdd aer cyn gynted â phosibl.

3.6.2 Mae'r Fframwaith Parthau Aer Glân drafft i Gymru yn nodi y dylai Parth Aer Glân wneud y canlynol:

- ystyried pob ffynhonnell o lygredd aer a sŵn amgylcheddol (nid y defnydd o ffyrdd yn unig);

- cymryd camau gweithredu wedi'u targedu mewn ardal benodol i wella ansawdd aer a seinweddau, a thrwy wneud hynny wella iechyd a llesiant y boblogaeth;

- ceisio lleihau pob math o lygredd a gludir yn yr awyr, gan gynnwys sŵn amgylcheddol;

- sicrhau bod y gwelliannau amgylcheddol a gyflawnir yn rhai parhaus;

- gweithredu yn erbyn cynnydd posibl mewn llygredd o ganlyniad i dwf yn y boblogaeth, datblygiadau newydd neu newidiadau i ddefnydd tir neu adeiladau.

3.6.3 Er y gall cydymffurfio â deddfwriaeth ynglŷn ag ansawdd aer fod yn ffactor ysgogi allweddol i awdurdodau lleol sy'n ystyried cyflwyno Parth Aer Glân, bydd y manteision iechyd cyffredinol a sicrheir drwy leihau amlygiad y cyhoedd i lygredd a gludir yn yr awyr, a ddylai ddeillio o weithredu Parth Aer Glân, yn ystyriaeth bwysig hefyd.

3.6.4 Mae'r Fframwaith drafft yn nodi, wrth gynnal gweithgarwch ymgysylltu, y dylid nodi'r manteision iechyd a'r manteision amgylcheddol a sicrheir drwy wella ansawdd aer a seinweddau yn glir, ac esbonio'r rhesymau dros y Parth Aer Glân yn y cyd-destun hwn. Mae codi ymwybyddiaeth o'r problemau iechyd sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer gwael a sŵn amgylcheddol yn bwysig i sicrhau bod y cyhoedd yn cael y wybodaeth angenrheidiol a'u bod yn deall yr angen i weithredu. Mae lleihau tagfeydd ar ffyrdd a gwneud strydoedd yn lleoedd diogelach, glanach a mwy dymunol yn ddyhead cadarnhaol, ar y cyfan, y gellir disgwyl i'r cyhoedd ymgysylltu ag ef. Gall defnyddio'r negeseuon hyn mewn gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd helpu i ddylanwadu ar ymddygiad pobl gan eu helpu i symud tuag at ddulliau glanach o deithio.

3.6.5 Mae'r Fframwaith drafft yn nodi, os rhagwelir manteision o ran lleihau sŵn fel mantais ychwanegol sy'n deillio o'r Parth Aer Glân, y dylid cymryd mesuriadau sŵn sylfaenol fel y gellir mesur y gwelliannau hynny. Dylid parhau i gymryd darlleniadau dros amser ar ôl i'r Parth Aer Glân gael ei lansio er mwyn monitro newidiadau o ran llygryddion targed a darparu gwerthusiad cadarn o'r effeithiau amgylcheddol a'r effeithiau ar iechyd yn erbyn rhagolygon.

Blwch 3.3

Drwy ddiffinio sŵn amgylcheddol fel llygrydd a gludir yn yr awyr o fewn ei Rhaglen Aer Glân, bydd Llywodraeth Cymru yn creu cyfleoedd, ac yn ceisio nodi unrhyw gyfleoedd, i gysoni polisïau a rheoliadau sŵn/seinwedd a pholisïau a rheoliadau ansawdd aer yng Nghymru ymhellach dros y pum mlynedd nesaf, er mwyn sicrhau bod nifer o fanteision yn deillio o'n camau gweithredu.

4 Cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd

4.1 Canolbwyntio ar greu lleoedd

4.1.1 Mae rôl **creu lleoedd** fel rhan o weithgarwch cynllunio gwlad a thref yn ffocws allweddol i Bolisi Cynllunio Cymru, sef prif ddogfen polisi cynllunio Llywodraeth Cymru. Mae creu lleoedd yn ddull amlochrog o gynllunio, dylunio a rheoli mannau ac mae'n cyd-fynd yn agos ag amcanion ehangach Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n rhan o'r system gynllunio feddwl am leoedd a llesiant mewn ffordd gydgysylltiedig yn hytrach nag ymdrin â materion unigol ar eu pen eu hunain. Rhoddir lefel briodol o ddiogelwch i faterion hollbwysig bob amser, ond dylai'r Polisi Cynllunio Cymru newydd hefyd osod y sail ar gyfer meddwl ac ymddwyn yn wahanol fel rhan o'r broses o bennu canlyniadau dymunol. Dylai dull creu lleoedd anelu'n bennaf at fanteisio ar asedau, ysbrydoliaeth a photensial cymuned leol, gyda'r bwriad o greu datblygiadau sy'n hyrwyddo iechyd, hapusrwydd a llesiant.

4.1.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru wedi'i ailwampio'n llwyr er mwyn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio yn darparu cysylltiadau drwy'r ddogfen, o ran ei strwythur a'i gynnwys. Mae Polisi Cynllunio Cymru bellach yn seiliedig ar bedair prif thema sydd, gyda'i gilydd, yn hyrwyddo creu lleoedd a datblygu cynaliadwy. Y themâu hyn yw creu lleoedd, lleoedd actif a chymdeithasol, lleoedd cynhyrchiol a mentrus a lleoedd unigryw a naturiol. Mae'r defnydd o'r pedair thema yn ei gwneud yn bosibl i'r cysylltiadau cyffredin rhwng meysydd polisi gael eu nodi, ond nid yw'n gwthio polisi i mewn i saith maes ar wahân y nodau llesiant. Mae'n cymhwyso'r nodau mewn ffordd ymarferol sy'n ateb diben y system gynllunio, tra'n parhau i bwysleisio'r angen i ystyried pob agwedd ar y nodau ar yr un pryd a, lle y bo'n ymarferol, mewn ffordd integredig.

4.1.3 Mae pob thema yn cynnwys gwybodaeth am y cysylltiad sydd rhyngddo a'r nodau llesiant a'r tueddiadau hirdymor y mae angen i bob thema ymdrin â nhw ac mae'n dangos sut y gall prosesau llunio polisi cydgysylltiedig gyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy, da. Yng nghyd-destun y ddogfen, mae cysylltiadau â'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn cael eu nodi.

4.1.4 Ar y cyfan, mae'r fersiwn ddiwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru yn canolbwyntio'n gryf ar gydnabod, deall a gwerthfawrogi gwahanol nodweddion lleoedd fel rhan o'r broses o sicrhau bod y system gynllunio yn cyfrannu cymaint â phosibl at gyflawni'r nodau llesiant. Mae hyn yn cynnwys y nodweddion hynny sy'n ymwneud ag ansawdd amgylcheddol yn ogystal â dyheadau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd. Gall y ffordd y mae lleoedd yn gweithredu effeithio ar y dewisiadau y mae pobl yn eu gwneud yn eu bywydau bob dydd ac, felly, dylid anelu at sicrhau gwelliannau amgylcheddol yn yr amgylchedd adeiledig, yn ogystal â mynd i'r afael â'r effeithiau. Mae gwaith dylunio da yn rhan sylfaenol o hyn. Mae a wnelo dylunio â'r cydberthnasau rhwng elfennau o'r amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig. Dylai gwaith dylunio da, yn ogystal â sicrhau ansawdd amgylcheddol uchel, fod yn ffordd effeithiol o gysylltu anheddau, gweithleoedd a chyfleusterau cymunedol, gan sicrhau bod mannau agored hygyrch yn cael eu darparu a bod modd rheoli risgiau yn sensitif, gan gynnwys amlygiad i lygredd a gludir yn yr awyr.

4.1.5 Dylai canlyniadau gweithgarwch creu lleoedd adlewyrchu pwysigrwydd aer glân a seinweddau priodol ochr yn ochr ag amrywiaeth o nodweddion eraill sy'n rhan annatod o leoedd. Er enghraifft, mae adran newydd yn yr ymgynghoriad drafft yn hyrwyddo lleoedd iachach yn benodol, a fydd yn sicrhau bod cynlluniau datblygu a datblygiadau unigol yn ceisio cael effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant y cyhoedd. Mae'r angen i leihau llygredd a mynd i'r afael â risgiau amgylcheddol eraill yn allweddol, tra'n cydnabod y rôl y mae'r nodweddion amgylcheddol hyn yn ei chwarae wrth hyrwyddo llesiant corfforol a meddyliol a chreu mannau llonydd mewn amgylcheddau prysur ar yr un pryd.

4.2 Yr hyn y mae'r polisi cynllunio newydd yn ei ddweud am ansawdd aer a seinwedd

4.2.1 Ymdrinnir ag ansawdd aer a seinwedd fel elfen allweddol o'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, gan sicrhau bod y materion yn cael eu trin yn gyfartal â'r amcanion eraill megis tai, trafnidiaeth a datblygu economaidd. Mae'r diwygiadau i Bolisi Cynllunio Cymru yn cydnabod pwysigrwydd ansawdd aer a seinweddau priodol i iechyd a llesiant pobl a'r amgylchedd. Bydd Polisi Cynllunio Cymru yn sicrhau bod dulliau gweithredu hirdymor yn cael eu mabwysiadu er mwyn atal problemau newydd rhag cael eu creu neu broblemau sy'n bodoli eisoes rhag cael eu gwaethygu a cheisio annog atebion integredig sydd â'r nod o ostwng lefelau cyfartalog o lygredd a gludir yn yr awyr.

4.2.2 Mae'r polisi terfynol yn cydnabod nad yw'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn derfynau ‘diogel’ ac nad ticio blychau sy'n ymwneud â'r trothwyon hyn yw'r nod, er ei bod yn wir y byddant yn cael eu hystyried mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Cyflwynir y cysyniad o seinweddau i bolisi cynllunio, gan gydnabod y rôl gadarnhaol y maent yn ei chwarae wrth greu ymdeimlad o le, yn hytrach na chanolbwyntio ar sŵn fel ffurf ar lygredd yn unig.

4.2.3 Er gwaethaf y nodau cyffredinol o ran creu lleoedd a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru, y prif ddull o gyfleu mater penodol ansawdd aer a seinwedd yn y polisi newydd yw drwy fframwaith arweiniol, wedi'i ategu gan ystyriaethau manylach. Mae'r fframwaith yn seiliedig ar bolisi allweddol hirsefydlog, sef y bydd angen i bawb sy'n cymryd rhan yn y broses gynllunio ystyried yr effeithiau y caiff datblygiadau arfaethedig ar ansawdd aer neu seinwedd a'r effeithiau y gallai ansawdd presennol aer a seinwedd eu cael ar ddatblygiadau arfaethedig. Wedyn, bydd yn bosibl hidlo i lawr i ystyriaethau manylach, megis y gydberthynas rhwng ffynonellau llygredd a derbynyddion, gan nodi'r dewisiadau sydd ar gael mewn ardaloedd lle y ceir problemau eisoes ac, yn fwy cyffredinol, geisio sicrhau yr ymgorfforir mesurau i leihau amlygiad cyffredinol i lygredd a gludir yn yr awyr a chynnal neu greu seinweddau priodol. Mae'r testun manwl yn tynnu sylw at faterion megis pwysigrwydd ymgorffori seilwaith gwyrdd yn yr amgylchedd adeiledig yn ogystal â defnyddio arfer gorau ym maes dylunio acwstig.

4.2.4 Y gwahaniaeth allweddol yn y fersiwn ddrafft hon o Bolisi Cynllunio Cymru yw'r ffaith bod y materion hyn yn cael eu trin yn gyfartal gan bob cyfranogwr yn y broses gynllunio er mwyn ysgogi'r newid a ddymunir. Ni fydd yn dderbyniol rhoi'r materion hyn o'r neilltu dros dro fel materion technegol i'w hystyried ar ddiwedd y broses mwyach. Maent yn ffactorau a ddylai effeithio ar ddewisiadau polisi cychwynnol wrth lunio cynlluniau datblygu ac, yn yr un modd, mae'n rhaid iddynt gael eu hystyried wrth ddewis y lleoliad gyfer gwaith datblygu i ddechrau, lle y bo'n briodol, ac yn ystod camau dylunio cynnar datblygiadau a phrosiectau.

4.3 Egluro egwyddor ‘cyfrwng newid’

4.3.1 Mae egwyddor **cyfrwng newid** yn synnwyr cyffredin yn hytrach nag egwyddor gymhleth. Dywed fod busnes neu unigolyn sy'n gyfrif am gyflwyno newid yn gyfrifol am reoli'r newid hwnnw. Honnir y gall arwain at waith cynllunio gwell, datblygiadau gwell a mwy o gymhelliant i bobl feddwl am yr hyn sy'n bodoli yn y lleoedd y maent am fyw ynddynt a sut y byddant yn byw gydag ef. Mae hefyd yn annog busnesau, megis lleoliadau cerddoriaeth ac eraill, i feddwl mwy am eu cymdogion.

4.3.2 Daeth yn fwyfwy amlwg wrth ddiwygio Polisi Cynllunio Cymru, wrth gefnogi economi liw nos, fod angen rhoi sylw penodol i gydweddoldeb defnyddiau gwahanol ac agendâu croes. Mae ceisio cysgu gan geisio ymdopi â sŵn yn y nos yn broblem fawr iawn ac mae angen ystyried ffactorau iechyd a llesiant wrth hyrwyddo tai ger ffynonellau sŵn.

4.3.3 Yn yr un modd, mae economi liw nos yn bwysig yn economaidd yn ogystal â darparu ar gyfer profiadau diwylliannol ac adloniant poblogaidd, sy'n rhan bwysig iawn o ffyrdd o fyw modern. Mae angen sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng darparu tai, galluogi profiadau ymwelwyr, diogelu lleoliadau y gall sŵn fod yn gysylltiedig â nhw, er enghraifft, lleoliadau cerddoriaeth fyw neu eglwysi, a sicrhau iechyd a llesiant trigolion lleol.

4.3.4 O ganlyniad i hyn, mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys cyfeiriad clir a phenodol at egwyddor cyfrwng newid fel rhan o'r broses o gydnabod seinweddau gwahanol ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r egwyddor gael ei hystyried fel rhan o bob penderfyniad cynllun datblygu a phob penderfyniad ynghylch rheoli datblygu sy'n ymwneud â chydweddoldeb defnyddiau a seinwedd. Mae hefyd yn darparu ar gyfer rhoi sylw penodol i gydweddoldeb defnyddiau mewn perthynas â seinwedd wrth lunio cynlluniau datblygu, gan gynnwys p'un a oes angen nodi ardaloedd o arwyddocâd diwylliannol neu ardaloedd lle mae'r ystyriaethau o ran seinwedd yn arbennig o sensitif.

4.3.5 Mae nodi'r egwyddor yn glir fel mater o bolisi ym Mholisi Cynllunio Cymru yn golygu y byddai'n rhaid i ddatblygwr sicrhau y gellir dod o hyd i atebion i fynd i'r afael â sŵn o seilwaith neu fusnesau sy'n bodoli eisoes gerllaw a'u rhoi ar waith fel rhan o'r broses o sicrhau bod y datblygiad yn dderbyniol. Dyma beth mae'r polisïau cynllunio eisoes yn ei wneud, yn y bôn, ond drwy gyfeirio'n benodol at yr egwyddor, gellir sicrhau manteision ymddygiadol ehangach o ran gwella arfer cynllunio a hyrwyddo gwerthfawrogiad ehangach o natur lleoedd.

4.3.6 Mae angen i'r nodweddion gwahanol sy'n rhoi hunaniaeth i leoedd gael eu cydnabod yn llawn fel rhan o'r gwaith o lunio cynlluniau ac mewn perthynas â phenderfyniadau ar geisiadau cynllunio, a rhaid rhoi atebion priodol ar waith. Mae a wnelo'r newidiadau yn y fersiwn ddiwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru ag unioni'r fantol, gan sicrhau y rhoddir yr un sylw i bob mater ac na chaiff materion sy'n ymwneud ag ansawdd aer a sŵn eu diraddio i ddim mwy na mater technegol neu ôl-ystyriaeth.

4.4 Dylunio acwstig

4.4.1 Mae'r Rheoliadau Adeiladu, sydd bellach wedi'u datganoli i Gymru, yn ymwneud â diogelu rhag trawsyrru sain o rannau o adeilad ac adeiladau cyfagos, sain mewn anhedd-dy, atseinio sain mewn rhannau mewnol cyffredin o adeiladau sy'n cynnwys fflatiau neu ystafelloedd at ddibenion preswyl, ac amodau acwstig mewn ysgolion. Mae Cynllun Robust Details yn darparu manylion safonol sydd wedi'u hachredu ar gyfer adeiladu i'w defnyddio yn lle'r profion cyn cwblhau adeiladau sy'n ofynnol fel arall o dan y Rheoliadau Adeiladu.

4.4.2 Mae'r Rheoliadau Adeiladu yn ymwneud â thrawsyrru sain o fewn rhannau mewnol adeiladau. Nid ydynt yn gymwys i drawsyrru sain o'r amgylchedd allanol i rannau mewnol adeiladau. Pan gaiff adeiladau sy'n sensitif i sŵn, megis eiddo preswyl, eu codi mewn ardal lle y ceir lefelau uchel o sŵn amgylcheddol, dylai awdurdodau cynllunio ddiogelu'r bobl a fydd yn eu meddiannu yn y dyfodol drwy osod amodau neu rwymedigaethau priodol ar y datblygwr ar y cam cynllunio, er enghraifft, er mwyn osgoi lleoli ystafelloedd gwely, ystafelloedd byw a gerddi ar ochr yr adeilad sy'n agored i sŵn. Mewn llawer o achosion, gallai hyn ychwanegu at werth yr eiddo heb fawr ddim cost ychwanegol, os o gwbl.

4.4.3 Mae gofynion o ran awyru yn ystyriaeth bwysig wrth ddylunio adeiladau am fod hyn yn gallu effeithio ar gysur acwstig y bobl sy'n eu meddiannu. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghanol dinasoedd lle y gall fod sŵn gormodol allanol. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, mae'n bosibl y bydd yn rhaid awyru adeiladau drwy ddefnyddio dull mecanyddol yn hytrach nag un naturiol.

4.4.4 Mae Safon Brydeinig 8233:2014 yn darparu gwybodaeth am ddylunio adeiladau sydd ag amgylcheddau acwstig mewnol sy'n briodol i'w swyddogaethau. Mae'n ymdrin â rheoli sŵn o'r tu allan i'r adeilad, sŵn o beiriannau a gwasanaethau y tu mewn iddo ac acwsteg ystafelloedd ar gyfer sefyllfaoedd nad ydynt yn rhai critigol. Bwriedir iddi gael ei defnyddio gan ddylunwyr ac adeiladwyr adeiladau nad ydynt yn arbenigwyr a'r rhai sy'n ymwneud â rheoli adeiladu, cynllunio ac iechyd amgylcheddol. Dylech nodi, serch hynny, bod y canllawiau hyn yn ymwneud â sŵn anhysbys, ac efallai y bydd angen cyngor arbenigwyr i benderfynu ar y meini prawf priodol ar gyfer lleihau ffynonellau sŵn penodol.

4.4.5 Mae Safon Brydeinig 5228:2009+A1:2014 yn cyfeirio at yr angen i ddiogelu pobl sy'n byw ac yn gweithio ger safleoedd adeiladu a safleoedd agored, ac sy'n gweithio ar safleoedd o'r fath, rhag sŵn a dirgrynu. Gall sŵn a dirgrynu beri cryn aflonyddwch ac anghyfleustra i unrhyw un a gaiff ei amlygu iddynt ac i'r prosesau a'r gweithgareddau mewn adeiladau cyfagos. O dan amgylchiadau eithafol, gall dirgrynu ddifrodi adeiladau neu gyfrannu at eu difrodi. Mae Safon Brydeinig 5228 yn argymell gweithdrefnau ar gyfer rheoli sŵn a dirgrynu mewn perthynas â gweithrediadau adeiladu ac yn ceisio cynorthwyo penseiri, contractwyr, gweithredwyr safle, dylunwyr, datblygwyr, peirianwyr, swyddogion iechyd yr amgylchedd a chynllunwyr.

4.4.6 Mae Bwletin Adeiladu 93 (BB93), *Acoustic design of schools: performance standards*[26], a gyhoeddwyd gan yr Adran Addysg yn Lloegr, wedi'i fabwysiadu i'w ddefnyddio yng Nghymru. Mae Dogfen Gymeradwy E o Reoliadau Adeiladu 2010[27] yn cyfeirio at y defnydd o BB93, a'r ffordd arferol o fodloni Rheoliad E4 o'r Rheoliadau hynny[28] fydd cydymffurfio â'r gwerthoedd ar gyfer inswleiddio rhag sain, amser atseinio a sŵn amgylchol dan do a nodir yn BB93.

4.4.7 Fodd bynnag, mae a wnelo **gwaith dylunio acwstig da** â mwy na'r ffigurau yn unig. Proses ddylunio gyfannol ydyw sy'n creu lleoedd sy'n gyfforddus ac yn ddeniadol i fyw ynddynt, lle yr ystyrir bod acwsteg yn rhan annatod o'r amgylchedd byw. Am ragor o wybodaeth am egwyddorion gwaith dylunio acwstig da, cyfeirir darllenwyr at Ddogfen Ategol 2 o'r Canllawiau Cynllunio Proffesiynol (ProPG), a luniwyd gan Gymdeithas yr Ymgynghorwyr Sŵn, y Sefydliad Acwsteg a Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd[29]. Ysgrifennwyd ProPG yn bennaf er mwyn cynorthwyo gyda'r broses gynllunio yn Lloegr, ond gall yr egwyddorion dylunio a gyflwynir yn Nogfen Ategol 2 gael eu mabwysiadu yng Nghymru hefyd.

4.4.8 Gall mannau tawel gael eu creu trwy gyfuno dyluniad adeilad, dylunio adeiladau gwyrdd, plannu planhigion a sgrinio rhag sŵn trefi. Darllenwch y bennod nesaf am drafodaeth bellach am fannau gwyrdd llonydd mewn trefi a dinasoedd.

[26] https://www.gov.uk/government/publications/bb93-acoustic-design-of-schools-performance-standards
[27] https://gov.wales/docs/desh/publications/170403building-regs-approved-document-e-resistance-to-sound-en.pdf
[28] https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2010/2214/schedule/1/made
[29] http://www.association-of-noise-consultants.co.uk/propg

4.5 Inswleiddiad acwstig, defnyddio ynni'n effeithlon a gordwymo

4.5.1 Gall y dull(iau) adeiladu a ddewisir gael cryn effaith ar berfformiad acwstig yn gyffredinol. Mae cydbwysedd deunyddiau, gwagleoedd ac uniadau yn cyfuno mewn ffordd a all sicrhau lefel uchel o berfformiad acwstig. Bydd angen cynnwys manylion hanfodol y gwahanol fathau o ddeunyddiau sy'n cael eu defnyddio gyda'i gilydd mewn un adeiladwaith, yn enwedig os oes angen arbed ynni a sicrhau perfformiad acwstig.

4.5.2 Un o fanteision eraill gwella effeithlonrwydd ynni adeilad yw y gall leihau lefelau sŵn y tu mewn i'r eiddo. Yn benodol, mae ffenestri gwydr dwbl neu driphlyg yn atal gwres rhag dianc a sain rhag cael ei drawsyrru o'r ffordd y tu allan i ystafelloedd gwely ac ystafelloedd byw. Fodd bynnag, gall agor y ffenestri yn ystod tywydd cynnes er mwyn awyru'r eiddo arwain at gynnydd amlwg mewn lefelau sŵn, yn enwedig os cânt eu gadael ar agor yn y nos. Felly, mewn ardaloedd swnllyd iawn efallai y bydd angen dulliau awyru eraill, y gall cost ynni fod yn gysylltiedig â nhw. Os oes gan y breswylfa ffasâd tawel, bydd gwaith dylunio da yn darparu ar gyfer system awyru ddigonol drwy ffenestri ar yr ochr honno i'r adeilad yn hytrach nag ar yr ochr sy'n agored i sŵn, er mwyn lleihau'r angen i osod system awyru fecanyddol sy'n defnyddio ynni.

4.5.3 Gall deunydd inswleiddio llofftydd a waliau ceudod, y bwriedir iddo atal gwres rhag dianc yn bennaf, hefyd leihau lefelau sŵn y tu mewn i eiddo, ond dim ond mewn achosion lle mae'n cau'r prif lwybr lledaenu sain. Os bydd sŵn yn mynd i mewn i eiddo yn bennaf drwy ffenestri neu o eiddo cyfagos drwy uniadau solet yn hytrach na thrwy groesi bylchau aer, prin yw'r manteision acwstig a fydd yn deillio o lenwi'r bylchau hynny ag amsugnydd sain, os bydd unrhyw fanteision o gwbl.

4.5.4 Mae canllaw drafft Cymdeithas yr Ymgynghorwyr Sŵn *Acoustics, Ventilation and Overheating Guide*[30] yn nodi, er mai awdurdodau cynllunio lleol sy'n gyfrifol am asesu a gorfodi mesurau i leihau sŵn allanol, bod systemau awyru'n dod o dan y Rheoliadau Adeiladu ac er nad oes gofyn statudol i asesu'r potensial i ordwymo mewn anheddau, gellid cynnal asesiad o'r fath i ateb gofynion cynllunio a/neu ddatblygu. Felly, yn ogystal â bod yn gyfrifoldeb dylunwyr gwahanol, caiff pob agwedd ei hasesu gan gyrff gwahanol yn ôl gofynion gwahanol o bosib. Mae'r canllaw drafft yn argymell bod asesiadau acwstig o ddatblygiadau preswyl newydd yn ystyried y gyd-berthynas rhwng acwsteg, awyru a gordwymo.

Blwch 4.1

Bydd Llywodraeth Cymru yn adeiladu ar gynnwys newydd Polisi Cynllunio Cymru sy'n ymwneud ag ansawdd aer a seinwedd wrth inni ddatblygu Fframwaith Datblygu statudol cyntaf Cymru a llunio canllawiau pellach ar ansawdd aer a seinwedd er mwyn cynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru.

Yn benodol, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad manwl o Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 11: Sŵn[31] gyda'r bwriad o gyflwyno TAN newydd yn ei le a fydd yn ymdrin ag ansawdd aer a seinwedd.

[30] http://www.association-of-noise-consultants.co.uk/wp-content/uploads/2018/02/AVO-Guide-draft-for-consultation.pdf

[31] https://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan11/?lang=cy a https://gov.wales/topics/planning/policy/policyclarificationletters/2015/cl-01-15/?lang=cy

5 Mannau gwyrdd llonydd yn yr amgylchedd adeiledig

5.1 Trosolwg

5.1.1 Mae **llonyddwch** yn golygu pethau gwahanol i bobl wahanol ond, yn gyffredinol, deëllir ei fod yn cyfeirio at gyflwr diofid a nodweddir gan heddwch a thawelwch a lle nad oes unrhyw aflonyddu diangen. Gall hyn gyfeirio at gyflwr meddwl neu ansawdd amgylchedd penodol. Gellir ei fesur naill ai yn nhermau absenoldeb ymyrraeth ddiangen neu drwy gydbwyso ffactorau cadarnhaol a negyddol.

5.1.2 Mae lefelau rhy uchel o sŵn lle mae pobl yn bresennol yn broblem i'w hosgoi neu ei datrys ni waeth beth yw nodweddion eraill yr ardal, ond nid yw tawelwch ar ei ben ei hun yn golygu bod ardal yn ddymunol. Os yw lle sy'n agored i'r cyhoedd yn hyll neu'n peri i bobl deimlo'n anniogel, yna ni fydd fawr o werth i'r tawelwch sydd yno.

5.1.3 Gall ardal gynnig heddwch a thawelwch, neu seinwedd naturiol lle mae seiniau naturiol megis dŵr yn llifo, cân adar, y gwynt yn y coed a phobl yn sgwrsio yn fwy amlwg na sŵn traffig cefndir. Fodd bynnag, dim ond pan fyddant yn cyd-ddigwydd â harddwch gweledol, ymdeimlad o ddiogelwch a mynediad hawdd y gellir gwireddu nodweddion lle o'r fath yn llawn. Mae presenoldeb natur mewn trefi a dinasoedd hefyd yn cynnig gwrthgyferbyniad i'r amgylchedd adeiledig a rhyddhad oddi wrtho, sydd i'w groesawu.

5.1.4 Yr ardaloedd lle y ceir yr holl nodweddion hyn ochr yn ochr â'i gilydd (er enghraifft, safleoedd sydd wedi ennill Baner Werdd) yw'r rhai a ddylai gael eu diogelu fwyaf rhag ymyrraeth sŵn a fyddai'n peryglu'r ymdeimlad cyffredinol o lonyddwch a geir yn y lle.

5.1.5 Yn ôl y rhesymu uchod, gall fod gan ardal seinwedd dda ond efallai y bydd angen gwneud gwelliannau penodol iddi o ran tirwedd, natur, diogelwch neu fynediad cyn iddi weithredu fel lloches effeithiol rhag sŵn traffig. Mewn achosion o'r fath, gall mynd i'r afael â'r diffygion hynny fod yr un mor fuddiol o ran sicrhau llonyddwch â cheisio tawelu man swnllyd.

5.1.6 Bydd seilwaith gwyrdd iach, cydnerth ac amrywiol a werthfawrogir am ei gyfraniad at lonyddwch yn sicrhau'r amrywiaeth ehangaf o fanteision, gan gynnwys amsugno dŵr o stormydd glaw, dal gronynnau o lygredd aer, lleihau effaith tywydd poeth a darparu lleoedd i wneud ymarfer corff iach. Felly, dylid ystyried bod mannau gwyrdd trefol llonydd yn darparu ffordd gosteffeithiol iawn o gyflawni pob un o'r saith nod llesiant, yn ogystal â chynnig rhyddhad o sŵn gormodol.

5.2 Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

5.2.1 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gweithredu'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig. Ein nod yw rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn ffordd ac ar raddfa a all gynnal a gwella cydnerthedd ein hecosystemau wrth ddiwallu anghenion cenedlaethau presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

5.3 Yr hyn y mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn ei ddweud am fannau gwyrdd

5.3.1 Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol, y mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ei lunio, yn nodi blaenoriaethau cenedlaethol i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu adnoddau naturiol Cymru a sicrhau'r manteision a all ddeillio ohonynt, er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau llesiant. Un o'r blaenoriaethau cenedlaethol hyn yw darparu atebion sy'n seiliedig ar natur, gan gynnwys darparu seilwaith gwyrdd trefol.

5.3.2 Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn cydnabod llygredd aer a sŵn fel materion iechyd y cyhoedd allweddol a bod rheoleiddio sŵn yn un o'r manteision sy'n deillio o adnoddau naturiol Cymru. Mae ardaloedd lle y ceir mannau gwyrdd mwy hygyrch yn gysylltiedig ag iechyd meddwl ac iechyd corfforol gwell a gall fod llawer llai o anghydraddoldebau iechyd mewn ardaloedd gwyrddach. Mae mannau gwyrdd a glas deniadol a hygyrch, megis parciau gwledig neu gymunedol, yn cynnig ffocws i weithgareddau a hunaniaeth gymunedol a gall ysgogi adfywio a buddsoddi. Fodd bynnag, mae llawer o'n cymunedau mwyaf difreintiedig yn byw'n agos at asedau naturiol y maent wedi'u datgysylltu oddi wrthynt ac nad ydynt yn rhoi fawr ddim budd i'r cymunedau hynny.

5.3.3 Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn nodi, wrth ddatblygu ein camau gweithredu ar gyfer ein hansawdd amgylcheddol a'n cymunedau lleol, y byddwn yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod ein cymunedau yn cael budd o amgylcheddau iach, drwy nodi cyfleoedd i gymryd camau a fydd yn gwella cyflyrau anadlol ac iechyd meddwl a gostwng lefelau anweithgarwch. Mae'r rhain yn cynnwys cynyddu nifer y mannau gwyrdd a gorchudd coed a gwella mynediad cyhoeddus i seilwaith gwyrdd. Byddwn yn helpu cymunedau i wella lleoedd y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt, gan fynd i'r afael â phroblemau amgylcheddol lleol megis sbwriel a thipio anghyfreithlon, sy'n effeithio ar iechyd meddwl ac iechyd corfforol.

- Gweithio gyda chymunedau i ddiogelu a gwella mannau gwyrdd sy'n dod â phobl ynghyd, gan helpu cymunedau i gymryd perchenogaeth o asedau yn eu hardal.

- Cynllunio'r gwaith o ddatblygu seilwaith gwyrdd yng nghanol ein cymunedau i bobl gael lle i ymgymryd â gweithgareddau hamdden, i greu coridorau beicio a cherdded, i helpu cymunedau i wrthsefyll llifogydd a gwres ac i greu lleoedd pwysig ar gyfer natur.

- Hyrwyddo 'presgripsiynu gwyrdd'.

- Annog cymunedau i gymryd perchenogaeth o adnoddau naturiol neu eu rheoli.

- Helpu i ddatblygu rhandiroedd a chynlluniau cymunedol i dyfu bwyd, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig.

Blwch 5.1

Mae gweithgor thematig a sefydlwyd drwy Grŵp Gweithredu Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn ystyried galluogwyr a systemau ar gyfer datblygu'r gwaith hwn. Rhaid i ddatganiadau ardal a gaiff eu llunio gan CNC hefyd hwyluso'r broses o roi'r Polisi Adnoddau Naturiol ar waith.

5.4 Cyllid grant Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd

5.4.1 Ar sail yr hyn a ddysgwyd yn y blynyddoedd diwethaf a'r newidiadau i bolisi a deddfwriaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi edrych o'r newydd ar y cynlluniau grant y mae'n eu darparu i gefnogi gwaith amgylcheddol, ac y mae'n gweithio nawr â'i phartneriaid ar ffordd newydd o ddarparu grantiau amgylcheddol. Mae Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru 2019-2023[32] yn cymryd lle cynlluniau grant blaenorol a'r nod yw datblygu a chynnal prosiectau cydweithredol traws-sector yn well, gan wneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

5.4.2 Nodwyd themâu gweithredu ar gyfer y cynllun yn unol â'r Rhaglen Lywodraethu a'r Polisi Adnoddau Naturiol fel a ganlyn:

- Datblygu, adfywio ac ehangu mynediad i seilwaith gwyrdd cynaliadwy;
- Gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig trefol a gwledig; a
- Datblygu rhwydweithiau ac ardaloedd ecolegol cydnerth, ac atebion sy'n seiliedig ar natur.

5.4.3 Mae'r canllaw i ymgeiswyr[33] yn ei gwneud yn glir bod hyn yn cynnwys prosiectau seilwaith gwyrdd sy'n cyfrannu at leihau llygredd aer a sŵn, a phrosiectau yn yr amgylchedd adeiledig sy'n mynd i'r afael ag ardaloedd rheoli ansawdd aer ac ardaloedd blaenoriaeth cynlluniau gweithredu ar sŵn. Ymhlith y mesurau y gellid eu hariannu mae mesurau lleihau lefelau sŵn (gostwng desibelau mesuradwy) a newid ein dealltwriaeth a'n hymddygiad o ran yr amgylchedd naturiol ac ansawdd yr amgylchedd lleol (fel y'u dangosir, er enghraifft, trwy arolygon a holiaduron). Mae prosiectau seinwedd hefyd felly o fewn eu cwmpas.

Blwch 5.2

Daeth y gwahoddiad cyntaf am gynigion grant o dan Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru 2019-2023 i ben ar 3 Rhagfyr 2018. Caiff gwahoddiadau eraill am gynigion eu gwneud cyn hir.

[32] https://gov.wales/topics/environmentcountryside/environment-grants/enabling-natural-resources-and-well-being-in-wales-2019-2023-call-for-grant-proposals
[33] https://gov.wales/docs/desh/publications/180907-call-for-proposals-and-grants-guidance-en.pdf

5.5 Rôl Cyfoeth Naturiol Cymru

Darparwyd y wybodaeth yn yr adran hon a'r un nesaf gan CNC.

5.5.1 Mae CNC yn dwyn hen swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru a swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth a ddatganolwyd i Gymru, ynghyd mewn un corff. Argymhellodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru, cyn i CNC gael ei greu, na ddylai neb fyw fwy na 300 metr o'i fan gwyrdd naturiol agosaf. Mae hyn yn cyfateb, yn fras, i chwe munud o waith cerdded. Argymhellodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru y dylid darparu ar gyfer mannau gwyrdd naturiol hygyrch gan ddilyn system o haenau y mae safleoedd o wahanol faint yn mynd iddynt fel a ganlyn:

- Haen 1: ni ddylai neb fyw fwy na 300 metr o'i fan gwyrdd naturiol agosaf.
- Haen 2: dylai fod o leiaf un safle 20 hectar hygyrch o fewn dau gilometr i bob cartref.
- Haen 3: dylai fod o leiaf un safle 100 hectar hygyrch o fewn pum cilometr i bob cartref.
- Haen 4: dylai fod o leiaf un safle 500 hectar hygyrch o fewn 10 cilometr i bob cartref.

5.5.2 Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yng Nghymru wedi mapio'r mannau gwyrdd naturiol sy'n hygyrch i drigolion eu trefi a'u dinasoedd ac wedi asesu'r mannau gwyrdd sydd wedi'u darparu yn erbyn safonau a argymhellwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae hyn yn eu helpu i nodi ardaloedd lle mae mannau gwyrdd yn brin neu lle mae'r mannau gwyrdd sy'n bodoli eisoes o ansawdd annigonol a chynllunio camau unioni.

5.5.3 Mae coed yn dod â nifer o fanteision i'r amgylchedd adeiledig, gan gynnwys lleihau effaith yr ynys wres drefol ac amsugno llygredd aer. Mae eu gallu i amsugno neu wasgaru sŵn yn gyfyngedig, ond, yn bwysicach o lawer na hynny, gallant leihau'r canfyddiad o sŵn drwy guddio'r ffynhonnell sŵn o'r golwg a chreu ymdeimlad o lonyddwch yn y lle, yn weledol a thrwy gyflwyno seiniau naturiol i feddalu seinwedd sy'n gwbl fecanyddol fel arall. Bydd yr effeithiau hyn yn llai yn y gaeaf wedi i'r coed golli eu dail ond, ar yr adeg hon o'r flwyddyn, mae pobl yn llai tebygol o fod yn yr awyr agored neu o agor eu ffenestri. Mae'r Grŵp Gweithredu Coed a Dylunio[34], CIRIA[35] a'r prosiect Ewropeaidd HOSANNA[36] wedi llunio canllawiau er mwyn helpu i gael y budd mwyaf posibl o bresenoldeb coed a mathau eraill o lystyfiant mewn ardaloedd trefol.

5.5.4 Ers cyhoeddi cynllun gweithredu ynghylch sŵn 2013, mae CNC wedi asesu maint y gorchudd canopi coed ar gyfer pob un o'n 220 o ardaloedd trefol yng Nghymru (yr arolwg cyntaf o'i fath drwy'r byd) ac wedi cyhoeddi'r canlyniadau ar-lein ynghyd â dadansoddiadau fesul sir[37]. Mae casgliadau allweddol yn cynnwys y ffaith mai ardaloedd o amddifadedd lluosog sydd â'r canopi coed trefol lleiaf yn aml iawn, a dylid ystyried hyn mewn perthynas â llawer o fanteision iechyd a llesiant sy'n deillio o gyswllt rheolaidd â natur, ac yn arbennig goed trefol fel un o brif elfennau seilwaith gwyrdd trefol. Mae'r gwaith hefyd yn dangos sut a ble mae rhai o'r manteision mwyaf sy'n deillio o goed trefol i'w cael mewn gwirionedd yn y lleoedd prysuraf, mwyaf swnllyd sydd â'r nifer fwyaf o arwynebau caled, megis canol trefi. Mae astudiaethau pellach, gan ddefnyddio dull 'i-Tree-Eco', wedi cyfrifo manteision ecosystem coed trefol yn Wrecsam, Pen-y-bont ar Ogwr, ardaloedd Abertawe-Tawe, a Chaerdydd.

5.5.5 Mae'r holl waith hwn yn darparu llawer o dystiolaeth benodol o'r rôl amlwg y mae coed trefol yn ei chwarae wrth sicrhau nifer o fanteision i iechyd a lles pobl, drwy eu gweithredoedd ffisegol (i wella'r ficrohinsawdd) a thrwy gyfrannu at lonyddwch mewn ardaloedd trefol. Mae coed trefol yn un o brif elfennau seilwaith gwyrdd trefol ac maent yn gofyn am waith cynllunio cadarnhaol fel rhan o gynlluniau seilwaith gwyrdd lleol.

[34] http://www.tdag.org.uk/trees-in-the-townscape.html
[35] http://www.ciria.org
[36] http://www.greener-cities.eu
[37] http://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/your-neighbourhood/green-spaces/urban-trees?lang=cy

Blwch 5.3

Bydd CNC yn parhau i gadw set ddata GIS gyfredol o fannau gwyrdd trefol yng Nghymru ac yn sicrhau ei bod ar gael i awdurdodau lleol er mwyn eu helpu i gynnal eu rhestrau o fannau gwyrdd sy'n bodoli eisoes. Mae CNC yn parhau i fireinio'r data hyn drwy ymgorffori data awdurdodau lleol a'u cysylltu â setiau data perthnasol eraill megis cynnyrch mannau gwyrdd trefol newydd yr Arolwg Ordnans.

Mae CNC yn ystyried sut y gellir cynnwys data mapio sŵn ar gyfer ardaloedd trefol mewn datganiadau ardal o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'u cyflwyno yng nghyd-destun gweithgarwch rheoli mannau gwyrdd trefol, gan esbonio'r cyd-destun ehangach o ran y llonyddwch sydd ei angen i werthfawrogi seinweddau.

5.6 Dathlu mannau gwyrdd trefol llonydd

5.6.1 Nod cynllun **Gwobr y Faner Werdd**[38] yw annog darparu parciau cyhoeddus a mannau gwyrdd o ansawdd da a reolir mewn ffyrdd amgylcheddol gynaliadwy. Mae Gwobr y Faner Werdd yn helpu i sicrhau cydnabyddiaeth gyhoeddus o fannau gwyrdd o ansawdd da ac, wrth wneud hynny, ei nod yw adfer hyder pobl ynddynt. Nod y Wobr yw codi disgwyliadau o ran yr hyn y gall man gwyrdd cyhoeddus ei gynnig a rhoi sicrwydd i bobl bod eu parciau cyhoeddus a'u mannau gwyrdd yn deilwng o'r parch mawr sydd ganddynt atynt. Mae'r Wobr yn gweithredu fel prawf MOT ar gyfer man gwyrdd. Nid yw'n nodi pa nodweddion a ddylai fod yn bresennol, ond mae'n asesu pob nodwedd sy'n bresennol er mwyn sicrhau bod y safle yn addas at y diben.

5.6.2 Gall unrhyw gorff corfforaethol neu sefydliad cyhoeddus wneud cais am un o Wobrau'r Faner Werdd ar gyfer unrhyw fan agored cyhoeddus cwbl hygyrch. Mae Gwobr Gymunedol y Faner Werdd, fel yr awgryma'r enw, ar gael ar gyfer unrhyw fan agored cyhoeddus cwbl hygyrch a reolir gan gymuned neu grŵp gwirfoddol. Bernir y ddwy Wobr gan ddefnyddio'r un meini prawf a'r unig wahaniaeth rhyngddynt yw'r gofynion ar gyfer cynllun rheoli. Dylai ymwelydd â safle sydd wedi ennill Gwobr ddisgwyl cael profiad o'r un ansawdd p'un a oes gan y safle Faner Werdd neu Wobr Gymunedol y Faner Werdd.

[38] https://www.keepwalestidy.cymru/Pages/Site/cy/Category/banerwerdd

5.6.3 Mae'r meini prawf y caiff safle ei farnu yn eu herbyn er mwyn ennill Gwobr y Faner Werdd wedi'u grwpio o dan wyth prif bennawd sydd, gyda'i gilydd, yn darparu diffiniad cynhwysfawr o nodweddion posibl man gwyrdd da. Maent yn nodi'r safonau y mae'n rhaid i safle Baner Werdd eu cyrraedd ac yn pennu targedau ar gyfer gwella. Mae'r penawdau yn diffinio'r canlynol:

- sut i greu ymdeimlad bod man gwyrdd yn lle croesawus y gall pobl fynd iddo;
- beth yw'r ffordd orau o sicrhau bod safle yn amgylchedd diogel ac iach;
- yr hyn y gall pobl ddisgwyl ei ganfod o ran safonau glendid, cyfleusterau a gwaith cynnal a chadw;
- sut y gellir rheoli man gwyrdd mewn ffyrdd amgylcheddol sensitif;
- gwerth cadwraeth a gofalu am dreftadaeth hanesyddol;
- ffyrdd o annog y gymuned i gyfranogi;
- dulliau o hyrwyddo neu farchnata safle;
- sut i adlewyrchu pob un o'r uchod mewn cynllun rheoli, datganiad neu strategaeth gydlynol sy'n hawdd ei (d)deall.

5.6.4 Nid yw'n ofynnol i safleoedd sydd wedi ennill gwobr sicrhau lefel benodol o lonyddwch ond, oherwydd eu natur, bydd mannau gwyrdd a reolir yn briodol yn helpu pobl i ymlacio ac, felly, ddechrau mynd i'r afael ag effeithiau straen a achosir gan sŵn. Fodd bynnag, bydd safle yn fwy tebygol o ennill Gwobr os gall ddangos bod camau wedi'u cymryd i leihau llygredd sŵn (gweler adran 4.14 o *Raising the standard: The Green Flag Award guidance manual*[39]).

5.6.5 Anogir beirniaid, yn benodol, i gadarnhau bod seddi wedi'u darparu lle y gall pobl fyfyrio, gorffwys, bod ar eu pen eu hunain a mwynhau natur (gweler adran 2.5 of *Raising the standard*).

5.6.6 Y cyfraniad pwysicaf y bydd safle sydd wedi ennill Baner Werdd yn ei wneud at lonyddwch, hyd yn oed os oes sŵn i'w glywed yno, yw darparu man gwyrdd sy'n helpu i leihau canfyddiadau defnyddwyr o sŵn. Yn aml, bydd sŵn dŵr yn llifo, neu'r gwynt yn y coed a'r llwyni, yn mygu seiniau artiffisial o fannau oddi ar y safle, gan roi'r cyfle i ymwelwyr ymlacio.

[39] http://www.greenflagaward.org/media/1019/green-flag-award-guidelines.pdf

5.6.7 Mae tystiolaeth yn awgrymu bod golygfeydd o fannau gwyrdd yn dechrau lleihau'r arwyddion clinigol o straen yn fesuradwy o fewn tair munud ac, felly, gall hyd yn oed amlygiad byr i barc poced trefol, er enghraifft, gael effeithiau sylweddol ar iechyd. Mae'r ffaith bod safle wedi ennill Gwobr y Faner Werdd yn dangos i ddarpar ddefnyddwyr ei fod yn ddiogel ac yn groesawgar a'i fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a bydd hyn yn eu hannog i ddefnyddio'r safle yn hytrach na'i osgoi, gan ei gwneud yn fwy tebygol y byddant yn mwynhau'r manteision hyn i iechyd.

Blwch 5.4

Hoffai CNC weld 'mannau tawel' (sef yng Nghymru, y mannau gwyrdd llonydd) yn cael eu rheoli i safon uchel er mwyn iddynt barhau i gael eu defnyddio a rhoi cyfle i ymlacio fel y bwriadwyd iddynt ei wneud. Gwobr y Faner Werdd fyddai'r safon ddelfrydol i'w defnyddio i fesur a yw'r safle yn cael ei reoli i safon ddigon uchel.

Bydd CNC yn parhau i weithio gyda deiliad is-drwydded y Faner Werdd yng Nghymru, Cadwch Gymru'n Daclus, er mwyn sicrhau bod gan feirniaid sydd wedi'u hyfforddi yng Nghymru ddealltwriaeth briodol o lonyddwch fel y mae'n ymwneud â Gwobrau'r Faner Werdd.

5.7 Diogelu mannau gwyrdd trefol llonydd

5.7.1 Dywed drafft ymgynghori Polisi Cynllunio Cymru 2018 y dylid diogelu mannau gwyrdd agored ffurfiol ac anffurfiol rhag gwaith datblygu, yn enwedig mewn ardaloedd trefol lle maent yn cyflawni nifer o ddibenion, sydd nid yn unig yn cynnwys gwella ansawdd bywyd, ond hefyd yn cyfrannu at fioamrywiaeth, cadw'r amgylchedd hanesyddol, natur a thirwedd, ansawdd aer a diogelu dŵr daear a darparu mannau llonydd sy'n cynnig rhyddhad i bobl o'r amgylchedd adeiledig prysur. Gall seilwaith gwyrdd gyflawni sawl swyddogaeth ar yr un pryd ac, o ganlyniad, mae'n cynnig nifer o fanteision, sy'n arbennig o bwysig mewn amgylcheddau trefol lle y gallant helpu i sicrhau'r manteision i iechyd a llesiant sy'n deillio o fannau agored, aer glân a mwy o lonyddwch, yn ogystal â chreu ymdeimlad o le a gwella cydlyniant cymdeithasol.

5.7.2 Noda'r drafft y gall rhai seiniau, megis y rhai a grëir gan goed, adar neu nodweddion dŵr, gyfrannu at ymdeimlad o lonyddwch, tra gall eraill roi sicrwydd o ganlyniad i'r cysylltiad sydd rhyngddynt â normalrwydd gweithgareddau cyffredin.

5.7.3 Dywed drafft ymgynghori Polisi Cynllunio Cymru y bydd angen i awdurdodau cynllunio ystyried yr effeithiau y gallai datblygiadau arfaethedig eu cael ar ansawdd aer neu seinwedd a'r effeithiau y gallai ansawdd presennol aer neu seinwedd eu cael ar ddatblygiadau arfaethedig. Wrth wneud hynny, dylent geisio ymgorffori mesurau sy'n lleihau amlygiad cyffredinol i lygredd a gludir yn yr awyr a chreu seinweddau priodol, gan gynnwys defnyddio arfer gorau o ran dylunio acwstig a diogelu llonyddwch. Mae angen rhoi ystyriaeth benodol lle mae llygredd aer neu waith datblygu sy'n creu sŵn yn debygol o effeithio ar rywogaeth a warchodir neu lle y'i cynigir mewn ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n statudol neu'n agos atynt, megis safleoedd Natura 2000, SoDdGAau, mannau gwyrdd trefol llonydd (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i 'fannau tawel' a oedd wedi'u dynodi'n flaenorol) a werthfawrogir am y rhyddhad adferol a'r cyswllt â natur y maent yn eu cynnig i drigolion trefi a dinasoedd prysur, a lleoliadau sensitif eraill megis ysgolion, meithrinfeydd, ysbytai a chartrefi gofal.

Blwch 5.5

Gan adeiladu ar gynnwys newydd Polisi Cynllunio Cymru sy'n ymdrin ag ansawdd aer a seinwedd, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad manwl o TAN 11: Sŵn, gyda'r bwriad o gyflwyno TAN newydd yn ei le a fydd yn ymdrin ag ansawdd aer a seinwedd.

Yr ymatebion i'r ymgynghoriad: llygredd golau

Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun gweithredu hwn ar sŵn a seinwedd, awgrymodd Cyd-Bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy fod synergedd yn aml wrth geisio rheoli goleuni gormodol, sy'n elfen o lonyddwch. Mae'r pwnc yn cael ei gydnabod fwyfwy ac mae llawer o dirweddau gwarchodedig Cymru (Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol) eisoes wedi ennill statws ardaloedd Awyr Dywyll, neu'n gobeithio ennill y statws, ac yn cael eu rheoli yn unol â hynny.

Yr ymatebion i'r ymgynghoriad: llonyddwch cefn gwlad

Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, ychwanegodd CNC:

"Those visiting remoter, rural areas, especially where natural aspects of the environment are experienced in abundance, seek a much higher threshold of tranquillity, absolute tranquillity, to gain their solace. Absolute tranquillity is an irreplaceable resource and is distinct from the relative tranquillity gained in accessible natural urban green space. According to evidence, from the former Countryside Council for Wales, absolute tranquillity is in a trend of decline, for example from increases in road traffic.

"In Scotland they have designated 'Wild Land' areas, of which absolute tranquillity is a feature, for their protection from such disturbance. In Wales we have far fewer places that would equate to Scotland's Wild Land areas. This makes what we do have, and our near absolute tranquil places, a more critical resource to conserve, because of their scarcity and because of the pressures, such as development, that cause disturbance on them."

Dywedodd Peter Rogers ar ran Sustainable Acoustics Ltd y gallai lle fod yn llonydd ('tranquil') er y gall fod llawer o sŵn naturiol yno, fel ar draeth unig, felly nid oes angen i le fod yn dawel oni bai'n bod yn sôn am sŵn a wnaed gan ddyn, fel sŵn traffig.

6 Sŵn traffig ffyrdd yng Nghymru

6.1 Trosolwg

6.1.1 Y ffordd orau o ymdrin â lefelau annerbyniol o sŵn traffig ffyrdd yw eu hatal rhag codi yn y lle cyntaf drwy waith cynllunio da, tra'n cydnabod swyddogaethau cymdeithasol ac economaidd hanfodol y rhwydwaith ffyrdd ar yr un pryd. Pan gaiff eiddo preswyl ei adeiladu, dylid cadw sŵn y caiff meddianwyr ei amlygu iddo i lefelau derbyniol, a phan fwriedir newid cynlluniau ffyrdd, mae Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru (WelTAG)[40] a Rheoliadau Inswleiddio rhag Sŵn 1975 ar gael er mwyn sicrhau y caiff eiddo yr effeithir arno ei ddiogelu rhag y cynnydd mewn sŵn a fydd yn deillio o gynlluniau o'r fath.

6.1.2 Gall deddfwriaeth lymach sy'n cyfyngu ar lefelau sain cerbydau modur a theiars newydd yn y man gwerthu wneud cyfraniad mawr at gadw lefelau sŵn yn isel yn y tymor hwy. Gall sicrhau newid moddol graddol i gerbydau trydan, datblygu wynebau ffordd a theiars sŵn isel ymhellach a, lle y bo'n briodol, ostwng y terfyn cyflymder, hefyd gyfrannu at gadw lefelau sŵn yn isel. Wrth gynnig datblygiadau preswyl ger ffynonellau sŵn sy'n bodoli eisoes megis ffyrdd prysur, bydd mesurau lliniaru priodol, megis mesurau inswleiddio rhag sain digonol neu waith dylunio mewnol priodol i gadw ardaloedd byw mewn adeiladau i ffwrdd oddi o'r ffasadau sydd fwyaf agored i sŵn, hefyd yn helpu i gadw lefelau amlygiad y boblogaeth yn isel. Fodd bynnag, gall y lefelau sŵn y caiff pobl eu hamlygu iddynt gynyddu dros amser o ganlyniad i fwy o ddefnydd o ffyrdd, diraddio wyneb y ffordd, symud gwrthrychau sgrinio a dirywiad o ran ymddygiad gyrwyr.

6.1.3 Gall camau i liniaru problemau sŵn wedi iddynt godi fod yn llawer drutach na'u hosgoi cyn iddynt ddigwydd. Felly, wrth ostwng lefelau sŵn, mae mantais mewn chwilio am ymyriadau sy'n dod â nifer o fanteision, megis lleihau amlygiad pobl i lygryddion aer, gwneud adeiladau'n fwy ynni-effeithlon, annog pobl i yrru'n fwy diogel neu wella wyneb y ffordd er mwyn gyrwyr a beicwyr. Mae hefyd yn hanfodol bod unrhyw ymyriad yn cael ei dargedu'n briodol. Ar ffordd lle mae'r traffig yn symud yn araf ac y mae'r rhan fwyaf o'r sŵn yn cael ei greu drwy sbarduno injans, ni fydd camau i leihau'r sŵn o deiars ar wyneb y ffordd yn arwain at fawr ddim gwelliant amlwg, ond ar gyflymderau uwch mae'n bosibl mai sŵn o deiars a sŵn erodynamig fydd i'w glywed yn bennaf a phrin iawn fydd y budd o ostwng y sŵn o injans.

[40] https://beta.llyw.cymru/arweiniad-ar-arfarnu-trafnidiaeth-cymru-weltag

6.2 Pwy sy'n gyfrifol?

6.2.1 Mae dau gategori o ffyrdd cyhoeddus yng Nghymru, sef y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd, y mae Is-adran Rheoli'r Rhwydwaith Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdano, a phob ffordd gyhoeddus arall, a reolir gan awdurdodau lleol.

6.2.2 Mae pob awdurdod yn atebol i'r cyhoedd a rhaid iddo nodi drosto'i hun y lefel briodol o adnoddau a'r strategaeth fwyaf priodol ar gyfer rheoli sŵn o'r ffyrdd y mae'n gyfrifol amdanynt. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud yr hyn y gall yn rhesymol ei wneud i gynorthwyo, drwy sicrhau bod y data a geir o'r mapiau sŵn ar gael ar ffurf sy'n ddefnyddiol i'r awdurdodau cyfrifol a chynnig arian grant i awdurdodau lleol lle y bo'n briodol (gweler adran 5.4).

6.2.3 Mae defnyddwyr ffyrdd hefyd yn gyfrifol am y ffordd y maent yn gweithredu eu cerbydau. Mae cyflymu sydyn diangen, yn enwedig mewn ardaloedd preswyl, yn amlygu pobl mewn adeiladau gerllaw neu fannau agored i sŵn y gellid yn hawdd ei osgoi, a gall fod yn beryglus hefyd. Yn gyffredinol, mae gyrru'n ddiogel, gyrru'n dawel a gyrru mewn ffordd sy'n defnyddio tanwydd yn effeithiol yn golygu'r un peth, fwy neu lai.

6.2.4 Gall rhedeg injan cerbyd pan na fydd yn symud achosi niwsans sŵn yn ogystal â chyfrannu'n ddiangen at ansawdd aer gwael. Weithiau, mae injans yn cael eu rhedeg pan na fydd y cerbydau yn symud er mwyn i systemau gwresogi/oeri ceir allu gweithredu o hyd, neu er mwyn parhau i bweru system adloniant. Mae bysiau hefyd yn tueddu i redeg eu hinjans pan na fyddant yn symud yn ystod arosiadau hir wrth arosfannau bysiau.

6.2.5 Mae gan awdurdodau lleol y pwerau i roi cosbau penodedig am redeg injan pan na fydd cerbyd yn symud o dan Reoliadau Traffig Ffyrdd (Allyriadau Cerbydau) (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2003[41]. Dylent weithio gyda chwmnïau bysiau er mwyn eu hannog i gyflwyno polisïau ar beidio â rhedeg injans pan fydd na fydd cerbydau yn symud. Mae lleoliadau derbynyddion sensitif, megis ysgolion ac ysbytai, yn ardaloedd lle mae'r cyhoedd yn fwy tebygol o fod yn fwy agored i effeithiau andwyol amlygiad i lygredd aer a sŵn. Dylai gweithgarwch ymgysylltu nodi'n glir y niwed y gallai rhedeg injan pan na fydd y cerbyd yn symud ei achosi a'r posibilrwydd y rhoddir dirwyon cosb benodedig i dramgwyddwyr.

[41] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2003/300/made

6.3 Yr hyn y mae'r mapiau sŵn yn ei ddweud wrthym

6.3.1 Dangosir niferoedd amcangyfrifedig y bobl y mae eu cartrefi wedi'u hamlygu i ystod o lefelau sŵn o brif ffyrdd yng Nghymru, yn ôl yr ymarfer mapio sŵn mwyaf diweddar, yn Nhablau 6.1 a 6.2 isod. Mynegir lefelau sŵn mewn desibelau (dB).

Tabl 6.1 Amlygiad y boblogaeth breswyl i sŵn o brif ffyrdd yng Nghymru gan ddefnyddio'r dangosydd sŵn dydd-hwyr-nos L_{den}

Ffynhonnell y data	Nifer y bobl y mae eu cartrefi wedi'u hamlygu i'r lefelau sŵn hyn				
	55-59 dB	60-64 dB	65-69 dB	70-74 dB	> 75 dB
Map sŵn a model poblogaeth 2017	254,100	112,500	74,500	54,800	6,600

Tabl 6.2 Amlygiad y boblogaeth breswyl i sŵn o brif ffyrdd yng Nghymru gan ddefnyddio'r dangosydd sŵn nos L_{night}

Ffynhonnell y data	Nifer y bobl y mae eu cartrefi wedi'u hamlygu i'r lefelau sŵn hyn				
	50-54 dB	55-59 dB	60-64 dB	65-69 dB	> 70 dB
Map sŵn a model poblogaeth 2017	159,700	90,000	62,000	8,200	1,600

6.3.2 O edrych arnynt ar eu pen eu hunain, nid yw'r ffigurau yn y tablau yn arbennig o ddadlennol. Byddai mwy o ystyr i'r rhifau pe gallem gymharu, ochr yn ochr, y ffigurau o'r ddau gylch olynol o ymarferion mapio, a gynhaliwyd gyda bwlch o bum mlynedd rhyngddynt, er mwyn gweld sut mae nifer y bobl sydd wedi'u hamlygu i sŵn o brif ffyrdd yng Nghymru wedi newid dros amser. Yn anffodus, ni ellir gwneud hyn oherwydd y newidiadau i'r amgylchedd cyfrifo sy'n golygu, ar gyfer eiddo preswyl sydd wedi'i leoli'n agos iawn at ymyl y ffordd, fod lefelau sŵn a gyfrifwyd yn uwch ar fapiau sŵn 2017 nag ar fapiau sŵn 2012, hyd yn oed lle nad oes unrhyw beth wedi newid yn y byd go iawn, ac mae hyn yn gwyro'r ffigurau a gyfrifir ar gyfer y boblogaeth.

6.3.3 Fodd bynnag, gallwn wneud y peth gorau nesaf, sef pennu'r lefelau sŵn fel y'u cyfrifwyd yn 2012 a'u defnyddio yn gyntaf gyda model poblogaeth breswyl 2012 ac wedyn gyda model poblogaeth breswyl 2017 er mwyn rhoi rhyw syniad o'r ffordd y mae nifer y bobl sydd wedi'u hamlygu i sŵn yn debygol o fod wedi cynyddu dros amser o ganlyniad i dwf y boblogaeth breswyl ger prif ffyrdd yng Nghymru yn unig, a thybio nad yw sŵn traffig ffyrdd ei hun wedi newid rhyw lawer.

Tabl 6.3 Amlygiad y boblogaeth breswyl i sŵn o brif ffyrdd yng Nghymru gan ddefnyddio'r dangosydd sŵn dydd-hwyr-nos L_{den}

Ffynhonnell y data	Nifer y bobl y mae eu cartrefi wedi'u hamlygu i'r lefelau sŵn hyn				
	55-59 dB	60-64 dB	65-69 dB	70-74 dB	> 75 dB
Map sŵn a model poblogaeth 2012	232,500	113,900	76,300	44,600	4,000
Map sŵn 2012, model poblogaeth 2017	239,900	116,900	78,500	48,200	4,400

Tabl 6.4 Amlygiad y boblogaeth breswyl i sŵn o brif ffyrdd yng Nghymru gan ddefnyddio'r dangosydd sŵn nos L_{night}

Ffynhonnell y data	Nifer y bobl y mae eu cartrefi wedi'u hamlygu i'r lefelau sŵn hyn				
	50-54 dB	55-59 dB	60-64 dB	65-69 dB	> 70 dB
Map sŵn a model poblogaeth 2012	160,600	86,900	54,800	5,100	1,400
Map sŵn 2012, model poblogaeth 2017	166,100	88,900	58,800	5,700	1,500

6.3.4 Wrth gwrs, mae nifer gynyddol o bobl sy'n cael eu hamlygu i sŵn traffig ffyrdd yn eu cartrefi hefyd yn golygu bod mwy o bobl yn defnyddio'r ffyrdd. Felly, hyd yn oed lle nad yw cynllun y ffordd wedi newid, ni fydd lefelau sŵn yn aros yn ddigyfnewid dros gyfnod o bum mlynedd. Yn wir, cynyddodd hyd y ffordd sy'n gymwys i gael ei hystyried yn brif ffordd (h.y. sy'n cludo mwy na thair miliwn o gerbydau y flwyddyn) o 2,470 km i 2,590 km rhwng ymarferion mapio sŵn 2012 a 2017.

6.3.5 Nid yw'n syndod bod arwynebedd Cymru sydd o fewn pob un o'r prif gyfuchliniau sŵn prif ffyrdd hefyd wedi cynyddu rhwng ymarferion mapio 2012 a 2017. Ni ddylai'r newid yn yr amgylchedd cyfrifo sy'n effeithio ar lefelau sŵn ger eiddo sy'n agos iawn at ymyl y ffordd gael fawr ddim effaith ar y ffigurau hyn, os o gwbl ac, felly, fe'u cymerir ochr yn ochr yn Nhablau 6.5 a 6.6 isod.

Tabl 6.5 Arwynebedd Cymru a amlygir i sŵn o brif ffyrdd yng Nghymru gan ddefnyddio dangosydd sŵn dydd-hwyr-nos L_{den}

Lefel sŵn	Arwynebedd (km^2)	
	Map sŵn 2012	Map sŵn 2017
≥ 55 dB	905	942
≥ 60 dB	461	476
≥ 65 dB	216	224

Tabl 6.6 Arwynebedd Cymru a amlygir i sŵn o brif ffyrdd yng Nghymru gan ddefnyddio dangosydd sŵn nos L_{night}

Lefel sŵn	Arwynebedd (km^2)	
	Map sŵn 2012	Map sŵn 2017
≥ 50 dB	576	593
≥ 55 dB	272	283
≥ 60 dB	122	127

6.3.6 Gan fod adeiladau yn gweithredu fel rhwystrau sŵn effeithiol, ar draws tir ger prif ffordd lle nad oes unrhyw adeiladau y mae lledaeniad sŵn ar ei fwyaf. Felly, mae'r ffigurau yn Nhablau 6.5 a 6.6 yn dynodi presenoldeb sŵn o brif ffyrdd ar dir agored yng Nghymru yn fwy nag amlygiad y boblogaeth breswyl i sŵn.

Blwch 6.1

Bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio ei Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol er mwyn eu cysoni â deddfwriaeth Ewropeaidd newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddull mapio sŵn cyffredin gael ei ddefnyddio yn y cylch mapio sŵn nesaf. Drwy ei haelodaeth o bwyllgor y Sefydliad Safonau Prydeinig ar sŵn trafnidiaeth, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cymryd rhan mewn gwaith i ystyried opsiynau ar gyfer dull newydd a gwell o gyfrifo sŵn traffig ffyrdd newydd yn y DU.

Mae Llywodraeth Cymru yn sefydlu Canolfan Monitro ac Asesu Ansawdd Aer er mwyn helpu i roi'r dystiolaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniadau amserol, cydlynol ac effeithiol ar faterion sy'n ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru, yn lleol ac ar lefel y llywodraeth genedlaethol. Bydd yn helpu i dargedu camau gweithredu i sicrhau'r manteision mwyaf o ran iechyd y cyhoedd a llesiant. Golyga hyn wella seinweddau wrth leihau llygredd aer ar yr un pryd, a byddwn yn ystyried pa rôl y gallai'r Ganolfan ei chwarae mewn unrhyw weithgarwch mapio sŵn yn y dyfodol.

6.4 Ardaloedd â blaenoriaeth ac ardaloedd agosrwydd

6.4.1 Mae map newydd o **ardaloedd â blaenoriaeth** o ran sŵn traffig ffyrdd yng Nghymru (ardaloedd lle y caiff cartrefi pobl eu hamlygu i lefel sŵn dydd-hwyr-nos sy'n uwch na 73 dB yn ôl mapiau sŵn 2017 neu lle mae pobl yn byw wrth ochr cefnffyrdd concrid) wrthi'n cael ei lunio mewn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol.

6.4.2 Cyfeirir at ardaloedd â blaenoriaeth megis y rhai lle mae lefelau sŵn wrth bob un o'r eiddo preswyl sy'n cael ei amlygu i lefelau uchel o sŵn wedi'u cyfrifo'n effeithiol o fewn 7.5 metr o ffynhonnell y sŵn fel **ardaloedd agosrwydd**. Fel arfer, mae'r rhain yn ardaloedd lle y gallai'r trigolion ddweud bod traffig yn mynd yn union heibio i'w ffenestr. Mewn ardaloedd o'r fath, nid yw atebion peirianyddol megis rhwystrau sŵn yn opsiwn. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn bwysig deall ble mae'r sefyllfaoedd lleol iawn i'w cael, er mwyn i gyrff cyhoeddus allu eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch rheoli traffig neu ddefnyddio tir a all gynyddu neu leihau amlygiad y cyhoedd i sŵn traffig ffyrdd.

6.5 Gwaith lliniaru sŵn ar y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd

6.5.1 Mae'r canlynol yn rhestru rhwystrau sŵn a osodwyd ar y rhwydwaith cefnffyrdd yng Nghymru ers y rhai a gofnodwyd yn y cynllun gweithredu ynghylch sŵn blaenorol:

- A483 lôn gerbydau Ffordd Osgoi Rhiwabon tua'r gogledd – Ionawr 2013
- A55 lôn gerbydau tua'r dwyrain ger Brychdyn – Chwefror 2013
- A55 lôn gerbydau tua'r dwyrain ger Bodtegwel – Chwefror 2013
- A55 lôn gerbydau tua'r dwyrain yn Nherfyn – Chwefror 2013
- A55 lôn gerbydau tua'r dwyrain ym Modelwyddan – Mawrth 2013
- A55 lôn gerbydau tua'r gorllewin yn Llanelwy – Mawrth/Ebrill 2013
- A55 lôn gerbydau tua'r dwyrain yn Ewloe – Tachwedd 2013
- A55 lôn gerbydau tua'r dwyrain yn Abergele – Rhagfyr 2013
- A55 lôn gerbydau tua'r dwyrain yn Llanelwy – Chwefror 2015
- A55 lôn gerbydau tua'r gorllewin yn Abergele – Mawrth 2015
- A55 lôn gerbydau tua'r gorllewin yn Abergele, i'r gorllewin o Bont Sea Road – Chwefror/Mawrth 2018

6.5.2 Cwblhawyd rhwystrau sŵn ar hyd yr A55 yn Abergele yn ddiweddar, a gosodir wyneb sŵn isel ger y rhwystr newydd hwn yn fuan. Ymhlith prosiectau eraill sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd mae astudiaeth ddichonoldeb o opsiynau ar gyfer trin y lôn gerbydau goncrid ar yr A40 ger Trefynwy ac astudiaeth o opsiynau ar gyfer trin y lonydd cerbydau concrid ar hyd yr A55 yn Ewloe a'r A483, Ffordd Osgoi Wrecsam.

6.5.3 Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal treialon i brofi deunyddiau ar gyfer wynebau ffyrdd, a fyddai'n ymestyn oes wynebau sŵn isel. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw deunyddiau na phrosesau blaenorol wedi llwyddo i gyflawni'r oes dyluniad a ddymunir. Mae hyn wedi tarfu ar ymyriadau cynnal a chadw ac, o bosibl, wedi cynyddu lefelau sŵn o ganlyniad i ddirywiad wyneb y lôn gerbydau. Gobeithio y bydd deunyddiau newydd yn cyflawni'r oes dyluniad neu'n mynd heibio iddo, tra'n cadw lefelau sŵn yn isel.

Blwch 6.2

Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu mapiau sŵn 2017 a'r ardaloedd â blaenoriaeth a'r ardaloedd agosrwydd a nodwyd, a safleoedd â blaenoriaeth i'w trin. Caiff y safleoedd eu blaenoriaethu drwy eu graddio yn ôl gwerthoedd sŵn, nifer y cartrefi yr effeithir arnynt, cwynion a gafwyd yn ystod y pum mlynedd hyd at fis Mehefin 2018, agosrwydd gwaith gwella rhwydwaith, cost a'r gallu i'w cyflawni. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu rhaglen waith i drin y lleoliadau â'r flaenoriaeth uchaf, drwy ddefnyddio mesurau lliniaru megis rhwystrau sŵn ac wynebau sŵn isel.

Bydd Llywodraeth Cymru yn chwilio am gyfleoedd i drin ardaloedd â blaenoriaeth ac ardaloedd agosrwydd yn ystod gweithgareddau cynnal a chadw arferol a chynlluniau gwella ffyrdd a bydd yn ceisio ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y broses o gynllunio datblygiadau ar hyd y rhwydwaith ffyrdd a chefnffyrdd, er mwyn osgoi effeithiau andwyol posibl.

6.6 Cefnogi technolegau cerbydau tawelach

6.6.1 Mae injans cerbydau allyriadau isel yn tueddu i fod yn dawelach nag injans cerbydau hŷn sy'n creu mwy o lygredd.

6.6.2 Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu polisïau a chynigion er mwyn helpu Cymru i gyflawni ei chyllidebau a'i thargedau carbon y darperir ar eu cyfer yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r rhain yn cynnwys polisïau a chynigion mewn perthynas â thrafnidiaeth. Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn helpu i ddatblygu'r polisïau a'r cynigion hyn, a fydd yn cwmpasu pob dull trafnidiaeth, a fydd yn cynnwys mesurau er mwyn helpu i hyrwyddo nifer y cerbydau allyriadau isel yng Nghymru.

6.6.3 Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i ddarparu £2 filiwn er mwyn helpu i sicrhau rhwydwaith o fannau gwefru cerbydau trydan ledled Cymru. Caiff y cyllid hwn ei ryddhau yn 2018/19 a 2019/20. Un o'r blaenoriaethau allweddol fydd gosod rhwydwaith o fannau gwefru ar hyd/wrth ymyl ein rhwydwaith o gefnffyrdd ar gyfer teithiau trwodd hirach.

6.6.4 Mae Llywodraeth Cymru yn gosod mannau gwefru cerbydau trydan yn ei swyddfeydd ac yn cwmpasu'r potensial i'w gosod ar draws ystad ehangach Llywodraeth Cymru.

6.6.5 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori awdurdodau lleol, gweithredwyr bysiau a busnesau eraill ynglŷn â chyfleoedd i gyflwyno cynigion ar gyfer cyllid Llywodraeth y DU sy'n ymestyn i Gymru, gan gynnwys Cronfa Bysiau Allyriadau Isel a'r Cynllun Gwefru yn y Gweithle, a byddwn yn parhau i wneud hynny.

6.6.6 Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU yn sgil ymrwymiad yng Nghyllideb Canghellor y DU i fuddsoddi mwy o arian mewn cerbydau carbon isel, o ran y ffordd y bydd hyn yn ymestyn i Gymru.

6.7 Cefnogi teithio llesol

6.7.1 Gall **teithio llesol**, hynny yw cerdded a beicio fel dull teithio amgen yn lle defnyddio cerbydau modur at ddibenion gwneud teithiau bob dydd, leihau tagfeydd ar ffyrdd ac allyriadau traffig yn uniongyrchol a gwella iechyd a lles. Gallai wneud unigolion a'r boblogaeth yn llai agored i'r effeithiau andwyol y mae amlygiad i lygredd aer a sŵn yn eu cael ar iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

6.7.2 Mewn ardaloedd poblog iawn, lle mae lefelau llygredd aer a sŵn yn aml ar eu huchaf, mae pellteroedd teithio cyfartalog yn fyrrach ac mae teithio llesol yn cynnig dull amgen ymarferol o deithio yn lle cerbydau modur.

6.7.3 Bwriedir i Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013[42] ei gwneud hi'n haws i bobl gerdded a beicio, gan sicrhau mai'r rhain yw'r dewis ddulliau ar gyfer teithiau byr a chanolig. Rhaid i awdurdodau lleol fapio a chynllunio llwybrau teithio llesol addas yn y 142 o aneddiadau mwyaf yng Nghymru, a chyhoeddi mapiau rhwydwaith integredig. Mae angen iddynt adeiladu a gwella seilwaith cerdded a beicio bob blwyddyn.

6.7.4 Ategir Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 gan ganllawiau statudol:

- Canllawiau statudol ar gyfer cyflawni Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013[43]
- Canllawiau dylunio – Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013[44]

[42] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/7
[43] https://beta.llyw.cymru/teithio-llesol-canllawiau-statudol-ar-gyfer-awdurdodau-lleol
[44] https://beta.llyw.cymru/teithio-llesol-canllawiau-dylunio

6.7.5 Dylid cynllunio seilwaith cerdded a beicio mewn modd cyson a chynhwysfawr sy'n galluogi teithiau llesol cyfleus a diogel, fel y nodir yn y canllawiau dylunio statudol. Dylai llwybrau a chyfleusterau gydymffurfio â'r safonau cyhoeddedig, a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd.

6.7.6 Ystyrir bod manteision iechyd teithio llesol yn llawer trech na'r amlygiad i lygredd sy'n deillio ohono, ac eithrio yn y sefyllfaoedd mwyaf eithafol. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn well nodi a blaenoriaethu llwybrau cerdded a beicio â lefelau is o lygredd ac adlewyrchir hyn yn y diweddariad o'r canllawiau dylunio statudol sydd ar fin cael ei gyhoeddi.

6.8 Rôl yr heddlu

6.8.1 Mae gan wasanaeth yr heddlu yng Nghymru gyfrifoldeb, ynghyd â'i bartneriaid, i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gall fod ar sawl ffurf, ond fel arfer mae sŵn yn ffactor cyffredin. Mae cerbydau modur, a ddefnyddir ar y ffordd ac oddi arni, yn gyfranwyr cyffredin at gwynion a wneir yn uniongyrchol i'r heddlu neu y mae'r heddlu yn dod ar eu traws. Mae enghreifftiau ymarferol yn cynnwys defnyddio systemau egsôst nad ydynt yn mynd yn groes i ddeddfwriaeth sydd wedi'u gosod ar feiciau modur neu geir perfformiad pŵer uchel, gyda'r bwriad o greu sŵn uwch drwy gyflymu'n gryf. Mae hyn yn peri gofid ac annifyrrwch i gymunedau a defnyddwyr ffyrdd eraill tra byddant yn cael eu defnyddio ar ffyrdd cyhoeddus. Yn gysylltiedig â hyn mae gweithgaredd y cyfeirir ato'n aml fel gyrru'n anghyfreithlon oddi ar y ffordd, sy'n digwydd ar dir heblaw ffyrdd neu briffyrdd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ar hyd llwybrau troed a llwybrau ceffylau, yn aml mewn ardaloedd o fewn parciau cenedlaethol. Mae'r gweithgaredd hwn yn aml yn achosi cryn niwed i'r amgylchedd ac yn cynnwys defnyddio cerbydau o fath 4x4 a beiciau modur o fath sgrialwyr.

6.8.2 Mae'r pedwar heddlu yng Nghymru yn adweithiol ac yn rhagweithiol wrth ymateb i bryderon cymunedau mewn perthynas â'r problemau hyn. Mae swyddogion arbenigol o dimau plismona ffyrdd yn aml yn cynnal ymgyrchoedd a gweithrediadau gan ddefnyddio tactegau gorfodi ac addysg i dargedu'r rhai sy'n gyfrifol amdanynt. Mae'r ddeddfwriaeth a ddefnyddir yn amrywio ac yn cynnwys gwahanol elfennau o Ddeddf Traffig 1988[45] a hefyd adran 59 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002[46], sy'n caniatáu atafaelu cerbydau a ddefnyddir yn yr amgylchiadau a ddisgrifiwyd uchod.

[45] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1988/52
[46] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2002/30/section/59

6.8.3 Mae'r heddlu yn targedu sŵn gormodol a wneir gan feiciau modur yn benodol fel rhan o 'Ymgyrch Darwen', sy'n ymgyrch ar y cyd rhwng pedwar heddlu Cymru a Phartneriaeth Lleihau Anafiadau Ffyrdd Cymru, sy'n para o ddechrau'r gwanwyn hyd at yr hydref. Nod yr ymgyrch yw lleihau'r risg o farwolaethau ac anafiadau difrifol sy'n gysylltiedig â beiciau modur ar y ffyrdd. Yn aml daw swyddogion ar draws beiciau modur y mae egsôsts ôl-farchnad heb eu cymeradwyo wedi'u gosod arnynt, nad ydynt yn cydymffurfio â'r gyfraith. Gellir ymdrin â'r rhain naill ai drwy gyflwyno hysbysiad unioni diffygion cerbydau, lle mae'n rhaid i'r beiciwr drefnu i'r egsôst gael ei newid a'i archwilio gan garej sy'n cynnal profion MOT o fewn 14 diwrnod, neu drwy osod cosb benodedig. Yn ogystal ag erlyn troseddwyr, mae'r heddlu yn ceisio addysgu ac annog beicwyr i gael hyfforddiant pellach er mwyn eu gwneud yn fwy diogel ar y ffyrdd.

Yr ymatebion i'r ymgynghoriad: llwythi tawel(ach)

Wrth ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun gweithredu hwn ar sŵn a seinwedd, galwodd yr Athrofa Acwsteg a'r Noise Abatement Society, ill dwy am gynnwys cynlluniau integredig tawel(ach) ar gyfer gwasanaethau a chludo llwythi, gan gynnwys pennu llwybrau ac amserau ar gyfer cerbydau cludo llwyddi (o bob maint a llun) i helpu i reoli effeithiau cronnus sŵn y gweithgareddau hyn, yn enwedig mewn trefi a dinasoedd.

Dywedodd y Noise Abatement Society:

"Extensive information on trials, driver training, equipment and management options for these activities are available from the Department for Transport[47] and Transport for London[48]. The aim of these programmes is to support the elimination of unnecessary and excessive noise from such activities at all times, as the particular character of delivery and servicing noise can be highly disruptive to residents, businesses and other sensitive receptors regardless of the duration and/when they take place."

[47] https://www.gov.uk/government/publications/quiet-deliveries-demonstration-scheme a https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/306851/freight-operators.pdf
[48] https://tfl.gov.uk/info-for/deliveries-in-london/delivering-efficiently/retiming-deliveries

7 Sŵn rheilffyrdd yng Nghymru

7.1 Trosolwg

7.1.1 Mae sŵn rheilffyrdd yn effeithio ar nifer gymharol fach o bobl yn eu cartrefi o gymharu â sŵn traffig ffyrdd. Mae'r rhan fwyaf o gartrefi yn wynebu ffyrdd, ond dim ond cyfran fach sy'n wynebu rheilffyrdd. Ar y cyfan, mae sŵn rheilffyrdd yn peri llai o annifyrrwch i bobl na sŵn sydd yr un mor uchel o drafnidiaeth ar y ffordd a thrafnidiaeth awyr[49]. Lle y gall fod amlygiad i sŵn rheilffyrdd, mae'r broses gynllunio, WelTAG a Rheoliadau Inswleiddio rhag Sŵn (Rheilffyrdd a Systemau Trafnidiaeth Dywysedig eraill) 1996[50] yn atal problemau sŵn rhag codi yn y lle cyntaf lle y bo'n ymarferol. Ond gellir cael lefelau uchel o amlygiad o hyd, o ganlyniad, er enghraifft, i gynnydd yn nifer y gwasanaethau nos neu'r blociau o fflatiau sy'n cael eu hadeiladu'n agos at ddepos rheilffyrdd.

7.1.2 Gallai trydaneiddio a'r defnydd helaethach o waith llifanu rheilffyrdd leihau sŵn cerbydau unigol ar y prif linellau yn sylweddol. Ar y llaw arall, mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio (am resymau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol) ac yn disgwyl gweld twf sylweddol pellach yn y sector rheilffyrdd yng Nghymru. Mae gan newid moddol i ffwrdd o drafnidiaeth ar y ffordd a thrafnidiaeth awyr, tuag at reilffyrdd, rôl bwysig i'w chwarae o ran yr ateb cyfannol i broblem sŵn trafnidiaeth, ond mae'n debygol o olygu mwy o wasanaethau a threnau hirach, cyflymach. Ar yr un pryd, oherwydd galw am dai, mae nifer gynyddol o eiddo preswyl yn cael ei adeiladu yn agos at reilffyrdd a seilwaith y rheilffyrdd sy'n bodoli eisoes. Er mwyn i'r rheilffyrdd gael eu hystyried yn ddull gwirioneddol gynaliadwy ac ecogyfeillgar o deithio, ni all cyrff cyfrifol fod yn hunanfodlon ynglŷn â sŵn rheilffyrdd yn y dyfodol.

7.1.3 Mae'n ofynnol i'r diwydiant rheilffyrdd ymateb i gwynion ynghylch sŵn. Mae'r rhain yn aml yn codi lle mae'r sŵn o fath sy'n dal sylw pobl, er enghraifft, cyrn trenau, gwichiau wrth fynd rownd tro ac uniadau cledrau. Mae'r ymateb i gwynion yn gofyn am ddull gweithredu gwahanol i'r un ar gyfer ymateb i fapiau sŵn. Gall fod cydberthynas gymhleth rhwng yr amlygiad mesuradwy i sŵn a chryfder teimladau achwynydd. Mewn rhai sefyllfaoedd gall clywed sŵn, hyd yn oed ar lefelau isel, fod yn ddigon ynddo'i hun i arwain at gŵyn, yn enwedig os oes canfyddiad bod achos y sŵn yn ddiangen neu'n annisgwyl. Mae angen ystyried cwynion ynghylch sŵn fesul achos. Pan fo'n briodol cymryd camau, mae'r diwydiant rheilffyrdd yn ceisio dilyn egwyddor y dull ymarferol gorau.

[49] Am drafodaeth bellach, cyfeirir darllenwyr at adroddiadau ar y pwnc a luniwyd gan yr Undeb Rheilffyrdd Rhyngwladol (https://uic.org/IMG/pdf/railway_noise_in_europe_2016_final.pdf, https://uic.org/IMG/pdf/the_railway_noise_bonus_report-2.pdf).

[50] http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/1996/428/made

7.2 Pwy sy'n gyfrifol?

7.2.1 Network Rail yw perchennog y seilwaith a gweithredwr y rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol. Mae sawl cwmni gweithredu trenau cludo teithwyr a nwyddau unigol yn darparu'r gwasanaethau trên. Cynrychiolir cwmnïau trenau cludo teithwyr a nwyddau ar y cyd gan y Grŵp Cyflenwi Rheilffyrdd (RDG). Gall un sefydliad unigol neu nifer o'r partïon hyn ar y cyd fod yn gyfrifol am broblemau sy'n ymwneud â sŵn.

7.2.2 Mae Network Rail hefyd yn aelod o'r Grŵp Cyflenwi Rheilffyrdd. Mae cyfrifoldebau Network Rail yn cynnwys gwaith cynnal a chadw wrth ochr y llinell, ansawdd traciau, adnewyddu a chynnal y seilwaith, gwaith peirianyddol, cyfyngiadau ar gyflymder a materion sy'n ymwneud ag eiddo.

7.2.3 Y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd yw rheoleiddiwr diogelwch ac economaidd annibynnol rheilffyrdd Prydain Fawr. Ymhlith ei swyddogaethau mae trwyddedu'r cwmnïau sy'n gweithredu trenau, gorsafoedd, depos cynnal a chadw ysgafn a rhwydweithiau.

7.2.4 Sefydlwyd gweithgor polisi sŵn sy'n cynrychioli'r diwydiant rheilffyrdd ym Mhrydain Fawr mewn ymateb i'r cylch cyntaf o gynlluniau gweithredu ynghylch sŵn, i gyflawni rôl cydgysylltu a hwyluso wrth ddatblygu ymagwedd diwydiant cyfan at bolisi a deddfwriaeth ynglŷn â sŵn. Mae'n seiliedig ar yr egwyddor y dylai'r rheilffyrdd anelu at sicrhau mai nhw yw'r dull mwyaf cynaliadwy o deithio mewn perthynas â sŵn a'i effeithiau. Darperir yr ysgrifenyddiaeth gan y Bwrdd Diogelwch a Safonau Rheilffyrdd (RSSB), sy'n sefydliad nid er elw a berchenogir ac a ariennir gan randdeiliaid mawr yn y diwydiant rheilffyrdd ond sy'n annibynnol ar unrhyw barti unigol. Mae Llywodraeth Cymru yn aelod o'r grŵp er mwyn sicrhau y caiff buddiannau Cymru eu hystyried ym mhob un o'i weithgareddau.

(h) Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2012. Arolwg Ordnans 100021874. Llywodraeth Cymru.

7.3 Yr hyn y mae'r mapiau sŵn yn ei ddweud wrthym

7.3.1 Mae sawl ffynhonnell sŵn sy'n gysylltiedig â'r rheilffordd weithredol. Mae'r ymarfer mapio sŵn cyfredol o dan y Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol yn canolbwyntio ar sŵn mynd heibio (sŵn injans/tyniant a rholio) gan mai hwn sy'n gyfrifol am y lefelau uchaf o allyriadau. Ar hyn o bryd nid yw'r mapiau sŵn rheilffyrdd yn cynnwys sŵn o ddepos, cyrn na gorsafoedd na gwichian o droadau a brecio, er y bydd yn ofynnol iddynt ystyried gwichian wrth fynd rownd troadau yn y cylch mapio sŵn y disgwylir iddo gael ei gynnal yn 2022. Yn aml mae'n anodd modelu'r sŵn o'r ffynonellau hyn sydd wedi'u hepgor am ei fod yn gofyn am wybodaeth leol fanwl, megis gweithrediadau depos, neu gall fod yn anodd rhagfynegi sŵn o'r fath gan ei fod ond yn codi'n achlysurol, fel gyda gwichian wrth fynd rownd troadau.

7.3.2 Defnyddiwyd data traffig ffyrdd manylach (math o drên a'i hyd) i lunio mapiau sŵn 2012, er mwyn ennyn mwy o hyder ynddynt nag o gymharu â'r mapiau sŵn blaenorol a luniwyd yn 2007. At hynny, mae gwaith a gomisiynwyd gan Network Rail wedi dangos[51] sut mae gwelliannau i waith cynnal a chadw traciau wedi llwyddo i leihau sŵn yn sylweddol. Ar ôl caffael trenau peirianyddol arbenigol, mae Network Rail wedi codi safon gwaith cynnal a chadw traciau. Mae'r gyfundrefn llifanu rheilffyrdd a ddefnyddir ledled y rhwydwaith wedi gwella cyflwr pennau rheilffyrdd yn sylweddol ac ymddengys fod hyn wedi sicrhau gwelliant o 4-dB o ran 'ansawdd acwstig traciau' ledled y rhwydwaith erbyn 2012. Ymgorfforwyd y gwelliant hwn ym mapiau sŵn 2012.

7.3.3 Dangosir niferoedd amcangyfrifedig y bobl y mae eu cartrefi yn agored i ystod o lefelau sŵn o brif reilffyrdd yng Nghymru yn Nhablau 7.1 a 7.2 isod. Gan fod ymarfer mapio 2017 yn rhagflaenu'r rhaglen i drydaneiddio pob rhan o Reilffordd y Great Western, mae mapiau sŵn 2012 wedi'u hailddefnyddio gyda model poblogaeth breswyl wedi'i diweddaru.

Tabl 7.1 Amlygiad y boblogaeth breswyl i sŵn o brif reilffyrdd yng Nghymru gan ddefnyddio dangosydd sŵn dydd-hwyr-nos L_{den}

Ffynhonnell y data	Nifer y bobl y mae eu cartrefi wedi'u hamlygu i'r lefelau sŵn hyn				
	55-59 dB	60-64 dB	65-69 dB	70-74 dB	> 75 dB
Map sŵn 2012, model poblogaeth 2017	23,700	15,600	11,900	5,800	3,500

Tabl 7.2 Amlygiad y boblogaeth breswyl i sŵn o brif reilffyrdd yng Nghymru gan ddefnyddio dangosydd sŵn nos L_{night}

Ffynhonnell y data	Nifer y bobl y mae eu cartrefi wedi'u hamlygu i'r lefelau sŵn hyn				
	50-54 dB	55-59 dB	60-64 dB	65-69 dB	> 70 dB
Map sŵn 2012, model poblogaeth 2017	20,500	13,200	7,400	5,200	1,200

[51] Craven, N *et al.*, *Responding to the Environmental Noise Directive by demonstrating the benefits of rail grinding on the Great Britain's railway network*, Proceedings of the Institution of Mechanical Engineers, Part F: Journal of Rail and Rapid Transit, Gorffennaf 2013.

Blwch 7.1

Bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio ei Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol er mwyn eu cysoni â deddfwriaeth Ewropeaidd newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddull mapio sŵn cyffredin gael ei ddefnyddio yn y cylch mapio sŵn nesaf. Drwy ei haelodaeth o bwyllgor Sefydliad Safonau Prydeinig ar sŵn trafnidiaeth, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cymryd rhan mewn gwaith i ystyried opsiynau ar gyfer dull gwell o gyfrifo sŵn rheilffyrdd yn y DU.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pa rôl ddefnyddiol y gallai ei Chanolfan Monitro ac Asesu Ansawdd Aer ei chwarae mewn unrhyw ymarfer sŵn yn y dyfodol.

7.4 Ardaloedd â blaenoriaeth

7.4.1 Mae'r map o ardaloedd â blaenoriaeth o ran sŵn rheilffyrdd yng Nghymru (mannau lle mae cartrefi pobl wedi'u hamlygu i lefel sŵn dydd-hwyr-nos sy'n uwch na 73 dB yn ôl mapiau sŵn 2012) wedi'u diweddaru yn 2018 er mwyn ystyried unrhyw ddatblygiadau preswyl newydd sydd wedi'u cwblhau ger prif reilffyrdd yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

7.5 Electrification

7.5.1 Trydaneiddio yw'r cam cyntaf tuag at wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer seilwaith rheilffyrdd wedi'i moderneiddio ledled Cymru. Mae rhwydwaith rheilffyrdd wedi'i drydaneiddio yn rhatach i'w weithredu a'i gynnal a'i gadw ac, felly, mae'n cynnig gwerth am arian i'r trethdalwr. Bydd defnyddwyr yn teithio ar drafnidiaeth carbon is mewn ffordd fwy cynaliadwy ac yn profi taith dawelach a chyflymach. Bydd trydaneiddio yn ei gwneud yn bosibl i drenau diesel gael eu disodli gan drenau tawelach, gan gynnwys y defnydd posibl o locomotifau trydan ar gyfer trenau cludo nwyddau. Mae locomotifau trydan yn llawer tawelach na'r locomotifau diesel cyfatebol a byddai locomotifau cludo nwyddau trydan o fudd arbennig gyda'r nos am mai dyma'r adeg y mae nwyddau yn aml yn cael eu symud. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru am drydaneiddio'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

7.6 Gwasanaethau a ddarperir gan y diwydiant rheilffyrdd

7.6.1 Mae gwefan Network Rail[52] yn hysbysu aelodau o'r cyhoedd am y ffordd y mae problemau sŵn yn cael eu datrys a sut i wneud cwyn, naill ai i Network Rail ei hun drwy ffonio ei linell gymorth 24 awr[53], os bydd yn ymwneud â chyflwr y trac, neu fel arall i un o'r cwmnïau gweithredu trenau[54].

7.6.2 Mae cwmnïau gweithredu trenau yn aml yn dynodi 'cerbydau tawel' ar drenau hirach, yn enwedig ar lwybrau pellter mawr rhwng dinasoedd, er mwyn cydnabod y ffaith bod yn well gan lawer o deithwyr amgylchedd teithio llonydd, lle na cheir unrhyw sgyrsiau ffôn symudol uchel nac unrhyw sŵn arall i dynnu eu sylw.

Blwch 7.2

Lle mae cyllidebau ar gyfer gwaith lliniaru sŵn ar y rheilffyrdd yn cael eu nodi gan gyrff cyfrifol gyda chylchoedd gwaith ym Mhrydain Fawr, bydd ardaloedd â blaenoriaeth yng Nghymru yn parhau i gael eu hystyried ar sail gyfartal â mannau cyfatebol yn Lloegr a'r Alban. Caiff costau a manteision unrhyw ymyriadau arfaethedig o'r fath eu hasesu a chaiff eu heffeithiolrwydd ei werthuso ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r diwydiant rheilffyrdd drwy ei weithgor polisi sŵn er mwyn ystyried ffyrdd o ddatblygu polisi sŵn rheilffyrdd ym Mhrydain Fawr ymhellach dros y pum mlynedd nesaf.

[52] https://www.networkrail.co.uk/communities/lineside-neighbours/noise-and-vibration
[53] https://www.networkrail.co.uk/communities/contact-us
[54] https://www.networkrail.co.uk/running-the-railway/train-operating-companies

8 Sŵn diwydiannol yng Nghymru

8.1 Mapio sŵn o ddiwydiannau mawr mewn crynodrefi

8.1.1 Lluniwyd mapiau sŵn newydd ar gyfer diwydiannau mawr mewn crynodrefi yn 2017 er mwyn adlewyrchu newidiadau i ddosbarthiad gofodol safleoedd diwydiannol ers cylch mapio sŵn 2012. Fodd bynnag, mae ymateb pobl i sŵn diwydiannol yn dibynnu'n fawr ar natur y sŵn sy'n cael ei glywed ac i ba raddau y mae'n cael ei guddio gan draffig ffyrdd ac nid adlewyrchir y ffactorau hyn yn y mapiau sŵn diwydiannol, sy'n golygu nad ydynt fawr ddim gwerth ymarferol i reoleiddwyr.



(h) Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2018. Arolwg Ordnans 100021874. Llywodraeth Cymru.

Blwch 8.1

Bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio ei Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol er mwyn eu cysoni â deddfwriaeth Ewropeaidd newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddull mapio sŵn cyffredin gael ei ddefnyddio yn y cylch mapio sŵn nesaf.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pa rôl ddefnyddiol y gallai ei Chanolfan Monitro ac Asesu Ansawdd Aer ei chwarae mewn unrhyw ymarfer sŵn yn y dyfodol.

8.2 Atal a rheoli llygredd mewn ffordd integredig

Darparwyd y wybodaeth yn yr adran hon gan CNC.

8.2.1 Caiff sŵn a allyrrir o ffynonellau diwydiannol mawr ei reoleiddio gan CNC ('trwyddedau A1') ac awdurdodau lleol ('trwyddedau A2') drwy Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016[55].

8.2.2 Mae canllawiau'r DU ar fodloni'r gofynion o ran rheoleiddio sŵn amgylcheddol o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ar gael i weithredwyr yn 'Horizontal Guidance Note' IPPC H3. Mae'r nodyn canllaw hwn wrthi'n cael ei adolygu gan asiantaethau amgylcheddol y DU er mwyn adlewyrchu arferion cyfredol.

8.2.3 Diweddarwyd y fethodoleg a ddefnyddir fel arfer i asesu effeithiau andwyol sŵn diwydiannol, sef Safon Brydeinig 4142, yn 2014. Mae'r safon hon bellach yn galw am roi ystyriaeth ehangach i effeithiau andwyol sŵn a'r cyd-destun lle y ceir allyriadau, yn arbennig:

- y lefel absoliwt;
- natur y sŵn, yn arbennig p'un a yw'n sŵn tonaidd neu ergydiol, a all fod yn gymaint o nodwedd ar unrhyw effaith andwyol â'r lefel;
- natur y derbynnydd, er enghraifft p'un a oes ffactorau penodol sy'n ei gwneud yn agored i sŵn a ph'un a yw'r amlygiad yn para am gyfnod penodedig.

[55] https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2016/1154/made

8.2.4 Mae sawl ffordd y gellir osgoi effeithiau sŵn andwyol posibl o safleoedd diwydiannol neu eu lleihau o leiaf i'r fath raddau fel na fyddant yn effeithio ar bobl na'r amgylchedd naturiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- lleoli datblygiadau newydd, p'un a ydynt yn sensitif i sŵn neu'n creu sŵn, er mwyn atal problemau sŵn rhag codi yn y lle cyntaf (mewn geiriau eraill, drwy'r system gynllunio);
- cynyddu'r pellter rhwng y ffynhonnell a derbynyddion;
- atal sŵn wrth y ffynhonnell drwy waith dylunio a chynnal a chadw da;
- defnyddio rhwystrau neu amgaeau i atal sŵn rhag dianc, gan gynnwys defnyddio seilwaith gwyrdd;
- lleihau neu atal sŵn wrth y ffynhonnell drwy gydymffurfio ag arferion gweithio a rheoli da;
- peidio â chynnal gweithrediadau swnllyd ar adegau penodol, megis yn ystod y nos.

8.2.5 O dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, caiff sŵn ei reoleiddio drwy ddefnyddio amodau sŵn safonol a chynllun rheoli amgylcheddol pob safle, yn hytrach na thrwy ddefnyddio terfynau penodol. Mae hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i addasu i seinwedd sy'n newid.

8.2.6 Mae Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ers iddynt ddod i rym, yn rhoi dimensiwn newydd i'r broses o ystyried effeithiau andwyol sŵn diwydiannol o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yng Nghymru. Mae Deddf 2016 yn nodi diben statudol CNC ac yn datgan, wrth arfer ei swyddogaethau, i'r graddau y bo'n gyson â'u harfer yn briodol, fod yn rhaid i CNC geisio rheoli adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru yn gynaliadwy, a chymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. (Golyga hyn, er bod cyfleoedd er mwyn annog gweithredwyr i gymryd camau y tu hwnt i derfynau statudol er mwyn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, fod y broses o benderfynu p'un a ddylid rhoi trwyddedau ai peidio o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn dal i fod yn rhwym wrth y terfynau statudol hynny.)

8.2.7 Anogir gweithredwyr safleoedd i gynnal trafodaethau â chynllunwyr a rheoleiddwyr cyn cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio neu drwydded amgylcheddol. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i unrhyw broblemau posibl gael eu nodi'n gynnar yn y broses, fel y gellir rhoi mesurau ar waith er mwyn osgoi canlyniadau andwyol i weithredwyr, rheoleiddwyr a chymunedau lleol. Mae hefyd yn cynnig y cyfle mwyaf i ymgorffori agweddau yn y gweithrediad a all helpu i gyflawni'r saith nod llesiant a sicrhau y caiff adnoddau naturiol eu rheoli'n gynaliadwy.

Blwch 8.2

Drwy ei haelodaeth o bwyllgor Sefydliad Safonau Prydeinig ar sŵn preswyl a diwydiannol bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio er mwyn sicrhau bod rheoleiddwyr amgylcheddol yng Nghymru yn cael canllawiau technegol clir a phriodol er mwyn eu helpu i wneud eu gwaith.

8.3 Grŵp Cyswllt Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol Cymru Gyfan

Darparwyd y wybodaeth yn yr adran hon gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

8.3.1 Mae Grŵp Cyswllt Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol Cymru Gyfan yn is-adran arbenigol o Banel Technegol Cymru Gyfan ar Lygredd, y mae ei aelodaeth yn cynnwys awdurdodau lleol Cymru, ac mae'n darparu'r canlynol:

- Ymateb ar ran yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru i ymgynghoriadau;
- Templedi trwyddedau i sectorau diwydiannol cyffredin megis prosesau sy'n ymwneud â mwynau;
- Cyfleoedd hyfforddiant a chyfnewid gwybodaeth i aelodau gan gynnwys gweithdai;
- Cysylltiadau uniongyrchol ag arbenigwyr o fewn Llywodraeth Cymru ar gyfer rhannu gwybodaeth dechnegol a pholisi sy'n datblygu;
- Cynrychiolwyr i fynd i gyfarfodydd grwpiau perthnasol ledled y DU;
- Cysylltiadau â rheoleiddwyr cenedlaethol;

- Gwaith lobïo yn seiliedig ar dystiolaeth a gafwyd drwy arfer a phrofiad ymarferol.

8.3.2 Mae'r Grŵp yn gweithio i wella cysondeb gweithgarwch rheoleiddio rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn darparu llwyfan i drosglwyddo gwybodaeth, sgiliau a phrofiad rhwng swyddogion, sydd yn ei dro yn sicrhau bod busnesau lleol ledled Cymru yn cael gwasanaeth gwell.

8.3.3 Mae gan aelodau'r grŵp sgiliau amrywiol ac maent yn aml yn gweithio mewn meysydd eraill megis ymgynghoriadau cynllunio, rheoli ansawdd aer lleol, ymchwilio i niwsans statudol a sŵn amgylcheddol.

Blwch 8.3

Bydd CNC yn parhau'n aelod o Grŵp Cyswllt Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol Cymru Gyfan, er mwyn ei gwneud yn bosibl i arfer gorau a chyfleoedd hyfforddiant gael eu rhannu â rheoleiddwyr diwydiannol awdurdodau lleol ar faterion sydd o ddiddordeb i'r naill ochr a'r llall megis sŵn diwydiannol.

8.4 Niwsans statudol

8.4.1 Awdurdodau lleol a ddylai ymdrin â chwynion ynghylch sŵn sy'n gysylltiedig â gweithgareddau diwydiannol nad ydynt yn destun mesurau atal a rheoli integredig o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (ac sydd, felly, y tu hwnt i gwmpas y Gyfarwyddeb a'r Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol). Mae ganddynt y pŵer i gymryd camau mewn perthynas â niwsans sŵn o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Gweler y bennod nesaf am ragor o fanylion.

9 Mathau eraill o sŵn

9.1 Sŵn mewn cymdogaethau

9.1.1 Mae **sŵn mewn cymdogaethau** yn cynnwys sŵn sy'n dod o'r tu mewn i'r gymuned, megis sŵn o safleoedd masnach neu fusnes, safleoedd adeiladu, diwydiannau lleol, safleoedd adloniant, sŵn domestig a sŵn ar y stryd.

9.1.2 Mae sŵn yn un o ganlyniadau anochel cymdeithas brysur ac mae llawer o bobl bellach yn byw mewn cymunedau preswyl lle mae dwysedd anheddu eithaf uchel. O ganlyniad i hyn, mae unigolion bellach yn llawer mwy tebygol o fod yn ymwybodol o sŵn mewn cymdogaethau a theimlo ei effaith, ac mae'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r cwynion a gyflwynir i awdurdodau lleol yng Nghymru.

9.1.3 Ymdrinnir â sŵn mewn cymdogaethau yn bennaf drwy'r gyfundrefn **niwsans statudol** a nodir yn Rhan III o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990[56]. Mae sŵn yn cael ei ystyried yn niwsans statudol pan gaiff ei allyrru o safle neu pan gaiff ei allyrru o gerbyd, peirianwaith neu gyfarpar ar stryd neu ei achosi ganddo, fel ei fod yn niweidiol i iechyd neu'n peri niwsans.

9.1.4 Mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i gymryd camau rhesymol i ymchwilio i gwynion a wneir gan drigolion. Wrth wneud hynny, bydd swyddog o'r awdurdod lleol yn ystyried, ymhlith pethau eraill, y math o sŵn, pa mor uchel ydyw a pha mor aml a phryd y mae'n digwydd. Pan fydd awdurdod lleol yn fodlon bod niwsans statudol yn bodoli, neu'n debygol o ddigwydd neu ailddigwydd, bydd yn rhaid iddo gyflwyno hysbysiad atal i'r unigolyn, gan ei wahardd neu ei gyfyngu rhag digwydd neu ailddigwydd.

9.1.5 Darperir pwerau gan Deddf Sŵn 1996 hefyd,[57] y bwriedir iddi ymdrin â sŵn gormodol sy'n codi yn ystod y nos o safleoedd trwyddedig neu annedd breswyl rhwng 11 pm a 7 am. Mae'r pwerau'n defnyddio lefel sŵn i benderfynu a yw'n dderbyniol, a chaiff swyddogion awdurdodau lleol fynd i mewn i safle lle mae'r sŵn yn uwch na'r lefelau rhagnodedig a mynd ag unrhyw gyfarpar sy'n gyfrifol am y sŵn ymaith.

[56] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/43/part/III
[57] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/37

9.1.6 Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014[58] yn darparu nifer o bwerau rheoli sŵn ychwanegol, gan gynnwys y waharddeb sifil, hysbysiad gwarchod y cyhoedd a'r gorchymyn diogelu mannau cyhoeddus. Cyhoeddwyd canllawiau statudol[59] er mwyn helpu awdurdodau lleol i ddefnyddio'r pwerau newydd hyn.

9.1.7 Mae adran 62 o Ddeddf Rheoli Llygredd 1974[60] yn darparu dull o reoli sŵn o uchelseinyddion ar y stryd. Cyfyngir ar ddefnyddio uchelseinyddion ar y stryd i'r oriau rhwng 8 am a 9 pm, a gwaherddir defnyddio uchelseinydd at ddibenion hysbysebu, adloniant, masnach neu fusnes oni ddefnyddir yr uchelseinydd mewn argyfwng, neu er mwyn hysbysebu nwydd darfodus y bwriedir iddo gael ei fwyta gan bobl. At hynny, o dan adran 63(3) o Ddeddf 1974, gellir cymryd camau os bydd clychau fan hufen iâ yn seinio ar ôl 7 pm neu cyn hanner dydd, neu os cânt eu seinio ar unrhyw adeg fel eu bod yn peri annifyrrwch. Mae'r Cod Ymarfer ar Sŵn o Glychau Faniau Hufen Iâ Etc. 1982[61] yn nodi'n glir bod seinio clychau "in such a way as to give reasonable cause for annoyance" yn drosedd o dan Ddeddf 1974.

9.1.8 Mae Deddf Trwyddedu 2003[62] yn sefydlu cynllun integredig ar gyfer trwyddedu safleoedd a ddefnyddir i werthu neu gyflenwi alcohol, darparu adloniant a reoleiddir neu ddarparu lluniaeth hwyr y nos. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am roi trwyddedau sy'n caniatáu gweithgareddau o'r fath a dylent arfer eu pwerau mewn ffordd sy'n atal y mathau o niwsans sŵn a gysylltir yn aml ag adloniant.

9.1.9 Rheoleiddir sŵn o safleoedd adeiladu drwy adran 60 o Ddeddf Rheoli Llygredd 1974[63], sy'n caniatáu i awdurdod lleol gyfyngu ar oriau gwaith a'r math o beirianwaith a ddefnyddir a phennu lefelau sŵn y mae'n ystyried eu bod yn dderbyniol. Disgwylir i gontractwyr ystyried effeithiau sŵn sy'n gysylltiedig â'u gweithrediadau a defnyddio'r dull ymarferol gorau a ddiffinnir yn adran 79(9) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990[64] i leihau effeithiau, er enghraifft, drwy newid oriau gwaith, ystyried defnyddio dulliau tawelach, peiriannau â distawyddion a rhwystrau acwstig, a threfniadau monitro.

[58] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/12
[59] https://www.gov.uk/government/publications/anti-social-behaviour-crime-and-policing-bill-anti-social-behaviour
[60] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1974/40/section/62
[61] https://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/noiseandnuisance/codes-of-practice/ice-cream-van-chimes/?lang=cy
[62] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2003/17
[63] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1974/40/section/60
[64] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/43/section/79

9.1.10 O dan Ran 7 o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005[65], gall awdurdodau lleol ddynodi ardal hysbysu am larymau lle mae'n rhaid i unrhyw un sy'n gyfrifol am safle lle mae larwm tresmaswyr wedi'i osod enwi deiliad allwedd a hysbysu'r awdurdod lleol. Mae Deddf 2055 hefyd yn rhoi pŵer i swyddogion adran iechyd yr amgylchedd fynd i mewn i fangre er mwyn atal larwm rhag seinio heb ddefnyddio grym, neu drwy ddefnyddio grym os bydd ganddynt warant fynediad, os bydd larwm wedi bod yn seinio'n ddi-baid am 20 munud neu'n ysbeidiol am fwy nag awr a bod y sŵn yn debygol o roi achos rhesymol dros deimlo'n annifyr i bobl sy'n byw neu'n gweithio gerllaw.

9.1.11 Gan weithio gydag Extrium Ltd, adolygodd Llywodraeth Cymru y gwahanol ddogfennau canllaw a chodau ymarfer sy'n ymwneud â sŵn yng Nghymru a blaenoriaethodd y dogfennau hynny yr oedd angen eu diweddaru fwyaf. Gan weithredu ar yr adolygiad hwn yn 2017, cyflwynodd Llywodraeth Cymru orchymyn[66] i ddiweddaru codau ymarfer statudol Cymru ar larymau tresmaswyr a sŵn o waith adeiladu a bu'n gweithio gyda Defra i lunio canllawiau newydd[67] ar niwsans statudol a thrwyddedu amgylcheddol yng Nghymru a Lloegr.

9.1.12 Diweddarodd Llywodraeth Cymru ei llyfryn gwybodaeth i'r cyhoedd, *Cyngor ar Sŵn*[68], yn 2014 er mwyn adlewyrchu newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth a rhoi trosolwg hawdd ei ddeall o'r broses ffurfiol o wneud cwyn i adran iechyd yr amgylchedd yr awdurdod lleol i aelodau o'r cyhoedd

Blwch 9.1

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda rheoleiddwyr sŵn yng Nghymru er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth a chanllawiau sy'n ymwneud â sŵn mewn cymdogaethau yn parhau'n gyfredol a rhoi gwybodaeth glir a chywir i aelodau o'r cyhoedd am sut i wneud cwyn ynghylch niwsans sŵn yn eu hardal.

[65] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2005/16/part/7
[66] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/81/made
[67] https://www.gov.uk/government/publications/environmental-permitting-guidance-statutory-nuisance
[68] https://gov.wales/docs/desh/publications/141127noisesoundadvicecy.pdf

9.2 Sŵn milwrol

Darparwyd y wybodaeth yn yr adran hon gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD).

Awyrennau milwrol

9.2.1 Mae angen parhaus ar yr MOD i hyfforddi peilotiaid i hedfan yn isel[69] yn y Deyrnas Unedig er mwyn iddi allu parhau i fod yn abl a chymwys i wneud tasgau y gofynnir iddi eu gwneud gan y Llywodraeth, gan gynnwys gweithgareddau rhyfela, cymorth i gadw'r heddwch, dyletswyddau cadw'r heddwch a chymorth dyngarol.

9.2.2 Mae hedfan yn isel yn allu a gollir yn rhwydd a'r unig ffordd o gynnal y sgil yw trwy hyfforddiant trylwyr ac ymarfer di-dor mewn amgylchedd realistig. Er mwyn sicrhau y bodlonir gofynion milwrol tra'n ffrwyno'r peryglon o ddamweiniau a bod yn ystyriol o'r angen i osgoi aflonyddu ar y cyhoedd, mae hyfforddiant hedfan isel milwrol yn cael ei daenu mor eang ac mor gyfartal â phosib o fewn System Hedfan Isel y DU, gan ddefnyddio'r holl ofod hedfan Dosbarth G sydd o dan 2,000 o droedfeddi uwchlaw'r ddaear, ac eithrio rhai mannau dynodedig.

9.2.3 Saif Cymru yn Ardal Hedfan Isel 7, gyda rhan fach o ogledd-ddwyrain Powys yn Ardal Hedfan Isel 9. Mae RAF y Fali, MOD Sain Tathan, Maes Tanio Arfau'r Awyr Traeth Pen-bre, Barics Cawdor ym Mreudeth, y Maes Tanio Brenhinol ym Maenorbŷr (lle mae awyrennau'n hyfforddi i gefnogi lluoedd ar dir) a Chanolfannau Hyfforddi Maes yng Nghastellmartin a Phontsenni i gyd yn yr ardal.

9.2.4 Mae Ardal Hedfan Isel 7 yn cynnwys Ardal Hyfforddi Dactegol 7T lle caiff awyrennau milwrol hedfan rhwng 250 a 100 troedfedd uwchlaw'r ddaear at ddiben hyfforddi criwiau i hedfan yn isel o dan amodau gweithredol. Mae angen y math hwn o hyfforddiant ar griwiau i sicrhau'u bod yn gallu hedfan mor isel ac i'w paratoi at hedfan o dan amodau gweithredol neu ymarferiadau hyfforddi dramor. Mae'r ymarferiadau'n cael eu rheoli a'u monitro'n ofalus a rhaid eu trefnu a'u hawdurdodi fis ymlaen llaw. Mae'r MOD yn rhoi manylion ei rhaglen Hedfan Isel Weithredol i'r cyfryngau lleol bob mis, a chyhoeddir y rhaglen hefyd ar wefan Gov.uk[70].

[69] Dywedir bod awyrennau milwrol ag adenydd sefydlog yn hedfan yn isel pan fyddant yn hedfan lai na 2,000 o droedfeddi uwchlaw'r ddaear. Dywedir bod awyrennau ysgafn â phropelor a hofrenyddion yn hedfan yn isel pan fyddant yn hedfan lai na 500 o droedfeddi uwchlaw'r ddaear.
[70] https://www.gov.uk/low-flying-in-your-area

9.2.5 Mae Ardal Hedfan Isel 7 hefyd yn cynnwys 'system llif' ym Mryniau Cambria sy'n cael ei hadnabod fel y "Mach-Loop" ar ôl Machynlleth. Llif cylchol sy'n rhedeg yn groes i'r cloc yw hwn sydd wedi'i greu er mwyn i griwiau allu ymarfer hedfan gyda'r cyfuchliniau trwy'r cymoedd heb orfod poeni am ddod wyneb yn wyneb ag awyrennau sy'n dod o'r cyfeiriad arall.

9.2.6 Cynhelir hyfforddiant hedfan isel fel arfer yn ystod y dydd a cheir nifer o fesurau i gadw'r ddysgl yn wastad rhwng yr angen am hyfforddiant a'r angen i osgoi gwneud gormod o sŵn. Yn eu plith y mae amrywio amseroedd ymarfer. Rhoddir ystyriaeth ddwys cyn gwneud cynlluniau i hedfan yn isel yn y nos, ac mae nifer yr ymarferiadau hedfan isel a wneir yn y nos yn cyfateb i'r angen gweithredol. Fodd bynnag, mae hi weithiau yn amhosib osgoi amharu ar bobl.

9.2.7 Fel rhan o waith cysylltiadau cyhoeddus y RAF yng Nghymru a'i ymrwymiad i ymgysylltu â'r cyhoedd, mae gan y Gwasanaeth swydd Comodor Awyr o dan y teitl Swyddog Awyr Cymru. Ei waith yw meithrin cysylltiadau â phob sector yng nghymdeithas Cymru trwy hyrwyddo'r gwaith llesol y mae'r Gwasanaeth yn ei wneud a chynnal ei broffil. Daw hynny â chyfrifoldeb i esbonio goblygiadau'r sŵn sy'n gysylltiedig â'r hyfforddiant sydd ei angen i gadw'r Gwasanaeth yn barod i weithredu ar y rhybudd lleiaf. Mae gorsafoedd y RAF wedi meithrin cysylltiadau da â chymunedau lleol, ac yn eu cynnal trwy greu gwefannau lleol a gosod hysbysebion yn y papurau lleol i hysbysebu ymarferiadau neu weithgarwch anarferol ar y meysydd tanio neu symudiadau awyrennau.

9.2.8 Mae'r MOD yn darparu terfynau sŵn amgylcheddol ei orsafoedd awyr i awdurdodau lleol i'w helpu â'u penderfyniadau cynllunio.

9.2.9 Dylai aelodau'r cyhoedd sy'n poeni am awyrennau milwrol sy'n hedfan yn isel gysylltu â'r Uned Gwynion ac Ymholiadau Hedfan Isel. Fe welwch eu manylion ar wefan Gov.uk[71].

[71] https://www.gov.uk/low-flying-in-your-area

Sŵn meysydd tanio

9.2.10 Mae sŵn gynau mewn meysydd tanio'n cael eu rheoli ar Ystad Hyfforddi'r MOD yn unol â pholisi'r MOD, a chydymffurfir yn llwyr ag unrhyw gyfyngiadau lleol yn ardal y maes tanio er mwyn i'r MOD allu parhau'n gymydog cyfrifol yn y gymuned. Yn Ardal Hyfforddi Pontsenni, cynhelir rhagolygon sŵn gan ddefnyddio rhagolygon y Swyddfa Dywydd bob bore wrth gynllunio ymarferiadau tanio. Ym meysydd Castellmartin a Maenorbŷr, caiff y sŵn ei fonitro gan ddefnyddio meddalwedd mesur sŵn tanio dryllau GNAT yr MOD. Mae'r ddwy system yn galluogi'r MOD i sicrhau nad yw'r sŵn yn uwch na 130 dB ar ffin y maes tanio. Os bydd cyfeiriad y gwynt neu'r amodau atmosfferig yn newid gan effeithio ar y sŵn, atelir y tanio ac efallai newidir safle'r saethu neu'r ardal y tannir arni er mwyn cadw at y 130 dB. Lle bo gofynion gweithredol mawr, oherwydd tanio gan danciau, artileri neu amddiffyn awyr, gallai uwchswyddogion ofyn am ganiatâd i gynyddu'r lefel o 130 i 139 dB, ond ni eir yn uwch na 140 dB.

9.3 Sŵn galwedigaethol a niwed i'r clyw

Darparwyd y wybodaeth yn yr adran hon a'r un nesaf gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

9.3.1 Mae sŵn yn y gwaith yn gallu achosi niwed i'r clyw sy'n barhaol ac yn peri anabledd. Gall hyn ddigwydd yn raddol, drwy amlygiad i sŵn dros amser, ond gall niwed hefyd gael ei achosi o synau sydyn, uchel iawn. Mae'r niwed yn peri anabledd am ei fod yn gallu amharu ar allu pobl i ddeall lleferydd, cynnal sgwrs neu ddefnyddio'r ffôn.

9.3.2 Nid colli clyw yw'r unig broblem. Gall pobl ddatblygu tinitws (sŵn clychau bach, chwibanu, suo neu hymian yn y clustiau), sef anhwylder annifyr a all darfu ar gwsg.

9.3.3 Gall sŵn yn y gwaith darfu ar brosesau cyfathrebu a'i gwneud yn fwy anodd clywed rhybuddion. Hefyd gall beri i rywun fod yn llai ymwybodol o'i amgylchoedd. Mae'r ffactorau hyn yn gallu arwain at risgiau diogelwch sy'n rhoi pobl mewn perygl o gael eu hanafu neu eu lladd.

9.3.4 Mae sawl ffordd o leihau sŵn ac amlygiad i sŵn yn y gweithle. Bydd bron pob busnes yn gallu penderfynu ar gamau gweithredu ymarferol a chosteffeithiol i reoli risgiau sŵn os bydd angen drwy ystyried y cyngor sydd ar gael, er enghraifft ar wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar sŵn yn y gwaith[72] ac yn ei becyn cymorth ar reoli risgiau sŵn[73].

9.3.5 Mae Rheoliadau Rheoli Sŵn yn y Gwaith 2005[74] bellach mewn grym ar gyfer pob sector diwydiannol ym Mhrydain Fawr, gan gynnwys y sector cerddoriaeth ac adloniant. Nod y rheoliadau yw sicrhau bod clyw gweithwyr yn cael eu diogelu rhag sŵn gormodol yn y gweithle, a allai beri iddynt golli eu clyw a/neu ddioddef tinitws.

'Buy Quiet'

9.3.6 Mae ymgyrch 'Buy Quiet' yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn helpu gweithgynhyrchwyr, mewnforwyr, cyflenwyr a defnyddwyr cyfarpar i gydweithio er mwyn lleihau'r risg o golli clyw yn y gweithle o ganlyniad i sŵn. Mae'n helpu defnyddwyr i gyflawni eu dyletswydd i osgoi cyfarpar sŵn uchel pan fo cyfarpar sŵn is addas ar gael a gweithgynhyrchwyr i gyflawni eu dyletswydd i leihau sŵn drwy ddefnyddio dulliau technegol.

9.3.7 Mae niwed i'r clyw a achosir gan amlygiad hirdymor i sŵn yn y gweithle wedi bod yn destun pryder ers blynyddoedd lawer. Llwyddwyd i leihau amlygiad i sŵn yn y gweithle ond mae rhai pocedi o ddiwydiant o hyd lle mae lefelau amlygiad i sŵn yn dal i fod yn uchel, sy'n arwain at risg annerbyniol o niwed i'r clyw.

9.3.8 Weithiau mae cyflogwyr yn ei chael hi'n anodd rheoli sŵn yn ddigonol drwy ddefnyddio dulliau peirianyddol ac maent yn dibynnu ar raglenni diogelu'r clyw personol. Nid yw hyn yn briodol, am fod y perygl, sef y ffynhonnell sŵn, yn dal yno o hyd.

9.3.9 Mae gwelliannau yn ansawdd y wybodaeth am sŵn a gyflenwir gyda chyfarpar gwaith yn graddol gyrraedd y farchnad. Fodd bynnag, gallai rhai gweithgynhyrchwyr cyfarpar gwaith wneud mwy i leihau'r risg sy'n gysylltiedig â sŵn wrth y ffynhonnell a gwella ansawdd gwybodaeth am sŵn a gyflenwir gyda'u cynhyrchion.

[72] http://www.hse.gov.uk/noise
[73] http://www.hse.gov.uk/toolbox/noise.htm
[74] https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2005/1643/made

9.3.10 Fel rhan o ymgyrch ‘Buy Quiet’, mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi paratoi cyngor[75] i weithgynhyrchwyr, mewnforwyr a chyflenwyr cyfarpar gwaith ar ddarparu gwybodaeth am sŵn. Mae wedi darparu deunydd tebyg[76] i brynwyr a defnyddwyr cyfarpar gwaith hefyd.

9.4 Sŵn o weithgareddau hamdden a niwed i’r clyw

9.4.1 Nid yw cerddoriaeth yn cael ei hystyried yn sŵn gan y rhai sy’n dewis gwrando arni ond, pan fydd mor uchel fel ei bod yn niweidio eu clyw, bydd yn ateb y diffiniad o sŵn, sef sain ddiangen neu niweidiol.

9.4.2 Ni ellir diogelu aelodau o’r cyhoedd rhag colli eu clyw neu brofi tinitws a achosir gan gerddoriaeth a seiniau eraill y maent yn dewis amlygu eu hunain iddynt drwy ddeddfwriaeth yn unig, a chafwyd nifer o ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o’r peryglon posibl, yn enwedig ymhlith pobl ifanc. Caiff y rhain eu cynnal gan gyrff megis Action on Hearing Loss[77] a'r Noise Abatement Society[78].

9.4.3 Mae gweithio yng nghyd-destun cyfraith iechyd a diogelwch fel y mae ar hyn o bryd yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gynnal eu hymgymeriad mewn ffordd sy'n sicrhau, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, na chaiff y cyhoedd ei amlygu i risgiau i iechyd a diogelwch. Nid yw'r gyfraith yn rhagnodi pa fesurau rheoli a fyddai'n rhesymol ymarferol ym mhob achos. Mae hwn yn benderfyniad a ddylai gael ei wneud gan sefydliadau a gweithredwyr lleoliadau unigol yn seiliedig ar y risgiau penodol, y maent yn y sefyllfa orau i'w hasesu.

9.4.4 Mae canllawiau pellach[79] ar gael i drefnwyr, hyrwyddwyr a rheolwyr lleoliadau er mwyn eu helpu i asesu risg a rhoi mesurau rheoli risg addas ar waith a hwyluso cydymffurfiaeth â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

9.4.5 Mae'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn llunio deddfwriaeth ynglŷn â diogelwch defnyddwyr ac yn ei rhoi ar waith, ond gwasanaethau safonau masnach awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynnal archwiliadau goruchwylio'r farchnad ac yn gorfodi'r ddeddfwriaeth hon.

[75] http://www.hse.gov.uk/noise/buy-quiet/purchasers.htm
[76] http://www.hse.gov.uk/noise/buy-quiet/users.htm
[77] http://www.actiononhearingloss.org.uk/about-us/our-work-across-the-uk/wales
[78] http://noiseabatementsociety.com/campaigns/love-your-ears
[79] http://www.hse.gov.uk/event-safety

10 Crynodref Caerdydd a Phenarth

(h) Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2012. Arolwg Ordnans 100021874. Llywodraeth Cymru.

10.1 Yr hyn y mae'r mapiau sŵn yn ei ddweud wrthym

10.1.1 Cynyddodd poblogaeth breswyl crynodref Caerdydd a Phenarth o 359,400 i 369,700 rhwng ymarferion mapio sŵn 2012 a 2017.

10.1.2 Amcangyfrifwyd amlygiad y boblogaeth breswyl i sŵn o brif ffyrdd a diwydiant ar sail mapiau sŵn 2017. Amcangyfrifwyd amlygiad y boblogaeth breswyl i sŵn o bob ffordd yn y grynodref, ac o reilffyrdd, ar sail mapiau sŵn 2012, gan ddefnyddio fersiwn wedi'i diweddaru o fodel poblogaeth breswyl 2017. Yr eithriad i'r rheol hon yw lle mae'n rhoi ffigur uwch ar gyfer prif ffyrdd nag ar gyfer pob ffordd. Yn yr achosion hyn, wedi'i farcio â seren yn Nhablau 10.1 a 10.2, defnyddir y ffigur uwch ar gyfer prif ffyrdd.

Tabl 10.1 Amlygiad y boblogaeth breswyl gan ddefnyddio dangosydd sŵn dydd-hwyr-nos L_{den}, yn seiliedig ar fapiau sŵn a model poblogaeth 2017

Ffynhonnell sŵn	Nifer y bobl y mae eu cartrefi wedi'u hamlygu i'r lefelau sŵn hyn				
	55-59 dB	60-64 dB	65-69 dB	70-74 dB	> 75 dB
Prif ffyrdd	35,700	12,900	10,900	13,000	1,500
Pob ffordd	47,600	37,700	36,400	16,300	1,500*
Prif reilffyrdd	8,000	5,700	6,600	2,400	2,700
Pob rheilffordd	8,800	5,700	6,700	2,400	2,700
Diwydiant	2,400	300	0	0	0

Tabl 10.2 Amlygiad y boblogaeth breswyl gan ddefnyddio dangosydd sŵn nos L_{night}, yn seiliedig ar fapiau sŵn a model poblogaeth 2017

Ffynhonnell sŵn	Nifer y bobl y mae eu cartrefi wedi'u hamlygu i'r lefelau sŵn hyn				
	50-54 dB	55-59 dB	60-64 dB	65-69 dB	> 70 dB
Prif ffyrdd	18,800	12,000	13,900	1,800	200
Pob ffordd	39,800	41,500	18,300	1,800*	200*
Prif reilffyrdd	6,700	6,500	3,100	2,700	900
Pob rheilffordd	6,800	6,500	3,100	2,700	900
Diwydiant	1,600	200	0	0	0

10.2 Mannau tawel

10.2.1Mae 17 o fannau tawel dynodedig yn y grynodref hon. Mae'r rhai sydd wedi ennill Gwobrau'r Faner Werdd wedi'u marcio â seren.

1 – Lôn Penarth Head
2 – Parc Belle Vue*
3 – Parc Alexandra*
4 – Golden Gates
5 – Meysydd Chwarae Fictoria
6 – Parc Thompson
7 – Tir Hamdden y Rhath*
8 – Gerddi Pleser Parc y Rhath*
9 – Parc y Mynydd Bychan
10 – Parc y Rhath*
11 – Parc Caedelyn
12 – Parc Splott
13 – Parc Fictoria*
14 – Insole Court
15 – Parc y Tyllgoed
16 – Parc Bute*
17 – Parc Llanisien



(h) Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2012. Arolwg Ordnans 100021874. Llywodraeth Cymru.

10.2.2 Yn ogystal â'r llonyddwch cymharol y mae'r mannau tawel awyr agored hyn yn ei gynnig, ceir hefyd wahanol fannau dan do llonydd y gall pobl fynd i mewn iddynt am ddim. Mae'r rhain yn cynnwys yr Amgueddfa Genedlaethol a'r Llyfrgell Ganolog, y ddwy ohonynt yng nghanol y ddinas. At hynny, mae tiroedd Castell Caerdydd, a amgylchynir gan ei furiau uchel, yn cynnig lloches heddychlon. Gall y fath fannau llonydd dan do ac yr awyr agored gynnig hafan rhag y sŵn sy'n un o ganlyniadau twf economaidd Caerdydd, y nifer gynyddol o ymwelwyr a phoblogaeth sy'n tyfu. Disgwylir i boblogaeth Caerdydd gynyddu fwy nag 20% yn yr 20 mlynedd nesaf, sy'n gyflymach nag unrhyw ddinas fawr arall ym Mhrydain heblaw Llundain[80], ac, felly, mae'n hollbwysig diogelu a chynnal y mannau tawel hyn er lles pobl Cymru.

10.3 Cyngor Caerdydd



Darparwyd y wybodaeth yn yr adran hon gan Gyngor Caerdydd.

[80] https://www.cardiffpartnership.co.uk/wp-content/uploads/Welsh-Wellbeing-Plan-2017.pdf

Blaenoriaethau o ran sŵn a gwasanaethau

10.3.1 Staff o fewn y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, sy'n bartneriaeth rhwng Cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg, yn benodol Tîm 2 y Gwasanaethau Cymdogaethau, sy'n gyfrifol am ymchwilio i geisiadau am wasanaeth sy'n ymwneud â sŵn ledled Caerdydd a Bro Morgannwg. Yn ogystal â'r gwasanaeth dydd sy'n cael ei staffio gan y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, mae Cyngor Caerdydd yn gweithredu gwasanaeth sŵn liw nos penodol sy'n adweithio i gwynion parhaus a newydd ynghylch sŵn. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu ar nos Wener a nos Sadwrn rhwng 7 pm a 3 am. Mae'r gwasanaeth, sy'n cael ei staffio gan 'staff dydd' ar sail rota yn ychwanegol at eu dyletswyddau arferol, yn ymdrin â chwynion sy'n ymwneud â safleoedd domestig a masnachol megis clybiau, bariau a thafarndai, mewn dinas ag economi liw nos fywiog ac amrywiol a phoblogaeth fawr o fyfyrwyr.

10.3.2 Yn ogystal â'r gwasanaeth sŵn liw nos y tu allan i oriau penodol, mae system swyddogion ar ddyletswydd yn gweithredu y tu allan i oriau swyddfa saith diwrnod yr wythnos. Mae'r gwasanaeth swyddogion ar ddyletswydd yn ymateb i geisiadau am wasanaeth sy'n ymwneud â sŵn yn ogystal â larymau a materion brys o fewn cwmpas y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

10.3.3 Yn ogystal â darparu gwasanaeth adweithiol mewn perthynas â chwynion sy'n ymwneud â cherddoriaeth wedi'i seinchwyddo, cŵn sy'n cyfarth, aflonyddwch cyffredinol a larymau ar adeiladau, mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir hefyd yn darparu gwasanaeth rhagweithiol ac ymatebion mewn perthynas â cheisiadau cynllunio er mwyn diogelu amwynder preswyl ac yn cyflwyno sylwadau mewn perthynas â cheisiadau am drwyddedau, gan gynnwys trwyddedau newydd, amrywiadau a hysbysiadau am ddigwyddiadau dros dro, er mwyn cefnogi amcanion Deddf Trwyddedu 2003, gan gynnwys atal niwsans cyhoeddus.

10.3.4 Mae gwaith rhagweithiol sy'n ymwneud â'r gyfundrefn gynllunio, a gyflawnir gan swyddogion o fewn y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, yn cwmpasu cyngor cyn ymgeisio, ymatebion i geisiadau llawn ac amlinellol a chynnig a chyflawni amodau cynllunio. Nod gwaith rhagweithiol o'r fath, ynghyd â phlismona cydsyniadau adran 16 a roddir o dan Ddeddf Rheoli Llygredd 1974 a chyflwyno hysbysiadau adran 60 o dan Ddeddf 1974 a hysbysiadau atal o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, ymhlith pethau eraill, yw hyrwyddo'r nodau llesiant a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae swyddogion yn ystyried pwysigrwydd y nod o greu Cymru iachach, gan nodi'r effaith negyddol y gall sŵn ei chael ar les corfforol a meddyliol. Mae gweithgarwch ymgysylltu swyddogion â gwahanol bartïon yn sicrhau y caiff gwaith i ddatblygu yn y ddinas a gwella seilwaith a chysylltiadau trafnidiaeth, megis trydaneiddio'r brif linell reilffordd i mewn i'r ddinas, ei gyflawni gan roi ystyriaeth briodol i effeithiau sŵn.

10.3.5 Mae gan swyddogion yn Nhîm 2 y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir gydberthnasau gwaith agos ag asiantaethau partner megis timau ymddygiad gwrthgymdeithasol a thenantiaethau adran tai cyngor y ddinas ei hun ac maent yn helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â sŵn. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys aelod penodedig o staff sy'n cynorthwyo drwy ddarparu gwybodaeth a chymorth yn ôl yr angen. Mae gwaith rhagweithiol ac adweithiol sy'n ymwneud â sŵn hefyd yn cael ei gyflawni drwy gydgysylltu'n agos a gweithio mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru a phrifysgolion ledled y ddinas.

Sŵn a chynllunio

10.3.6 Ar 28 Ionawr 2016 mabwysiadodd y Cyngor gynllun datblygu lleol (CDLl) ar gyfer Caerdydd[81]. Daeth y CDLl yn weithredol ar ôl iddo gael ei fabwysiadu ac o hyn ymlaen bydd yn sail i benderfyniadau ynghylch cynllunio defnydd tir yng Nghaerdydd.

10.3.7 Mae'r CDLl yn nodi yr ymgymerir â gwaith datblygu mewn ffordd gynhwysfawr ac yn unol â'r gofynion uwchgynllunio allweddol, sy'n cynnwys cyflwyno mesurau i leihau effaith sŵn o'r M4.

[81] https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol/Documents/Final%20Adopted%20Plan%20Welsh.pdf

10.3.8 Gyda phoblogaeth sy'n tyfu'n gyflym, cydnabyddir o fewn y CDLl y gall isrannu adeiladau preswyl yn unedau preswyl llai o faint fod yn ffynhonnell bwysig o dai. Fodd bynnag, dim ond os bodlonir gofynion penodol, gan gynnwys y gofyniad na fyddai unrhyw niwed sylweddol i amwynder trigolion presennol gerllaw o ganlyniad i aflonyddu cyffredinol, sŵn nac anheddau sy'n edrych dros eiddo arall, y caniateir cynigion o'r fath ar gyfer addasu adeiladau'n fflatiau neu'n dai amlfeddiannaeth. Mae'r CDLl yn cydnabod, er y gall addasu neu isrannu adeiladau preswyl fel hyn ddarparu ffynhonnell o dai y mae eu mawr angen, y gall gwaith addasu anfoddhaol arwain at lety sy'n annigonol ac o ansawdd gwael, gyda'r meddianwyr yn wynebu problemau megis gorlenwi, prinder mannau amwynder, sŵn ac aflonyddu o eiddo cyfagos a ffynonellau allanol eraill. Mae tai o'r fath yn arwain at gwynion i swyddogion ac yn tanseilio nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

10.3.9 Cymaint yw'r gydnabyddiaeth o bwysigrwydd sŵn o ran cynllunio fel bod polisi manwl wedi'i gynnwys yn y CDLl. Mae Polisi EN13 (Aer, Sŵn, Llygredd Golau a Halogiad Tir) yn nodi na chaniateir gwaith datblygu pan fyddai'n achosi, neu'n arwain at, niwed annerbyniol i iechyd, amwynder lleol, cymeriad ac ansawdd cefn gwlad, neu fuddiannau sy'n bwysig oherwydd cadwraeth natur, tirwedd neu dreftadaeth adeiledig oherwydd llygredd aer, sŵn neu olau neu bresenoldeb lefelau annerbyniol o halogiad tir. Rhoddir sylw penodol i ddatblygiadau a fyddai'n creu lefelau annerbyniol o lygredd aer, sŵn neu olau, er mwyn sicrhau y cânt eu lleoli a'u rheoli'n briodol, ac na chaiff defnyddiau tir a datblygiadau anghydnaws eu lleoli ger ffynonellau posibl o lygredd. Mae'r CDLl yn rhoi sylw penodol i dderbynyddion sy'n sensitif i sŵn megis tai, ysgolion ac ysbytai, gan nodi y gall sŵn gael effaith niweidiol ar iechyd ac ansawdd bywyd pobl yn ogystal â'r dirwedd a natur.

10.3.10 Mae'r CDLl yn cydnabod y gall penderfyniadau gael eu llywio gan wybodaeth am gwynion ynghylch sŵn, sy'n ei gwneud yn llai tebygol y ceir niwsans sŵn, ac y gall llwybrau trafnidiaeth pwysig (ffordd, rheilffordd ac awyr) a rhai gweithgareddau diwydiannol a masnachol greu lefelau arbennig o uchel o sŵn.

10.3.11 At hynny, mae'r CDLl yn cydnabod ac, felly, yn ystyried dyletswyddau statudol Llywodraeth Cymru o dan y Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol a'r ardaloedd blaenoriaeth cynlluniau gweithredu ynghylch sŵn dynodedig yng Nghaerdydd. Mae'r CDLl yn nodi bod angen rhoi ystyriaeth arbennig pan gynigir gwaith datblygu a fydd yn creu sŵn mewn ardaloedd arbennig megis mannau tawel trefol neu'n agos atynt.

10.3.12 Mae'r CDLl yn cydnabod mai cymryd camau rhagweithiol i liniaru sŵn yw'r dull mwyaf buddiol a chosteffeithiol o ymdrin â sŵn. Mae'r CDLl yn dadlau y gall ymyriadau rhagweithiol sicrhau manteision lluosog, megis lleihau amlygiad pobl i lygryddion aer, gwneud adeiladau yn fwy ynni-effeithlon, annog ymddygiad gyrru mwy diogel neu wella wyneb y ffordd i yrwyr a beicwyr wrth ostwng lefelau sŵn. Dywed y CDLl hefyd, pe bai datblygiadau newydd angenrheidiol yn creu lefelau uchel o sŵn, gan gynnwys sŵn o gynlluniau trafnidiaeth arfaethedig, y dylid eu lleoli a'u cynllunio er mwyn lleihau eu heffaith o ran sŵn. Felly, lle y bo angen, bydd yn ofynnol i ddatblygwyr ddarparu asesiad o'r effaith o ran sŵn, ynghyd â mesurau lliniaru. Mae swyddogion o fewn y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn gofyn am asesiadau o'r fath ac yn craffu arnynt yn rheolaidd.

10.3.13 Mae polisïau manwl eraill yn y CDLl megis polisi R8 yn cydnabod eu bod yn well lleoli defnyddiau bwyd a diod, gan gynnwys bwtyai a siopau cludfwyd poeth, sydd wedi'u dosbarthu'n 'A3' yn nhermau cynllunio, mewn canolfannau dynodedig yn hytrach nag ardaloedd preswyl oherwydd yr effaith a gânt o ran traffig cerbydol a cherddwyr, sŵn, mygdarthau, sbwriel ac aflonyddu yn hwyr y nos. Fodd bynnag, gall crynoadau o ddefnyddiau A3 achosi niwed, naill ai i amwynder preswyl yn y ganolfan neu'r ardal o'i amgylch, neu i brif rôl siopa a chymeriad y ganolfan a'i bywiogrwydd, ei hatyniad a'i hyfywedd. Gan ystyried yr uchod, mae swyddogion y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn mynd ati i ystyried ceisiadau am ddefnyddiau A3 er mwyn diogelu amwynder preswyl ac atal problemau megis niwsans sŵn.

10.3.14 Mae ystyried sŵn ac, yn ei dro, fannau tawel, mor bwysig fel bod polisi manwl C5 (Y Ddarpariaeth ar gyfer Lle Agored, Hamdden Awyr Agored, Chwaraeon a Chwarae Plant) yn argymell y dylid cynllunio mannau agored yn unol â chanllawiau cynllunio atodol Caerdydd ar gyfer mannau agored er mwyn creu mannau agored wedi'u tirlunio sy'n cyflawni ei swyddogaeth a nifer o rolau gan gynnwys lleihau fandaliaeth, cynyddu preifatrwydd, darparu cynefinoedd bywyd gwyllt a lleihau ymyrraeth gan lygredd sŵn ac awyr.

10.3.15 Mae polisïau manwl eraill sy'n ystyried sŵn, ymhlith materion eraill, yn cynnwys polisi M2 (Trefn a Ffefrir ar gyfer Rhyddhau Adnoddau Mwynau) a pholisi W1 (Safleoedd ar gyfer Cyfleusterau Rheoli Gwastraff).

Blwch 10.1

Bydd Cyngor Caerdydd yn ceisio gwneud yn siwr bod gweithgarwch rheoli ansawdd aer lleol yn sicrhau'r manteision mwyaf posibl o ran sŵn; yn ystyried mapiau sŵn, ardaloedd â blaenoriaeth, mannau tawel a mannau gwyrdd trefol llonydd eraill pan gynigir datblygiad sy'n sensitif i sŵn neu sy'n cynhyrchu sŵn; ac yn datblygu'r drafft presennol o'r Canllaw i Ddatblygwyr ar Sŵn a Chynllunio ac yn ei fabwysiadu ym mhob rhan o'r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir.

10.4 Cyngor Bro Morgannwg



Darparwyd y wybodaeth yn yr adran hon gan Gyngor Bro Morgannwg.

Blaenoriaethau o ran sŵn a gwasanaethau

10.4.1 Staff o fewn y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir, yn benodol Tîm 2 Gwasanaethau Cymdogaethau, sy'n gyfrifol am ymchwilio i geisiadau am wasanaeth sy'n ymwneud â sŵn ledled Bro Morgannwg a Chaerdydd.

10.4.2 Nid oes unrhyw wasanaeth y tu allan i oriau ffurfiol yn ardal Bro Morgannwg. Fodd bynnag, mae swyddogion yn gwneud gwaith gyda'r nos ac ar y penwythnos yn ôl yr angen. Mae staff a arferai weithio yn ardal Bro Morgannwg yn unig bellach yn gweithio ledled ardaloedd daearyddol Caerdydd a'r Fro ac yn chwarae rhan yng ngwasanaeth sŵn liw nos penodol Cyngor Caerdydd sy'n gweithredu ar nos Wener a nos Sadwrn rhwng 7pm a 3am. Maent yn gwneud y gwaith hwn yn ychwanegol at eu dyletswyddau arferol ac mae'r gwasanaeth yn ymdrin â chwynion ynghylch sŵn yn bennaf.

10.4.3 Yn ogystal â darparu gwasanaeth adweithiol mewn perthynas â chwynion sy'n ymwneud â cherddoriaeth wedi'i seinchwyddo, cŵn sy'n cyfarth, aflonyddwch cyffredinol a larymau ar adeiladau, mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn darparu gwasanaeth rhagweithiol ac ymatebion mewn perthynas â cheisiadau cynllunio er mwyn diogelu amwynder preswyl ac yn cyflwyno sylwadau mewn perthynas â cheisiadau am drwyddedau, gan gynnwys trwyddedau newydd, amrywiadau a hysbysiadau am ddigwyddiadau dros dro, er mwyn cefnogi amcanion Deddf Trwyddedu 2003, gan gynnwys atal niwsans cyhoeddus.

10.4.4 Mae gwaith rhagweithiol sy'n ymwneud â'r gyfundrefn gynllunio, a gyflawnir gan swyddogion o fewn y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, yn cwmpasu cyngor cyn ymgeisio, ymatebion i geisiadau llawn ac amlinellol a chynnig a chyflawni amodau cynllunio. Nod gwaith rhagweithiol o'r fath, ynghyd â phlismona cydsyniadau adran 16 a roddir o dan Ddeddf Rheoli Llygredd 1974 a chyflwyno hysbysiadau adran 60 o dan Ddeddf 1974 a hysbysiadau atal o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, ymhlith pethau eraill, yw hyrwyddo'r nodau llesiant a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae swyddogion yn ystyried pwysigrwydd y nod o greu Cymru iachach, gan nodi'r effaith negyddol y gall sŵn ei chael ar les corfforol a meddyliol. Mae gweithgarwch ymgysylltu swyddogion â gwahanol bartïon yn sicrhau bod gwaith i ddatblygu yn y Fro a gwella seilwaith a chysylltiadau trafnidiaeth, megis gwelliannau i'r 'lôn pum milltir' a'r Ffordd Fynediad Ogleddol mewn perthynas â datblygiad Aston Martin yn Sain Tathan, yn cael ei wneud gan roi sylw dyledus i effeithiau sŵn.

10.4.5 Mae gan swyddogion yn Nhîm 2 y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir gydberthnasau gwaith agos ag asiantaethau partner drwy'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach, sef sefydliad sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Bro Morgannwg, Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tân De Cymru a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, ymhlith eraill. Drwy'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach, mae swyddogion yn helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â sŵn. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys aelod penodedig o staff sy'n mynd i gyfarfodydd rheolaidd, sydd â mynediad at y gronfa ddata ar ymddygiad gwrthgymdeithasol ac sy'n rhoi gwybodaeth a chymorth i bartneriaid yn ôl yr angen. Mae gwaith rhagweithiol ac adweithiol sy'n ymwneud â sŵn hefyd yn cael ei wneud drwy gydgysylltu'n agos a gweithio mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru a Gwasanaethau Trwyddedu a Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau'r Cyngor.

Sŵn awyrennau ym Mro Morgannwg

10.4.6 Mae dau faes awyr ym Mro Morgannwg, sef: maes awyr sifil, Maes Awyr Caerdydd, ger y Rhws, a brynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2013 a safle yn Sain Tathan sy'n eiddo i'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Gyda'i gilydd, maent yn ffurfio Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd Llywodraeth Cymru.

10.4.7 Roedd Maes Awyr Caerdydd, a adeiladwyd yn y 1940au, yn faes awyr milwrol yn wreiddiol a sefydlwyd i ddarparu safle ar gyfer is-erodrom a chanolfan hyfforddi i beilotiaid awyrennau Spitfire yr Awyrlu yn ystod y rhyfel. Mae bellach yn delio â mwy na miliwn o deithwyr y flwyddyn, gyda rhedfa sy'n fwy na dau gilometr o hyd ac un o'r awyrendai cynnal a chadw mwyaf yn y byd. Fodd bynnag, gydag awyrennau yn esgyn ac yn glanio naill ai dros y môr neu dir amaethyddol, mae'r maes awyr yn ceisio sicrhau bod yr effaith y mae'n ei chael ar y gymuned gyfagos o ran sŵn yn fach[82]. Mae'r mapiau cyfuchliniau sŵn sydd ar gael yn ategu'r farn hon.

10.4.8 Dylai defnyddio galluoedd llywio gwell awyrennau modern, dros amser, sicrhau gwasgariad llai ochrol o ehediadau y naill ochr a'r llall i lwybrau hedfan tua'r maes awyr, sy'n golygu y bydd awyrennau yn hedfan dros lai o bobl. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd mwy o awyrennau yn hedfan dros y rhai sy'n union o dan y llwybr hedfan[83]. Prin yw'r cwynion ynghylch sŵn sy'n ymwneud â'r ddau faes awyr ac, os ceir cwynion o'r fath, mae'r ddau faes awyr yn ymateb iddynt mewn ffordd gadarnhaol a chydweithredol.

Sŵn a chynllunio

10.4.9 Ar 28 Mehefin 2017 mabwysiadodd y Cyngor ei CDLl ar gyfer y cyfnod rhwng 2011 a 2026[84]. Daeth y CDLl yn weithredol pan gafodd ei fabwysiadu a disodlodd y Cynllun Datblygu Unedol a oedd wedi'i fabwysiadu'n flaenorol. Mae'r CDLl yn sail i benderfyniadau ynghylch cynllunio defnydd tir ym Mro Morgannwg ac fe'i defnyddir gan y Cyngor i lywio a rheoli cynigion datblygu newydd.

10.4.10 Mae'r CDLl yn rhoi pwyslais ar ailddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen a lleihau'r angen i ddatblygu ar feysydd glas. Mae hyn yn amlwg yn y Barri lle y rhoddir pwyslais mawr ar barhau i adfywio'r Glannau.

---

[82] https://www.maesawyr-caerdydd.com/cyfryngau/

[83] https://www.caa.co.uk/uploadedFiles/CAA/Content/Standard_Content/Commercial_industry/Airspace/Files/Cardiff%20RNAV%20Replications.pdf

[84] http://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Living/Planning/Policy/LDP/LDP-Adoption/Adopted-LDP-Written-Statement-June-2017-final-interactive-web-version.pdf

10.4.11 Serch hynny, mae'r CDLl yn cydnabod, fel y nodir ym mholisi MD2 (Cynllunio Datblygiadau Newydd), er mwyn creu lleoedd iach, cynaliadwy ac unigryw o ansawdd uchel, y dylai cynigion datblygu, ymhlith materion eraill, ddiogelu amwynder cyhoeddus a phreswyl presennol, yn enwedig mewn perthynas â phreifatrwydd, anheddau sy'n edrych dros eiddo arall, diogelwch, sŵn ac aflonyddu. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd y gall gwaith dylunio da gynnig atebion i broblemau megis sŵn.

10.4.12 Mae Polisi MD5 yn argymell na ddylai gwaith datblygu o fewn ffiniau aneddiadau gael unrhyw effaith annerbyniol ar amwynder na chymeriad yr ardal leol o ran sŵn, tagfeydd traffig na pharcio, er mwyn sicrhau amwyder trigolion nawr ac yn y dyfodol.

10.4.13 Ystyrir mater diogelu'r amgylchedd ym Mholisi MD7. Mae'r polisi yn nodi y bydd yn ofynnol i gynigion datblygu ddangos na fyddant yn cael effaith annerbyniol ar bobl, amwynder preswyl, eiddo na'r amgylchedd naturiol a achosir, ymhlith materion eraill, gan sŵn, dirgrynu, niwsans arogleuon neu lygredd golau.

10.4.14 Mae Polisi MG23 (Parthau Clustogi Chwarel) a Pholisi MG25 (Gweithio Mwynau), sy'n cynnwys echdynnu olew a nwy, yn rhoi ystyriaeth benodol i sŵn, gan y cydnabyddir bod gweithredu gweithiau mwynau yn aml yn gwrthdaro â defnyddiau tir eraill ac yn cael effeithiau megis sŵn, llwch, dirgrynu ac effeithiau ar ansawdd aer a all gael gryn effaith ar amwynder trigolion lleol a chymunedau lleol, na fyddai'n dderbyniol.

10.4.15 Mae'r awdurdod cynllunio lleol yn defnyddio TAN 11 mewn perthynas â datblygiadau preswyl arfaethedig ger ffynonellau sŵn, gan fod prif lwybrau trafnidiaeth (ffordd, rheilffordd ac awyr) a rhai gweithgareddau diwydiannol a masnachol yn gallu creu lefelau arbennig o uchel o sŵn. Mae'r CDLl, er enghraifft, yn cydnabod y dylid rhoi ystyriaeth benodol i safleoedd penodol mewn perthynas â sŵn. Mae Higher End yn Sain Tathan yn safle o'r fath. Gan fod y safle mor agos at Safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan a'r Parc Busnes Awyrofod/Ardal Fenter, nodir yn y CDLl y bydd yn ofynnol cynnal asesiad sŵn ar gyfer unrhyw gynigion datblygu yn y dyfodol.

10.4.16 Heb ystyried dyraniadau safle-benodol, mae swyddogion hefyd yn cydnabod, pe bai datblygiadau newydd angenrheidiol yn creu lefelau uchel o sŵn, gan gynnwys sŵn o gynlluniau trafnidiaeth arfaethedig, y dylid eu lleoli a'u cynllunio er mwyn lleihau eu heffaith o ran sŵn. Felly, lle y bo angen, bydd yn ofynnol i ddatblygwyr ddarparu asesiad o'r effaith o ran sŵn, ynghyd â mesurau lliniaru. Mae swyddogion o fewn y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn gofyn am asesiadau o'r fath ac yn craffu arnynt yn rheolaidd.

10.4.17 Mae swyddogion cynllunio yn gweithio'n agos gyda swyddogion y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ac yn cydnabod y gall penderfyniadau gael eu llywio gan dystiolaeth sy'n ymwneud â chwynion ynghylch sŵn, yn ogystal â gwybodaeth acwstig swyddogion y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir. Mae hyn yn ei gwneud yn llai tebygol y ceir niwsans sŵn ac, yn ei dro, yn diogelu amwynder preswyl.

10.4.18 Wrth ymateb i geisiadau cynllunio, mae swyddogion y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn ystyried dyletswyddau statudol Llywodraeth Cymru o dan y Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol a'r ardaloedd blaenoriaeth cynlluniau gweithredu ynghylch sŵn dynodedig ym Mro Morgannwg. Mae swyddogion hefyd yn rhoi sylw penodol i dderbynyddion sy'n sensitif i sŵn megis tai, ysgolion ac ysbytai, gan nodi y gall sŵn gael effaith niweidiol ar iechyd a llesiant pobl yn ogystal â'r dirwedd a natur.

10.4.19 Mae swyddogion o fewn y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a'r adran gynllunio yn cydnabod mai cymryd camau rhagweithiol i liniaru sŵn yw'r dull mwyaf buddiol a chosteffeithiol o ymdrin â sŵn. Mae swyddogion yn dadlau y gall ymyriadau rhagweithiol sicrhau manteision lluosog, megis lleihau amlygiad pobl i sŵn a llygryddion aer.

10.4.20 Y ffordd orau o fynd i'r afael â sŵn o ffynonellau diwydiannol presennol sy'n effeithio ar ddatblygiadau sy'n sensitif i sŵn yw drwy gymryd camau rhagweithiol drwy'r CDLl, mynnu gwaith dylunio da a, lle y bo'n briodol, osod amodau ar y cam cynllunio yn hytrach nag ar ôl i'r gwaith adeiladu ddechrau neu gael ei gwblhau. Mae swyddogion y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a'r adran gynllunio yn ymgynghori â rheoleiddwyr a gweithredwyr safleoedd yn ôl yr angen. Ystyrir ffynonellau sŵn diwydiannol llai a mwy lleol hefyd.

Blwch 10.2

Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn ystyried mapiau sŵn, ardaloedd â blaenoriaeth, mannau tawel a mannau gwyrdd trefol llonydd eraill pan gynigir datblygiad sy'n sensitif i sŵn neu sy'n creu sŵn, ac yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill ac asiantaethau allanol er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol

10.5 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr



Darparwyd y wybodaeth yn yr adran hon gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a leolir rhwng crynodrefi Caerdydd a Phenarth ac Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Blaenoriaethau o ran sŵn a gwasanaethau

10.5.1 Ymchwilir i geisiadau am wasanaeth a chyngor sy'n ymwneud â sŵn a gyflwynir i CBS Pen-y-bont ar Ogwr gan dîm Gwasanaethau Cymdogaethau'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir. Mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn wasanaeth cydweithredol arloesol a ffurfiwyd rhwng Cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg ar 1 Mai 2015. Mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn darparu gwasanaeth integredig llawn o dan un strwythur rheoli ar gyfer safonau masnach, iechyd yr amgylchedd a swyddogaethau trwyddedu gyda threfniadau llywodraethu a rennir yn sicrhau cyfranogiad llawn yr Aelodau etholedig.

10.5.2 Mae'r tîm Gwasanaethau Cymdogaethau sy'n gwasanaethu ardal CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn ymchwilio i geisiadau am wasanaeth sy'n ymwneud â sŵn gan gynnwys sŵn domestig, masnachol a diwydiannol a sŵn o safleoedd adeiladu. Mae swyddogion yn defnyddio pwerau statudol a chamau anffurfiol i ymchwilio i'r rhain a'u datrys. Cŵn yn cyfarth a sŵn mewn cymdogaethau yw'r prif resymau dros gwyno. Gweithredir gwasanaeth y tu allan i oriau ar ran CBS Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn ymchwilio i gwynion parhaus lle mae'r sŵn yn digwydd y tu allan i oriau swyddfa, a defnyddir cyfarpar monitro sŵn i asesu'r sŵn. Mae'r gwasanaeth y tu allan i oriau mewn perthynas â sŵn yn gweithredu o nos Wener i fore dydd Llun pan fydd tîm o ddau swyddog yn adweithio i gwynion parhaus ynghylch sŵn, sydd ar restr a ragaseswyd, neu gategorïau penodol o gwynion ynghylch sŵn megis larymau ceir neu larymau diogelwch.

10.5.3 Yn ogystal ag ymchwilio i gwynion ynghylch sŵn a rhoi cyngor, mae gwaith rhagweithiol i leihau aflonyddwch a achosir gan sŵn a dirgrynu yn cael ei wneud drwy'r cyfundrefnau cynllunio a thrwyddedu. Mae hyn yn cynnig cyfle i swyddogion, sy'n gweithredu yn eu rôl fel ymgyngoreion, graffu ar geisiadau a'r wybodaeth a ddarperir i ategu ceisiadau, gan gynnwys adroddiadau ar sŵn, a ddefnyddir wedyn i nodi lefelau sŵn presennol a disgwyliedig ac asesu eu heffeithiau. Mae swyddogion yn aml yn argymell atodi amodau cynllunio a thrwyddedu er mwyn rheoli effeithiau sŵn o ddatblygiadau neu safleoedd trwyddedig. Rheolir sŵn a dirgrynu ar safleoedd mwynau yn bennaf drwy ddefnyddio amodau cynllunio penodol a adolygir o bryd i'w gilydd. Ar gyfer prosiectau mawr, fel arfer mae angen cynllunio rheoli gwaith adeiladu, sy'n cynnwys mesurau i reoli sŵn a dirgrynu.

Sŵn a chynllunio

10.5.4 Mabwysiadodd CBS Pen-y-bont ar Ogwr ei CDLl[85] ar 18 Medi 2013. Ei weledigaeth o ran defnydd tir a nodir yn y CDLl yw y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, erbyn 2021, wedi'i drawsnewid yn rhwydwaith cynaliadwy, diogel, iach a chynhwysol o gymunedau sy'n cynnwys aneddiadau cryf, rhyngddibynnol a chysylltiedig a all gynnig cyfleoedd a gwell ansawdd bywyd ac amgylchedd i bawb sy'n byw, yn gweithio ac yn ymlacio yn yr ardal ac yn ymweld â hi. Mae'r cynllun yn seiliedig ar bedwar amcan â thema fel a ganlyn, gyda phob un yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau:

- Creu lleoedd cynaliadwy o ansawdd uchel;
- Diogelu a gwella'r amgylchedd;

[85] https://www.bridgend.gov.uk/media/2948/written-statement.pdf

- Lledaenu ffyniant a chyfleoedd drwy weithgarwch adfywio;

- Creu cymunedau diogel, iach a chynhwysol.

10.5.5 Mae hefyd yn nodi tir ar gyfer mathau gwahanol o ddatblygiad gan gynnwys tai (gan arwain at angen a nodwyd i ddarparu 9,690 o anheddau newydd dros gyfnod y cynllun, sef 2006-2021), cyflogaeth a manwerthu, yn ogystal â nodi tir a warchodir ac ardaloedd yng nghefn gwlad. Lleolir y rhan fwyaf o waith datblygu newydd mewn pedair ardal adfywio strategol. Mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn ystyried mater cynllunio cam gweithredu i fynd i'r afael â sŵn wrth benderfynu pa effaith a gaiff datblygiad o ran sŵn.

10.5.6 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i BGCau lunio cynllun llesiant lleol ac mae cynllun llesiant lleol Pen-y-bont ar Ogwr wrthi'n cael ei gwblhau ar hyn o bryd. Bydd y cynllun hwn yn ystyried llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ehangach y Sir.

10.5.7 Caiff Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r cynllun llesiant lleol eu hystyried yn llawn drwy gydol y broses o baratoi'r CDLl diwygiedig a dilynir y pum ffordd o weithio. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw waith datblygu yn ymwneud â'r nodau llesiant a'r blaenoriaethau a nodir yng nghynllun llesiant lleol BGC Pen-y-bont ar Ogwr o ran defnydd tir.

10.5.8 Ymdrinnir â cheisiadau cynllunio yn unol â pholisi cenedlaethol a lleol sy'n ymwneud â sŵn. Crynhoir isod bolisïau CDLlau sy'n ymwneud â sŵn a materion cysylltiedig ac a gymhwysir wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio:

Polisi SP3: Egwyddorion Cynllunio Trafnidiaeth Strategol

Dylai pob cynnig datblygu hyrwyddo mathau diogel, cynaliadwy ac iach o drafnidiaeth drwy waith dylunio da, gwell darpariaeth o ran cerdded a beicio a gwell darpariaeth o ran trafnidiaeth gyhoeddus. Er mwyn ategu hyn, mae polisi PLA7 yn diogelu ac yn dosbarthu'r gwelliannau trafnidiaeth strategol a fydd yn cynnig cyfleoedd i leihau tagfeydd a darparu gwell cyfleusterau ar gyfer cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, gan ei gwneud yn bosibl i le ar ffyrdd gael ei ailddosbarthu'n briodol er mwyn sicrhau dulliau teithio mwy cynaliadwy yn y Fwrdeistref Sirol a bydd yn helpu i leihau amlygiad i sŵn sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth. Mae nifer o gynlluniau o bwysigrwydd lleol wedi'u nodi yn y cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys darparu rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio penodol o ansawdd uchel a fydd yn hyrwyddo cynaliadwyedd ac yn annog pobl i fabwysiadu ffyrdd iachach o fyw a gwneud mwy o weithgarwch corfforol.

Polisi ENV7: Diogelu Adnoddau Naturiol ac Iechyd y Cyhoedd

Ni chaniateir cynigion datblygu oni ellir dangos na fyddent yn peri risg annerbyniol newydd o niwed i iechyd, bioamrywiaeth a/neu amwynder lleol, nac yn gwaethygu risg sy'n bodoli eisoes, oherwydd y canlynol:

- Llygredd aer;
- Llygredd sŵn;
- Llygredd golau;
- Halogiad (gan gynnwys rhywogaethau ymledol);
- Ansefydlogrwydd tir;
- Llygredd dŵr (gan gynnwys dŵr daear); neu
- Unrhyw risg arall a nodwyd i iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch.

10.5.9 Bydd angen i waith datblygu mewn ardaloedd lle mae'r mathau o lygredd a phroblemau a nodir uchod eisoes i'w cael ddangos mesurau lliniaru er mwyn lleihau'r risg o niwed i iechyd y cyhoedd, bioamrywiaeth a/neu amwynder lleol i lefel dderbyniol. Gall gwahanol fathau o lygredd achosi niwed sylweddol i iechyd pobl, bioamrywiaeth, ansawdd bywyd ac amwynder preswyl, yn ogystal â chael effaith ar yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig.

10.5.10 Mae Polisi ENV7 yn sicrhau bod datblygiadau a fyddai'n arwain at lefelau annerbyniol o uchel o lygredd sŵn, golau neu aer yn cael eu lleoli i ffwrdd oddi wrth ardaloedd preswyl a defnyddwyr sensitif eraill. Bydd y polisi hefyd yn sicrhau na chaiff cynigion datblygu eu lleoli yn agos at ffynonellau presennol o lygredd, gan gynnwys sŵn, nad aethpwyd i'r afael â nhw yn flaenorol.

10.5.11 Mae'r polisïau canlynol yn helpu i ddiogelu cefn gwlad, tirwedd, bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a nodi ardaloedd diogelu'r amgylchedd gan gynnwys lletemau glas, Ardaloedd Tirwedd Arbennig a gwarchodfeydd natur lleol:

Polisi ENV3: Ardaloedd Tirwedd Arbennig

Dim ond os bydd yn cadw neu'n gwella cymeriad a natur unigryw'r ardal a bod y datblygiad arfaethedig yn cael ei ategu gan asesiad tirwedd sy'n ystyried effaith y datblygiad ac sy'n nodi cynigion i liniaru unrhyw effeithiau andwyol y caniateir Gwaith Datblygu mewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig.

Polisi ENV4: Safleoedd Cadwraeth Natur Lleol/Rhanbarthol

Ni chaniateir datblygiad a fyddai'n amharu ar unrhyw Warchodfa Natur Leol, Safle sy'n Bwysig oherwydd Cadwraeth Natur neu Safle Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol oni ellir dangos bod y manteision sy'n gysylltiedig â'r datblygiad yn drech na'r niwed a/neu y gellir lleihau neu ddileu'r niwed drwy ddefnyddio mesurau lliniaru a/neu wrthbwyso priodol.

Polisi ENV5: Seilwaith Gwyrdd

Darperir seilwaith gwyrdd drwy ddiogelu a gwella asedau naturiol sy'n bodoli eisoes a chreu mannau gwyrdd amlswyddogaeth newydd. Bydd coridorau seilwaith gwyrdd yn cysylltu treftadaeth naturiol, mannau gwyrdd, bioamrywiaeth a buddiannau amgylcheddol eraill. Cânt eu diogelu drwy gymryd y camau canlynol:

- Peidio â chaniatáu gwaith datblygu sy'n amharu ar eu cyfanrwydd ac, felly, gyfanrwydd y fframwaith seilwaith gwyrdd yn gyffredinol;

- Defnyddio cyfraniadau datblygwyr i hwyluso'r gwaith o wella eu hansawdd a'u cadernid;

- Buddsoddi mewn gweithgarwch rheoli, gwella ac adfer priodol a'r gwaith o greu adnoddau newydd.

10.5.12 Mae'r ardaloedd canlynol wedi'u nodi'n benodol o dan bolisïau ENV3-5 er mwyn diogelu ardaloedd o lonyddwch ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Fodd bynnag, mae llawer o ardaloedd llonydd ledled y Fwrdeistref ar ffurf parciau a gerddi, mannau gwyrdd amwynder, mannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol a choridorau gwyrdd:

ENV3/2	Foel y Dyffryn
ENV3/4	Parc Gwledig Bryngarw
ENV3/5	Mynydd-y-Gaer
ENV3/6	Twyni Cynffig
ENV3/9	Twyni Merthyr Mawr
SP4/3	Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol Cynffig a Merthyr Mawr

10.5.13 Ymdrinnir â sŵn o ffynonellau sy'n bodoli eisoes a all effeithio ar ddatblygiadau newydd sy'n sensitif i sŵn drwy osod amodau priodol ar y cam cynllunio. Mae ymgynghori â datblygwyr a chynllunwyr yn allweddol i'r broses hon a bydd y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn parhau i gyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio ac argymell amodau, lle y bo'n briodol, er mwyn rheoli effeithiau sŵn. Lle y bo angen, bydd yn ofynnol i ddatblygwyr ddarparu asesiad o effaith sŵn, ynghyd â chynigion ar gyfer ei lliniaru.

Blwch 10.3

Bydd CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn ceisio sicrhau bod gwaith gwella priffyrdd a gweithgarwch rheoli ansawdd aer lleol yn dod â'r manteision mwyaf posibl o ran lleihau sŵn; ac yn ystyried mapiau sŵn, ardaloedd â blaenoriaeth a mannau gwyrdd trefol llonydd pan gynigir datblygiadau sy'n sensitif i sŵn neu sy'n creu sŵn.

10.6 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful



Darparwyd y wybodaeth yn yr adran hon gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, a leolir i'r gogledd o grynodref Caerdydd a Phenarth.

Blaenoriaethau o ran sŵn a gwasanaethau

10.6.1 Mae gan Gyngor Merthyr Tydfil dîm o dri swyddog, sy'n cyflawni'r un dyletswyddau o ran tai a diogelu'r amgylchedd ond sy'n chwarae rôl arweiniol mewn arbenigeddau penodol.

10.6.2 Mae ymchwilio i gwynion gan y cyhoedd ynghylch sŵn domestig, masnachol a diwydiannol yn elfen sylweddol o weithgarwch diogelu'r amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys delio â phroblemau sy'n amrywio o gŵn yn cyfarth, gwaith DIY, chwarae cerddoriaeth, llwytho a dadlwytho cerbydau dosbarthu a sŵn o beiriannau a pheirianwaith trwm.

10.6.3 Fel arfer, nid yw'r Cyngor yn darparu gwasanaeth ymatebol y tu allan i oriau ond bydd yn gwneud hynny pan fydd cwyn wedi'i hasesu ac yr ystyrir bod angen cynnal ymweliad ymatebol y tu allan i oriau er mwyn ymchwilio'n iawn i'r mater. Trefnir hyn drwy wasanaeth ‘Lifeline’ yr awdurdod, sydd hefyd yn cofnodi cwynion eraill a geir y tu allan i oriau swyddfa arferol ac yn eu cyfeirio at swyddogion er mwyn iddynt ymchwilio iddynt ar y diwrnod gwaith nesaf.

10.6.4 Bydd swyddogion yn trefnu ymweliadau wedi'u rhaglennu y tu allan i oriau os ymddengys fod modd rhagweld achosion o niwsans sŵn ac yr ystyrir bod angen i swyddog fod yn bresennol. Yn ymarferol, anaml y mae angen cynnal ymweliadau o'r fath gan fod gan y Cyngor ddwy system cofnodi sŵn 'Matron', sy'n ddigonol i gasglu tystiolaeth ar gyfer bron pob achos o niwsans sŵn y tu allan i oriau.

10.6.5 Lle y ceir achosion o niwsans statudol, cyflwynir hysbysiadau atal a gweithredir arnynt ond efallai y rhoddir cyngor a chymorth anffurfiol hefyd pe gallai fod yn fuddiol. Gallai hyn ddigwydd os gellir rheoli'r sŵn yn hawdd, megis drwy osod padiau clustogi er mwyn lleihau effaith sŵn a achosir gan ddrysau yn cau, ond mae'n werthfawr yn bennaf mewn achosion lle y gall fod gan yr achwynydd hyperacwsis, tinitws neu gyflyrau tebyg. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd cyngor ar sain-gyflyru, rhaglennu niwro-ieithyddol a mesurau tebyg yn lleddfu gofid sylweddol. Os nodir bod sŵn i'w briodoli i achos o dorri amod cynllunio, trosglwyddir y dystiolaeth i'r gwasanaeth cynllunio er mwyn iddo ymchwilio i'r mater ymhellach. Mae trefniadau tebyg ar waith gyda'r heddlu.

Sŵn a chynllunio

10.6.6 Yn ogystal â gwasanaethau ymatebol, mae'r cyngor yn mynd ati'n rhagweithiol i reoli sŵn. Fel arfer mae hyn yn digwydd pan geir ceisiadau cynllunio, drwy roi cyngor anffurfiol i ddatblygwyr ac argymell amodau cynllunio. Caiff mesurau eu llunio er mwyn diogelu trigolion a mannau tawel rhag gweithgareddau swnllyd arfaethedig ond byddant hefyd yn diogelu trigolion datblygiadau tai arfaethedig, er enghraifft, pan fyddant yn cael eu cyflwyno i amgylcheddau swnllyd sy'n bodoli eisoes. Os bydd y cynnig yn arwain at amlygiad i lefelau afresymol o sŵn, fe'i gwrthwynebir. Caiff y dull hwn ei gymhwyso at brosiectau seilwaith mwy o faint, megis y rhai lle y cynigir newidiadau i brif ffyrdd, lle y bydd cydgysylltu ag awdurdodau eraill yn helpu i leihau amlygiad i lygryddion sŵn ac aer.

Blwch 10.4

Yn gynyddol, mae CBS Merthyr Tudful wedi bod yn ymestyn egwyddorion diogelu rhag sŵn a diogelu ansawdd aer i feysydd polisi eraill megis maes polisi seilwaith gwyrdd, sy'n broses sy'n mynd rhagddi'n llawer cynt yn sgil pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Wrth wneud hynny, mae'r Cyngor symud ymhellach i ffwrdd o'r sefyllfa hanesyddol lle y byddai'n canolbwyntio'n bennaf ar atal dirywiad mewn sŵn amgylcheddol ac ansawdd aer i sefyllfa lle y bydd newidiadau cadarnhaol yn hyrwyddo gwelliant datblygol o ran iechyd a lles trigolion ac ymwelwyr â'r ardal.

10.7 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf



Darparwyd y wybodaeth yn yr adran hon gan CBS Rhondda Cynon Taf, a leolir rhwng Crynodrefi Caerdydd a Phenarth ac Abertawe a Castell-nedd Port Talbot.

Blaenoriaethau o ran sŵn a gwasanaethau

10.7.1 Mae'r tîm Llygredd ac Iechyd y Cyhoedd yn CBS Rhondda Cynon Taf yn ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd ac iechyd y cyhoedd gan gynnwys ymchwilio i gwynion ynghylch niwsans sŵn. Ym mlwyddyn ariannol 2017/18, cafodd 1,070 o gwynion ynghylch sŵn domestig a 155 o gwynion ynghylch sŵn diwydiannol/masnachol a sŵn a oedd yn gysylltiedig â cherbydau. Prif achos cwynion ynghylch sŵn domestig oedd cŵn yn cyfarth, wedi'i ddilyn gan gerddoriaeth wedi'i seinchwyddo uchel/sŵn uchel o setiau teledu.

10.7.2 Ers mis Gorffennaf 2017, mae CBS Rhondda Cynon Taf wedi defnyddio'r 'Ap Sŵn' er mwyn helpu i ymdrin â chwynion ynghylch niwsans sŵn, gydag achwynwyr yn cael y cyfle i gofnodi a chyflwyno'r sŵn honedig gan ddefnyddio ap ffôn symudol. Mae'r Ap Sŵn yn cael ei ddefnyddio fel dewis amgen i'r dull traddodiadol o gasglu tystiolaeth gan ddefnyddio taflen ar ffurf dyddiadur. Mae hefyd yn galluogi swyddogion i wrando ar y sŵn sy'n destun y gŵyn a defnyddio'r dystiolaeth hon i geisio datrys problemau yn gyflymach. Mae'r Ap Sŵn yn cael ei ddefnyddio gan swyddogion ym mhob rhan o'r adran, gan gynnwys mewn perthynas â niwsans sy'n gysylltiedig â safleoedd trwyddedig a chwynion ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Sŵn a chynllunio

10.7.3 Mae'r tîm Llygredd ac Iechyd y Cyhoedd yn gweithredu fel ymgynghorai o dan ddeddfwriaeth cynllunio a thrwyddedu, lle y rhoddir cyngor ac y gofynnir am amodau pan fo'u hangen i liniaru effaith sŵn mewn perthynas â datblygiad newydd neu safle trwyddedig. Roedd y rôl hon fel ymgynghorai yn cynnwys rhoi cyngor ar lunio polisi priodol yn y CDLl[86], er mwyn atal unrhyw ddatblygiadau a fyddai'n peri risgiau annerbyniol oherwydd llygredd sŵn. Arweiniodd hyn at gynnwys polisi AW10 (Diogelu'r Amgylchedd ac Iechyd y Cyhoedd) yn CDLl 2011-2021, sy'n darllen fel a ganlyn:

Ni chaniateir cynigion datblygu pan fyddent yn peri risg o niwed annerbyniol i iechyd a/neu amwynder lleol, neu'n arwain at risg o'r fath, oherwydd y canlynol:

- Llygredd aer;
- Llygredd sŵn;
- Llygredd golau;
- Halogiad;
- Nwy o safleoedd tirlenwi;
- Ansefydlogrwydd tir;
- Llygredd dŵr;
- Llifogydd; neu

[86] https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/PlanningandBuildingControl/LocalDevelopmentPlans/RelateddocumentsLDP20062021/AdoptedLocalDevelopmentPlan.pdf

- Unrhyw risg arall a nodwyd i'r amgylchedd, amwynder lleol ac iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd

oni ellir dangos y gellir cymryd camau i oresgyn unrhyw risg andwyol sylweddol i iechyd y cyhoedd neu'r amgylchedd neu unrhyw risg sy'n gysylltiedig â'r effaith ar amwynder lleol.

10.7.4 Nid oes unrhyw wasanaeth sŵn y tu allan i oriau penodol, ond mae CBS Rhondda Cynon Taf yn darparu gwasanaethau swyddog brys y tu allan i oriau er mwyn ymdrin â niwsans sŵn os bydd hysbysiad atal mewn grym. Mae'r swyddogion hefyd yn gweithio oriau hyblyg ac yn defnyddio cyfarpar monitro sŵn, sy'n eu helpu i gasglu tystiolaeth o niwsans sŵn sy'n codi y tu allan i oriau swyddfa.

Blwch 10.5

Mae gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu bodloni wrth weithio gydag adrannau eraill yn y Cyngor a sefydliadau allanol er mwyn sicrhau bod camau gweithredu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy. Ar hyn o bryd, mae'r tîm Llygredd ac Iechyd y Cyhoedd yn gweithio ochr yn ochr â'r Adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth, Gwasanaethau Cynllunio, yr Adran Addysg, a'r Adran Parciau a Chefn Gwlad i geisio sicrhau gwelliannau o ran sŵn ac ansawdd aer drwy wneud defnydd priodol o fesurau rheoli traffig, llwybrau teithio llesol a seilwaith gwyrdd yn Rhondda Cynon Taf.

11 Crynodref Casnewydd



(h) Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2012. Arolwg Ordnans 100021874. Llywodraeth Cymru.

11.1 Yr hyn y mae'r mapiau sŵn yn ei ddweud wrthym

11.1.1 Cynyddodd poblogaeth breswyl crynodref Casnewydd o 148,500 i 150,100 rhwng ymarferion mapio sŵn 2012 a 2017.

11.1.2 Amcangyfrifwyd amlygiad y boblogaeth breswyl i sŵn o brif ffyrdd a diwydiant ar sail mapiau sŵn 2017. Amcangyfrifwyd amlygiad y boblogaeth breswyl i sŵn o bob ffordd yn y grynodref, ac o reilffyrdd, ar sail mapiau sŵn 2012, gan ddefnyddio fersiwn wedi'i diweddaru o fodel poblogaeth breswyl 2017. Yr eithriad i'r rheol hon yw lle mae'n rhoi ffigur uwch ar gyfer prif ffyrdd nag ar gyfer pob ffordd. Yn yr achos hwn, defnyddir y ffigur uwch ar gyfer prif ffyrdd, sydd wedi'i farcio â seren yn Nhabl 11.2.

Tabl 11.1 Amlygiad y boblogaeth breswyl gan ddefnyddio dangosydd sŵn dydd-hwyr-nos L_{den}, yn seiliedig ar fapiau sŵn a model poblogaeth 2017

Ffynhonnell sŵn	Nifer y bobl y mae eu cartrefi wedi'u hamlygu i'r lefelau sŵn hyn				
	55-59 dB	60-64 dB	65-69 dB	70-74 dB	> 75 dB
Prif ffyrdd	32,100	13,900	5,100	2,700	1,100
Pob ffordd	40,000	21,000	13,600	3,900	1,100
Prif reilffyrdd	3,200	1,800	800	1,000	500
Pob rheilffordd	4,900	2,500	1,000	1,100	500
Diwydiant	800	200	100	0	0

Tabl 11.2 Amlygiad y boblogaeth breswyl gan ddefnyddio dangosydd sŵn nos L_{night}, yn seiliedig ar fapiau sŵn a model poblogaeth 2017

Ffynhonnell sŵn	Nifer y bobl y mae eu cartrefi wedi'u hamlygu i'r lefelau sŵn hyn				
	50-54 dB	55-59 dB	60-64 dB	65-69 dB	> 70 dB
Prif ffyrdd	22,700	8,600	3,400	1,300	600
Pob ffordd	29,200	17,100	5,800	1,300*	600
Prif reilffyrdd	2,900	1,300	800	1,100	200
Pob rheilffordd	4,000	1,500	1,000	1,100	200
Diwydiant	500	200	0	0	0

11.2 Mannau tawel

11.2.1Mae 18 o fannau tawel dynodedig yn y grynodref hon. Mae'r rhai sydd wedi ennill Gwobrau'r Faner Werdd wedi'u marcio â seren.

1 – Maes Chwaraeon Pill
2 – Maes Chwaraeon Llyswyry
3 – Parc Belle Vue*
4 – Parc Heol Oliver
5 – Parc Lysaghts
6 – Parc Heol Clifton
7 – Parc Coed Melyn a Bassaleg
8 – Chapel Park
9 – Parc Heol Aberddawan (a elwir yn 'Lliswerry Pond Field' yn lleol)
10 – Parc Ladyhill
11 – Coed Allt-yr-yn Wood
12 – Ringland Top
13 – Cefn Wood
14 – Parc Woodland
15 – Parc Beechwood
16 – Meysydd Chwarae Parc Shaftesbury
17 – Parc St Julians
18 – Meysydd Chwarae Tŷ-Coed



(h) Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2012. Arolwg Ordnans 100021874. Llywodraeth Cymru.

11.3 Cyngor Dinas Casnewydd

Darparwyd y wybodaeth yn yr adran hon gan Gyngor Dinas Casnewydd.

Blaenoriaethau o ran sŵn a gwasanaethau

11.3.1 Mae tîm Sŵn a Chymdogaeth Cyngor Dinas Casnewydd yn gyfrifol am ymchwilio i geisiadau am wasanaeth mewn perthynas â llygredd sŵn, niwsans sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â sŵn. Mae'r tîm yn cynnwys swyddogion iechyd yr amgylchedd a rheoli llygredd, wardeiniaid diogelwch cymunedol a swyddogion cyswllt ymddygiad gwrthgymdeithasol.

11.3.2 Mae wardeiniaid diogelwch cymunedol yn ymateb i geisiadau cychwynnol am wasanaeth mewn perthynas â sŵn rhwng 3 pm a hanner nos, saith diwrnod yr wythnos. Bydd wardeiniaid diogelwch cymunedol yn ymweld â'r sawl sy'n gyfrifol am y sŵn i drafod y gŵyn er mwyn ceisio datrys y broblem yn gynnar mewn modd effeithlon. Os bydd ceisiadau am wasanaeth yn parhau i gael eu gwneud, bydd swyddogion iechyd yr amgylchedd a rheoli llygredd yn cymryd rhan er mwyn cymryd camau mwy ffurfiol o dan ddeddfwriaeth berthnasol. Mae swyddogion cyswllt ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gweithio'n agos gyda swyddogion yn y tîm a phartneriaid eraill er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â sŵn.

11.3.3 Yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18, cafodd Cyngor Dinas Casnewydd fwy na 2,300 o geisiadau am wasanaeth a oedd yn ymwneud â sŵn o ffynonellau masnachol, domestig a diwydiannol. Achos mwyaf cyffredin y cwynion a gafwyd yn ystod y cyfnod hwn oedd sŵn o gerddoriaeth wedi'i seinchwyddo uchel. Hefyd, mae galw mawr am y gwasanaeth i fynd i'r afael â ffynonellau eraill o sŵn megis cŵn yn cyfarth a gwaith adeiladu/DIY.

11.3.4 O ran ceisiadau am wasanaeth, mae'r gwasanaeth yn un adweithiol ei natur. Fodd bynnag, gwneir gwaith rhagweithiol i sicrhau bod sŵn a dirgrynu yn tarfu lleied â phosibl ar bobl drwy'r broses gynllunio, cyfundrefnau trwyddedu a chaniatadau o dan Adran 61.

11.3.5 Fel ymgynghorai, mae'r tîm yn cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio a cheisiadau am drwyddedau. Mae hyn yn cynnig cyfle i graffu ar wybodaeth a gyflwynir gyda phob cais. Bydd swyddog yn asesu effaith datblygiadau newydd yn ogystal ag argymell amodau y dylid eu hychwanegu at ganiatadau er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Mae amodau ac argymhellion yn ystyried yr hinsawdd bresennol o ran sŵn ac yn diogelu amwynder trigolion nawr ac yn y dyfodol. Mae'r broses hefyd yn cynnig cyfle i swyddogion fynnu bod arolygon sŵn a dirgrynu safle-benodol yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau na fydd unrhyw newidiadau mewn ardal yn tarfu ar bobl nac yn peri niwsans sŵn statudol.

11.3.6 Rhoddir ystyriaeth arbennig i ddatblygiadau lle yr ystyrir diogelu cymunedau rhag sŵn sy'n deillio o drafnidiaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar lefelau sŵn mewnol derbyniol. Bydd swyddogion hefyd yn sicrhau y bodlonir gofynion mewn perthynas â safonau megis Safon Brydeinig 8223 a Safon Brydeinig 4142, asesiadau TAN 11 a'r dull o gyfrifo sŵn traffig ffordd.

11.3.7 O dan Adran 61 o Ddeddf Rheoli Llygredd 1974, gall datblygwr wneud cais i'r tîm am ganiatâd ymlaen llaw i wneud gwaith adeiladu a dymchwel. Fel rhan o'r broses hon bydd y tîm yn cydgysylltu â'r ymgeisydd cyn i weithgareddau sy'n creu sŵn ddechrau er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o aflonyddu ar drigolion tra bydd gwaith 'swnllyd' hanfodol yn mynd rhagddo.

11.3.8 Mae gan y tîm gydberthynas waith agos ag asiantaethau partner eraill er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â niwsans sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae wedi creu cysylltiadau gwaith agos â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn sicrhau bod tenantiaid yn cydymffurfio ag amodau yn eu cytundebau tenantiaeth.

Sŵn a chynllunio

11.3.9 Ar 27 Ionawr 2015, cafodd CDLl newydd[87], sy'n disodli'r Cynllun Datblygu Unedol, ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor.

[87] http://www.newport.gov.uk/documents/Planning-Documents/LDP-2011-2026/LDP-Adopted-Plan-January-2015.pdf

11.3.10 Yn unol â PCC, mae'r CDLl Adneuo diwygiedig yn nodi polisïau manwl sy'n darparu ar gyfer asesu effeithiau sŵn ar yr amgylchedd lleol ac amwynder preswyl ac yn ceisio sicrhau na fydd cynigion datblygu yn arwain at lefelau annerbyniol o sŵn o ystyried y defnydd a wneir o dir yn yr ardal o'u hamgylch. Bydd y cynllun gweithredu ynghylch sŵn yn darparu gwybodaeth ategol ar gyfer asesu effaith datblygiadau arfaethedig ar fannau tawel a nodwyd.

11.3.11 Mae'r CDLl hefyd yn diogelu mannau amgylcheddol, sy'n fannau amwynder agored a nodwyd am nifer o resymau gan gynnwys bioamrywiaeth, hamdden ac amwynder. Gall mannau tawel a nodwyd orgyffwrdd â mannau amgylcheddol a neilltuwyd a rhoi lefel ychwanegol o ddiogelwch i'r ardaloedd.

11.3.12 Yn unol â PCC, Nodiadau Cyngor Technegol perthnasol a pholisïau yn CDLl mabwysiedig Casnewydd, ystyrir effaith sŵn wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mewn ymgynghoriad ag adran iechyd yr amgylchedd Casnewydd a, lle y bo'n berthnasol, CNC, asesir addasrwydd lefelau sŵn sy'n deillio o ddatblygiadau arfaethedig o ystyried y defnydd a wneir o dir o'u hamgylch gan ddefnyddio methodoleg gymeradwy. Os ystyrir eu bod yn briodol, gofynnir am fesurau lliniaru sŵn ac fe'u sicrheir drwy ddefnyddio amodau cynllunio. Os na ellir lliniaru sŵn ac ystyrir bod lefelau sŵn yn annerbyniol, gwrthodir rhoi caniatâd cynllunio.

Mannau tawel ac ardaloedd â blaenoriaeth

11.3.13 Cynigiwyd darpar fannau tawel yng Nghasnewydd drwy nodi mannau gwyrdd agored a mannau hamdden addas o fewn ffin y grynodref. Ymgynghorwyd ag Aelodau Etholedig Lleol er mwyn nodi mannau y mae cymunedau lleol yn rhoi gwerth arnynt. Aseswyd addasrwydd enwebiadau yn erbyn meini prawf llonyddwch, faint o ddefnydd a wneir o'r mannau a chyfleusterau ar gyfer defnydd cymunedol a defnydd at ddibenion hamdden ynghyd â bioamrywiaeth hanesyddol a botanegol a bioamrywiaeth o ran bywyd gwyllt. Caiff mannau a leolir y tu allan i ffin y grynodref, er nad ydynt yn gymwys i gael eu dynodi'n fan tawel yn ffurfiol o dan y Gyfarwyddeb a'r Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol, eu nodi a darperir gwybodaeth amdanynt er mwyn datblygu gwasanaethau, gyda chronfa ddata o farnau o'r fath yn cael eu creu er mwyn sicrhau y cânt eu diogelu.

11.3.14 Mae ardal gwasanaeth ‘StreetScene’ Cyngor Dinas Casnewydd, sy'n cynnwys priffyrdd, yn gweithio'n agos gyda chontractwyr sy'n hyrwyddo'r defnydd o dechnegau arwynebu modern i leihau sŵn traffig. Ar hyn o bryd nid yw'r dull hwn o weithredu yn canolbwyntio ar ardaloedd penodol o'r awdurdod ond mae'n canolbwyntio ar yr awdurdod cyfan. Ar ôl i ardaloedd blaenoriaeth cynlluniau gweithredu ynghylch sŵn Casnewydd gael eu dynodi, bydd y Cyngor yn ystyried sut y gall camau gwaith arwynebu wedi'i gynllunio a gwaith lliniaru sŵn arall yn y dyfodol ystyried yr ardaloedd hyn.

Blwch 11.1

Bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn darparu polisïau sŵn ar gyfer ei CDLl, yn diogelu mannau tawel dynodedig a mannau gwyrdd llonydd eraill am eu bod yn bwysig y tu allan i ffin y grynodref, yn ystyried ardaloedd â blaenoriaeth mewn perthynas â'i waith arwynebu ffyrdd, ac, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, bydd yn cydgysylltu â BGCau er mwyn ystyried mapiau sŵn a luniwyd o dan y Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol.

11.4 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili



Darparwyd y wybodaeth yn yr adran hon gan CBS Caerffili.

Blaenoriaethau o ran sŵn a gwasanaethau

11.4.1 Adran Iechyd yr Amgylchedd, sy'n rhan o is-adran Diogelu'r Cyhoedd, sy'n ymchwilio i gwynion ynghylch sŵn a dderbynnir gan CBS Caerffili. Os daw cwynion ynghylch sŵn i law, cânt eu dosbarthu'n rhai 'domestig' neu 'fasnachol/diwydiannol' ac wedyn fe'u trosglwyddir i'r tîm priodol er mwyn iddo ymchwilio iddynt. Y tîm Cyffredinol sy'n ymchwilio i gwynion ynghylch sŵn domestig a'r tîm Rheoli Llygredd sy'n ymchwilio i unrhyw gwynion ynghylch sŵn masnachol. Dilynir gweithdrefnau sŵn penodol. Wedyn caiff unrhyw gwynion na ellir eu datrys yn ystod y dydd neu drwy gynnal cyfres o ymweliadau monitro cynlluniedig ar ôl oriau swyddfa eu cofnodi ar restr galw allan y Cyngor ar y gwasanaeth y tu allan i oriau.

11.4.2 Mae'r gwasanaeth y tu allan i oriau yn wasanaeth ymateb brys yn bennaf. Fodd bynnag, os na ellir datrys cwynion ynghylch sŵn neu os bydd hysbysiad atal sŵn wedi'i gyflwyno i unigolyn, caiff yr achosion hyn eu cynnwys fel rhan o'r gwasanaeth. Wedyn, gall yr unigolyn y mae'r niwsans yn effeithio arno ffonio rhif sy'n ei gysylltu ag ystafell reoli 24 awr y Cyngor, bydd gweithredwyr yr ystafell reoli yn cysylltu â swyddog iechyd yr amgylchedd sydd ar alwad, ac ymwelir â'r safle er mwyn ymchwilio i'r gŵyn. Trosglwyddir unrhyw gwynion ynghylch sŵn a geir gan yr ystafell reoli ac nad ydynt wedi'u cofnodi ar y rhestr galw allan i swyddog er mwyn iddo ymchwilio iddynt ar y diwrnod gwaith nesaf.

11.4.3 Yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18, cafodd CBS Caerffili 1,094 o gwynion a oedd yn ymwneud â sŵn. O'r rhain, roedd 215 yn gwynion ynghylch sŵn masnachol ac roedd yr 879 arall yn ymwneud â sŵn domestig mewn cymdogaethau. Roedd y rhan fwyaf o'r cwynion ynghylch sŵn mewn cymdogaethau yn ymwneud ag achosion o darfu gan gerddoriaeth wedi'i seinchwyddo a chŵn yn cyfarth.

11.4.4 O ran ceisiadau am wasanaeth, mae'r gwasanaeth rheoli llygredd yn un adweithiol ei natur. Fodd bynnag, gwneir gwaith rhagweithiol i sicrhau bod sŵn a dirgrynu yn tarfu cyn lleied â phosibl ar bobl drwy'r cyfundrefnau cynllunio a thrwyddedu.

11.4.5 Mae Adran Iechyd yr Amgylchedd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid megis yr heddlu, yr is-adran Diogelwch Cymunedol a'r is-adran Gorfodi Tenantiaethau er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â sŵn sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn modd cyfannol. Mae gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau megis Heddlu Gwent wedi galluogi CBS Caerffili i chwarae rolau pwysig mewn ymgyrchoedd amlasiantaeth cynlluniedig, megis ymgyrch 'Check' lle y cynhelir ymweliadau annisgwyl â safleoedd trwyddedig ac yr eir i'r afael â phroblemau megis sŵn, ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwerthu alcohol i blant o dan oed, archwiliadau i ganfod alcohol amnewid a ffug ac ati.

11.4.6 Mae rhai o'r cwynion ynghylch sŵn a geir gan y tîm Cyffredinol yn ymwneud â sŵn a achosir gan 'rebels rasio' sy'n defnyddio ffyrdd yng nghanol y dref ac sy'n chwarae cerddoriaeth uchel drwy stereos eu ceir. Mae gwahanol adrannau o fewn y Cyngor, gan gynnwys Adran Iechyd yr Amgylchedd, wedi cymryd rhan mewn rhai mentrau amlasiantaeth llwyddiannus iawn gyda Heddlu Gwent a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru er mwyn hyrwyddo materion megis niwsans sŵn, addasiadau anghyfreithlon, goryrru a gyrru'n ddiogel. Arweiniodd menter 'COWS, Cars and Cruisers', a fu ar waith yn 2009, at gyflwyno gorchymyn cau ffyrdd drwy ganol un o'r trefi rhwng 7 pm ar nos Iau a 4 am ar fore Gwener. Mae nifer y cwynion ynghylch sŵn yn yr ardal hon wedi lleihau'n sylweddol.

Sŵn a chynllunio

11.4.7 Mabwysiadwyd CDLl CBS Caerffili[88] ar 23 Tachwedd 2010 ac mae'n cynnwys nifer o bolisïau diogelu'r amgylchedd sy'n ystyried amwynder a gwaith dylunio, sef CW2 (Amwynder), CW15 (Cyfyngiadau Lleoliadol Cyffredinol) ac CW19 (Cyfyngiadau Lleoliadol – Datblygu Gwledig ac Arallgyfeirio). Nid yw'r polisïau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â sŵn. Fodd bynnag, dylid eu hystyried ar y cyd â TAN 11: Sŵn a TAN 12: Dylunio[89].

11.4.8 Nodir isod ddau o'r 24 o amcanion allweddol yn y CDLl sy'n ymwneud yn anuniongyrchol â sŵn:

- Sicrhau y caiff effaith pob datblygiad newydd ar yr amgylchedd ei lleihau cymaint â phosibl;

- Diogelu a gwella ansawdd cyffredinol amgylchedd hanesyddol, naturiol ac adeiledig y Fwrdeistref Sirol.

[88] http://www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/LDP/written-statement.aspx
[89] https://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan12/?lang=cy

11.4.9 Bu Adran Iechyd yr Amgylchedd yn gweithio'n agos iawn gyda'r adran Cynllunio Strategol wrth lunio'r CDLl, a byddai unrhyw ddarpar safle yr oedd yn debygol y byddai sŵn o draffig neu weithgarwch diwydiannol yn effeithio arno wedi cael ei nodi fel rhan o'r broses o asesu darpar safleoedd. Mae Atodiad 8 i'r CDLl (Gofynion o ran Arolygu Safleoedd Tai) yn rhestru'r safleoedd hynny y bydd angen cynnal asesiad acwstig ar eu cyfer, p'un a yw'n asesiad o fath Safon Brydeinig 4142 neu'n asesiad o dan TAN 11. Pe bai'r asesiad yn nodi bod sŵn yn broblem ac na ellir llunio mesurau lliniaru digonol i fynd i'r afael â'r sŵn, byddai Adran Iechyd yr Amgylchedd yn argymell y dylid gwrthod y cais.

11.4.10 I grynhoi, er nad ymdrinnir â sŵn yn benodol yn y CDLl, pan ddarllenir y CDLl ar y cyd â chanllawiau cenedlaethol, ymdrinnir â phroblem sŵn yn briodol.

11.4.11 Fel ymgynghorai, mae'r tîm Rheoli Llygredd yn rhoi cyngor proffesiynol i'r adran gynllunio a'r pwyllgor cynllunio ar effaith datblygiadau newydd ac mae hefyd yn argymell amodau y dylid eu hychwanegu at ganiatadau er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd ac amwynder preswyl. Mae amodau ac argymhellion yn ystyried yr hinsawdd bresennol o ran sŵn ac yn diogelu amwynder trigolion nawr ac yn y dyfodol. Mae'r broses hefyd yn rhoi cyfle i swyddogion fynnu bod arolygon sŵn safle-benodol yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau na fydd unrhyw newidiadau mewn ardal yn tarfu ar bobl nac yn peri niwsans statudol.

11.4.12 Mewn perthynas â datblygiadau y mae angen eu diogelu rhag sŵn o drafnidiaeth, bydd swyddogion yn y tîm Rheoli Llygredd yn sicrhau bod y datblygiad yn cydymffurfio â chanllawiau a safonau megis canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar sŵn cymunedol, Safon Brydeinig 4142 a TAN 11. Os na ellir cydymffurfio â'r canllawiau/safonau hyn, bydd y tîm Rheoli Llygredd yn argymell amodau priodol i liniaru sŵn er mwyn diogelu meddianwyr yn y dyfodol, neu argymell y dylid gwrthod y datblygiad am resymau sy'n ymwneud â sŵn.

Mannau gwyrdd llonydd

11.4.13 Ardaloedd gwledig sy'n ffurfio tua 80% o Fwrdeistref Sirol Caerffili. Lleolir llawer o'r mannau gwyrdd tawel y tu allan i ffiniau aneddiadau, lle nad oes fawr ddim pwysau i ddatblygu, a diogelir y mannau hyn rhag gwaith datblygu amhriodol gan nifer o bolisïau yn y CDLl.

11.4.14 Ceir dau barc gwledig mawr yn rhan dde-ddwyreiniol y Fwrdeistref, sef Parc Gwledig Sirhywi a Pharc Golygfaol Camcarn. Mae'r ddau yn cynnwys ardaloedd helaeth o goedwig sy'n sgrinio rhag effeithiau sŵn.

11.4.15 Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000[90] yn ymgorffori mynediad i dir comin a thir mynediad agored ac mae hyn yn cynnwys ardaloedd ucheldir ledled y Fwrdeistref Sirol.

11.4.16 Ar hyn o bryd mae CBS Caerffili yn datblygu cynigion, ar y cyd â Thorfaen a Chasnewydd, i gynyddu'r defnydd a wneir o ardaloedd Twmbarlwm a Mynydd Maen.

11.4.17 I grynhoi, yn y rhan hon o'r Fwrdeistref Sirol ceir ardaloedd mawr o dir hygyrch sy'n agos at ganolfannau poblogaeth y gall pobl fynd iddynt yn hawdd er mwyn profi mannau llonydd arbennig o ddymunol mewn lleoliad tirwedd eithriadol. Am y rhesymau hyn, nid yw CBS Caerffili wedi enwebu unrhyw fannau tawel o fewn ei ran o grynodref Casnewydd.

Blwch 11.2

Bydd CBS Caerffili yn parhau i fynd i'r afael â phroblemau sŵn yn unol â'r wybodaeth a geir yn yr adran hon o'r cynllun gweithredu ynghylch sŵn a seinwedd.

[90] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/37

12 Crynodref Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot



(h) Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2012. Arolwg Ordnans 100021874. Llywodraeth Cymru.

12.1 Yr hyn y mae'r mapiau sŵn yn ei ddweud wrthym

12.1.1 Cynyddodd poblogaeth breswyl crynodref Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot o 285,400 i 288,400 rhwng ymarferion mapio sŵn 2012 a 2017.

12.1.2 Amcangyfrifwyd amlygiad y boblogaeth breswyl i sŵn o brif ffyrdd a diwydiant ar sail mapiau sŵn 2017. Amcangyfrifwyd amlygiad y boblogaeth breswyl i sŵn o bob ffordd yn y grynodref, ac o reilffyrdd, ar sail mapiau sŵn 2012, gan ddefnyddio fersiwn wedi'i diweddaru o fodel poblogaeth breswyl 2017.

Tabl 12.1 Amlygiad y boblogaeth breswyl gan ddefnyddio dangosydd sŵn dydd-hwyr-nos L_{den}, yn seiliedig ar fapiau sŵn a model poblogaeth 2017

Ffynhonnell sŵn	Nifer y bobl y mae eu cartrefi wedi'u hamlygu i'r lefelau sŵn hyn				
	55-59 dB	60-64 dB	65-69 dB	70-74 dB	> 75 dB
Prif ffyrdd	39,500	18,100	10,700	7,400	1,000
Pob ffordd	52,900	40,300	30,300	9,900	1,100
Prif reilffyrdd	3,500	2,600	1,600	400	0
Pob rheilffordd	4,100	3,100	1,700	400	0
Diwydiant	3,800	400	100	0	0

Tabl 12.2 Amlygiad y boblogaeth breswyl gan ddefnyddio dangosydd sŵn nos L_{night}, yn seiliedig ar fapiau sŵn a model poblogaeth 2017

Ffynhonnell sŵn	Nifer y bobl y mae eu cartrefi wedi'u hamlygu i'r lefelau sŵn hyn				
	50-54 dB	55-59 dB	60-64 dB	65-69 dB	> 70 dB
Prif ffyrdd	28,700	14,400	9,100	1,400	400
Pob ffordd	47,200	36,700	13,500	1,600	500
Prif reilffyrdd	3,200	2,100	1,100	100	0
Pob rheilffordd	3,700	2,400	1,100	100	0
Diwydiant	2,100	300	0	0	0

12.2 Mannau tawel

12.2.1Mae 28 o fannau tawel dynodedig yn y grynodref hon. Mae'r rhai sydd wedi ennill Gwobrau'r Faner Werdd wedi'u marcio â seren.

1 – Parc Coffa Talbot*
2 – Parc Vivian
3 – Adfeilion Abaty Nedd
4 – Parc Mount Pleasant
5 – Parc Sgiwen
6 – Coedwig Shelone
7 – Parc Baglan
8 – Gerddi Fictoria*
9 – Church Place
10 – Parc Brenin Siôr V
11 – Parc Underhill
12 – Mynwent Ystumllwynarth
13 – Parc Dynfant
14 – Parc Cwmdonkin*
15 – Parc Ravenhill
16 – Llyn y Fendrod
17 – Parc Llewelyn*
18 – Parc Treforys
19 – Castell Ystumllwynarth
20 – Gerddi Clun*
21 – Traeth Abertawe
22 – Parc Brynmill*
23 – Parc Singleton*
24 – Parc Coed Gwilym
25 – Glantawe
26 – Llwybr Beicio Clun
27 – Parc Gwledig Dyffryn Clun
28 – Coetir Trefol Abertawe



(h) Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2012. Arolwg Ordnans 100021874. Llywodraeth Cymru.

12.3 Cyngor Abertawe

Darparwyd y wybodaeth yn yr adran hon gan Gyngor Abertawe.

Blaenoriaethau o ran sŵn a gwasanaethau

12.3.1 O fewn gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd, mae'r tîm Rheoli Llygredd yn cael bron 4,000 o ymholiadau ynglŷn â sŵn gan y cyhoedd bob blwyddyn. Y sector sy'n denu'r nifer fwyaf o gwynion yw cerddoriaeth wedi'i seinchwyddo, er bod y tîm yn dal i gael cryn nifer o ymholiadau ynglŷn â chŵn yn cyfarth ac adloniant trwyddedig. Mae larymau clywadwy mewn cerbydau neu adeiladau yn denu tua 200 o gwynion y flwyddyn ond y rhain sy'n esgor ar y nifer fwyaf o geisiadau am warant gan lys ynadon er mwyn mynd i mewn i eiddo i ddiffodd y larwm os na ellir dod o hyd i'r perchennog yn gyflym. Mae ffynonellau eraill o sŵn a dirgrynu yn denu cwynion yn rheolaidd er nad ydynt yn niferus. Mae hyn oll yn esgor ar nifer fawr o hysbysiadau statudol, naill ai pwerau gan ddefnyddio niwsans neu Ddeddf Rheoli Llygredd 1974 (er mwyn rheoli sŵn o'r diwydiant adeiladu).

12.3.2 Mae'r tîm yn cymryd ei rôl orfodi o ddifrif a chymerir camau yn erbyn unrhyw achosion o dorri hysbysiadau. Ar hyn o bryd, mae'n arferol i tua 50 o achosion y flwyddyn fynd drwy'r broses erlyn. Fodd bynnag, yn gynyddol, ymdrinnir â nifer fawr o achosion drwy roi rhybudd syml os bydd panel erlyn mewnol y Cyngor o'r farn bod hynny'n briodol (ac yn cydymffurfio â'r canllawiau cyfreithiol cyfredol). Mae nifer yr hysbysiadau atal a gyflwynir mewn perthynas â sŵn wedi lleihau ychydig, ac ymddengys fod hyn i'w briodoli i'r ffaith bod y prifysgolion yn gwneud mwy o ymdrech i chwarae rhan fwy gweithredol mewn cwynion sy'n ymwneud â myfyrwyr. Gwneir llawer o'r gwaith gorfodi hwn gan swyddogion sydd ar gael 24/7 i ddarparu gwasanaeth wrth gefn ar gyfer unrhyw argyfwng yn y Sir, yn ogystal â delio â phroblemau sŵn yn y nos.

12.3.3 Mae'r tîm yn ymgynghorai o dan ddeddfwriaeth cynllunio a thrwyddedu, er enghraifft mewn perthynas â hysbysiadau digwyddiadau dros dro a thrwyddedau safleoedd o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae gan y tîm gydberthynas ardderchog â chydweithwyr yn yr adran gynllunio ac mae'n gwneud pob ymdrech i chwarae rhan lawn yn y gwaith o reoli datblygu. Mae hyn yn arbennig o wir o ran ymdrin ag asesiadau o'r effaith ar yr amgylchedd yn ogystal â materion sy'n ymwneud yn fwy â pholisi. Ers blynyddoedd lawer, mae cytundeb y caiff unrhyw sylwadau gan y tîm eu cofnodi air am air yn yr adroddiadau a gyflwynir gerbron y pwyllgor cynllunio. Mae swyddogion o'r tîm hefyd yn cyflwyno eu sylwadau yn bersonol yng nghyfarfodydd y pwyllgor er mwyn i'r Aelodau roi ystyriaeth lawn i unrhyw bryderon ynghylch sŵn sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio. Yn ddiweddar mae hyn wedi cynnwys mynnu bod ‘ffasadau gwyrdd’ a ‘ffensys byw’ yn cael eu creu o amgylch datblygiadau lle mae sŵn traffig ac ansawdd aer gwael yn broblemau.

12.3.4 Mae gwaith seilwaith mawr yn aml yn arwain at gynlluniau cymeradwyo ymlaen llaw ar gyfer sŵn a dirgrynu o dan adran 61 o Ddeddf Rheoli Llygredd 1974. Gall hyn fod ar gyfer gweithrediadau rhwydwaith rheilffyrdd mawr neu waith paratoi ar gyfer cynlluniau megis y morlyn llanw. Mae amrywiaeth eang o gyfarpar acwstig ar gael i'r tîm i'w alluogi i wneud y gwaith arolygu angenrheidiol. Ar hyn o bryd mae'r holl waith hwn yn cael ei achredu gan ISO ac mae'r tîm hefyd wedi datblygu gwahanol brosiectau i ystyried digonolrwydd dyluniadau ffasadau penodol. Roedd hyn yn ychwanegol at ein gwaith ar waliau a lloriau cydrannol ac mae wedi bod yn arbennig o bwysig yng nghanol trefi, lle mae defnyddiau croes sy'n gysylltiedig â'r economi liw nos wedi creu problemau nas datryswyd gan ddulliau cynllunio traddodiadol na Rheoliadau Adeiladu.

12.3.5 Y ffordd orau o fynd i'r afael â sŵn o ffynonellau sŵn diwydiannol presennol sy'n effeithio ar ddatblygiadau sy'n sensitif i sŵn yw drwy osod amodau priodol ar y cam cynllunio yn hytrach nac ar ôl i'r gwaith adeiladu ddechrau. Ni all y Cyngor ddiystyru'r posibilrwydd o ddefnyddio pwerau niwsans statudol, er bod amddiffyniad y 'dull ymarferol gorau' bob amser ar gael i weithredwyr presennol.

Sŵn a chynllunio

12.3.6 Mae CDLl Abertawe ar y cam Archwilio ar hyn o bryd. Mae strategaeth y cynllun Adneuo yn nodi 24 o amcanion ar gyfer y cynllun gan gynnwys amcanion cyffredinol ac amcanion sy'n seiliedig ar ardaloedd ac amcanion wedi'u grwpio o dan dri phennawd, sef:

- Gwella Cymunedau, Cyfleusterau a Seilwaith;
- Sicrhau Twf Economaidd a Ffyniant;
- Meithrin Amgylchedd o Ansawdd Uchel.

12.3.7 Mae'r cynllun yn darparu ar gyfer twf dros gyfnod y cynllun, sef 2010-2025. Nodir tir er mwyn diwallu'r angen a nodwyd am 15,600 o gartrefi newydd dros gyfnod y cynllun, ynghyd â chreu 13,600 o swyddi ychwanegol. Strategaeth dwf y cynllun yw creu nifer gyfyngedig o gymdogaethau newydd cynaliadwy mewn Ardaloedd Datblygu Strategol, yn yr ardal drefol bresennol neu'n agos ati, wedi'u hategu gan nifer gyfyngedig o estyniadau anstrategol o faint canolig ar ymylon aneddiadau a dyraniadau mwy gwasgaredig a llai o faint i gwblhau aneddiadau. O ganlyniad, bwriedir lleoli'r rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd pwysig o fewn ardal y grynodref a nodwyd at ddibenion mapio sŵn a chynllunio gweithredu o dan y Gyfarwyddeb a'r Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol.

12.3.8 Ymdrinnir â cheisiadau cynllunio yn unol â pholisi cenedlaethol a lleol sy'n ymwneud â sŵn. Crynhoir isod bolisïau CDLlau sy'n ymwneud â sŵn a materion cysylltiedig ac a gymhwysir wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio.

12.3.9 Mae Polisi EV40 yng Nghynllun Datblygu Unedol mabwysiedig Abertawe yn nodi na chaniateir cynigion datblygu a fyddai'n achosi, neu'n arwain at, niwed sylweddol i iechyd, amwynder lleol, treftadaeth naturiol, yr amgylchedd hanesyddol neu gymeriad tirwedd oherwydd lefelau sylweddol o lygredd aer, sŵn neu olau.

12.3.10 Ar hyn o bryd mae polisïau Adneuo Abertawe yn cael eu harchwilio drwy ddefnyddio proses Archwilio'r CDLl.

Polisi RP1: Diogelu Iechyd y Cyhoedd ac Adnoddau Naturiol

Ni chaniateir datblygiad a fyddai'n peri risg sylweddol i fywyd, iechyd a lles pobl, eiddo, dyfroedd a reolir neu'r amgylchedd naturiol a hanesyddol, yn enwedig mewn perthynas â'r canlynol:

- Llygredd aer, sŵn neu olau;
- Perygl llifogydd;
- Ansawdd adnoddau dŵr neu faint o adnoddau dŵr sydd ar gael;
- Halogi tir;
- Ansefydlogrwydd tir neu ymsuddo;
- Datblygu adnoddau mwynol yn gynaliadwy;
- Rheoli gwastraff yn gynaliadwy.

Ni chaniateir datblygiad yr ystyrir y bydd yn cael effaith andwyol sylweddol ar gyfanrwydd unrhyw safleoedd sydd wedi'u dynodi ar lefel Ewropeaidd, ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill.

12.3.11 Ar ôl cynnal y gwrandawiadau, mae'r Cyngor wedi cynnig 'Newidiadau Materion sy'n Codi' i bolisi RP2 (Llygredd Aer, Sŵn a Golau) i ddarparu polisi ar wahân ar gyfer llygredd sŵn, gan gynnwys cyfeiriad penodol at ardaloedd â blaenoriaeth a'r egwyddor cyfrwng newid. Caiff geiriad terfynol y newidiadau i'r cynllun eu cadarnhau pan gaiff Adroddiad yr Arolygydd ei gyhoeddi.

Blwch 12.1

Bydd Cyngor Abertawe yn gwneud y canlynol:

Ceisio bod gwaith gwella priffyrdd a gweithgarwch rheoli ansawdd aer lleol yn dod â'r manteision mwyaf posibl o ran lleihau sŵn;

Llunio polisïau sŵn ar gyfer ei CDLl er mwyn adlewyrchu'r datganiadau yn adran 12.3 o'r cynllun gweithredu hwn;

Ystyried ardaloedd â blaenoriaeth mewn perthynas â'i waith arwynebu ffyrdd;

Ystyried mapiau sŵn, ardaloedd â blaenoriaeth, mannau tawel a mannau gwyrdd trefol llonydd eraill pan gynigir datblygiad sy'n sensitif i sŵn neu sy'n cynhyrchu sŵn;

Ystyried ardaloedd â blaenoriaeth, mannau tawel a mannau trefol llonydd eraill wrth wneud penderfyniadau ar drwyddedau ar gyfer safleoedd diwydiannol os ydynt wedi'u dosbarthu'n drwyddedau A2 ac annog CNC i wneud yr un peth ar gyfer trwyddedau A1.

12.4 Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot



Darparwyd y wybodaeth yn yr adran hon gan CBS Castell-nedd Port Talbot.

Blaenoriaethau o ran sŵn a gwasanaethau

12.4.1 Ymchwilir i geisiadau am wasanaeth sy'n gysylltiedig â sŵn gan ddau dîm iechyd yr amgylchedd cyffredinol, gyda phob tîm yn gyfrifol am adweithio i geisiadau am wasanaeth o fewn ei ardal ei hun o'r Fwrdeistref Sirol.

12.4.2 Ceir nifer fawr o gwynion ynghylch sŵn ac maent yn amrywio o gwynion ynghylch sŵn domestig i gwynion ynghylch sŵn masnachol/diwydiannol a sŵn o safleoedd adeiladu. Mae'r awdurdod yn ceisio datrys problemau yn gyfeillgar i ddechrau, ond, pan fo angen, defnyddir camau cyfreithiol ffurfiol fel y'u pennir gan statud a gweithdrefnau a nodir ym mholisi rheoli sŵn mabwysiedig yr awdurdod.

12.4.3 Yn ogystal ag ymchwilio o gwynion ynghylch sŵn, mae'r timau iechyd yr amgylchedd cyffredinol hefyd yn ymgyngoreion o dan ddeddfwriaeth cynllunio a thrwyddedu, er enghraifft o ran trwyddedau megis hysbysiadau digwyddiadau dros dro a thrwyddedau safleoedd a roddir o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

12.4.4 Mae'r ffaith eu bod yn ymgyngoreion yn golygu bod swyddogion yn cael cyfle i graffu ar geisiadau a'r wybodaeth a ddarparwyd i ategu ceisiadau. Mae swyddogion yn argymell atodi amodau cynllunio a thrwyddedu yn rheolaidd yn dilyn ymgynghoriadau ac nid yw'n anghyffredin i swyddogion ofyn am wybodaeth ychwanegol am sŵn a'i effaith bosibl o ddatblygiad penodol.

12.4.5 Nid yw'r awdurdod yn darparu gwasanaeth sŵn penodol y tu allan i oriau, er y gall swyddog y tu allan i oriau brys ymateb i geisiadau mewn sefyllfaoedd lle mae hysbysiad atal mewn grym. Mewn ymgais i ymchwilio i gwynion a geir y tu allan i oriau swyddfa, mae swyddogion ar rota yn defnyddio cyfarpar monitro sŵn yn ogystal â chynnal ymweliadau rhagweithiol y tu allan i oriau.

Sŵn a chynllunio

12.4.6 Mabwysiadwyd CDLl Castell-nedd Port Talbot[91] ym mis Ionawr 2016. Mae strategaeth y cynllun yn nodi 25 o amcanion ar gyfer y cynllun gan gynnwys amcanion cyffredinol ac amcanion sy'n seiliedig ar ardaloedd ac amcanion wedi'u grwpio o dan bum pennawd:

- Adeiladu cymunedau cynaliadwy, iach;
- Hyrwyddo economi gynaliadwy;

[91] https://www.npt.gov.uk/PDF/ldp_written_statement_jan16.pdf

- Gwerthfawrogi ein hamgylchedd;

- Sicrhau hygyrchedd cynaliadwy;

- Parchu natur unigryw.

12.4.7 Mae'r cynllun yn rhagweld lefel gymharol uchel o dwf economaidd dros gyfnod y cynllun (2011-2026) ac yn darparu ar gyfer hynny. Mae hyn yn arwain at angen a nodwyd i ddatblygu 7,800 o anheddau newydd dros gyfnod y cynllun, yn ogystal â darparu tir cyflogaeth newydd wedi'i ganoli ar safleoedd cyflogaeth strategol Bae Baglan a Chyffordd 38 (M4) ym Margam a diogelu safleoedd cyflogaeth sy'n bodoli eisoes.

12.4.8 Y strategaeth gyffredinol yw canolbwyntio gwaith datblygu newydd ar y coridor arfordirol wrth adfywio cymunedau'r cymoedd. O ganlyniad, bwriedir lleoli'r rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd pwysig o fewn ardal y grynodref a nodwyd at ddibenion mapio sŵn a chynllunio gweithredu o dan y Gyfarwyddeb a'r Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol.

12.4.9 Ymdrinnir â cheisiadau cynllunio yn unol â pholisi cenedlaethol a lleol sy'n ymwneud â sŵn. Crynhoir isod bolisïau CDLlau sy'n ymwneud â sŵn a materion cysylltiedig ac a gymhwysir wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio:

Polisi SP16: Diogelu'r Amgylchedd

Caiff ansawdd aer, dŵr a daear a'r amgylchedd yn gyffredinol eu diogelu a, lle y bo'n bosibl, eu gwella drwy gymryd y camau canlynol:

- Sicrhau na fydd cynigion yn cael effeithiau andwyol sylweddol ar ansawdd dŵr, daear nac aer ac na fyddant yn cynyddu lefelau llygredd yn sylweddol;

- Ffafrio cynlluniau i ddatblygu safleoedd tir llwyd ar draul safleoedd maes glas lle y bo'n briodol ac os gellir eu cyflawni;

- Sicrhau na fydd datblygiadau yn cynyddu nifer y bobl a amlygir i lefelau sylweddol o lygredd.

Polisi EN8: Llygredd a Sefydlogrwydd Tir

Ni chaniateir cynigion a fyddai'n debygol o gael effaith andwyol annerbyniol ar iechyd, bioamrywiaeth a/neu amwynder lleol neu a fyddai'n amlygu pobl i risg annerbyniol oherwydd y canlynol:

- Llygredd aer;
- Llygredd sŵn;
- Llygredd golau;
- Halogiad;
- Ansefydlogrwydd tir;
- Llygredd dŵr (gan gynnwys dŵr daear).

Ni fydd cynigion a fyddai'n creu problemau newydd neu'n gwaethygu problemau sy'n bodoli eisoes a nodwyd uchod yn dderbyniol oni chynhwysir mesurau lliniaru er mwyn lleihau'r risg o niwed i iechyd y cyhoedd, bioamrywiaeth a/neu amwynder lleol i lefel dderbyniol.

Polisi EN10: Mannau Tawel

Er mwyn diogelu mannau llonydd mewn ardaloedd trefol, mae'r 'mannau tawel' canlynol wedi'u nodi:

EN10/1	Adfeilion Abaty Nedd, Castell-nedd
EN10/2	Parc Mount Pleasant, Castell-nedd
EN10/3	Parc Sgiwen, Castell-nedd
EN10/4	Coedwig Shelone, Castell-nedd
EN10/5	Gerddi Fictoria, Castell-nedd
EN10/6	Church Place, Castell-nedd
EN10/7	Parc Coffa Talbot, Port Talbot
EN10/8	Parc Vivian, Port Talbot
EN10/9	Parc Baglan, Port Talbot
EN10/10	Parc Brenin Siôr V, Pontardawe

Gwrthwynebir cynigion datblygu a fyddai'n cael effeithiau annerbyniol ar y nodweddion a arweiniodd at ddynodi'r man tawel.

Blwch 12.2

Bydd CBS Castell-nedd Port Talbot yn ystyried ardaloedd â blaenoriaeth mewn perthynas â'i waith arwynebu ffyrdd, a mapiau sŵn, ardaloedd â blaenoriaeth, mannau tawel a mannau gwyrdd trefol llonydd eraill pan gynigir datblygiad sy'n sensitif i sŵn neu sy'n creu sŵn.

Atodiad A – mapiau sŵn

Map 1 Sŵn o brif ffyrdd (2012)



(h) Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2018. Arolwg Ordnans 100021874. Llywodraeth Cymru.

Map 2 Sŵn o brif ffyrdd (2017)


Lefel Sŵn (L_{den})
> 55 dB
> 65 dB
WALES
GWYNEDD
CONWY
CARMARTHENSHIRE
CEREDIGION
POWYS
CARDIFF
Holyhead
Llandudno
Conwy
Bangor
Caernarfon
Porthmadog
Bala
Dolgellau
Barmouth
Machynlleth
Aberystwyth
Cardigan
Fishguard
Carmarthen
Llandeilo
Llandovery
Brecon
Newtown
Welshpool
Llangollen
Wrexham
Ruthin
Denbigh
Rhyl
Prestatyn
Abergele
Llandrindod Wells
Builth Wells
Rhayader
Llangurig
Aberystwyth
Tenby
Pembroke
Pembroke Dock
Haverfordwest
Swansea
Port Talbot
Neath
Llanelli
Merthyr Tydfil
Abergavenny
Monmouth
Chepstow
Newport
Cwmbran
Pontypool
Barry
Cardiff Airport
Penarth
Bridgend
Porthcawl
Aberystwyth
Aberaeron
New Quay
Aberporth
Newcastle Emlyn
Crymych
Fishguard
Narberth
St Clears
Johnston
Pembroke
Pembroke Dock
Tenby
Pendine
Carmarthen Bay
Burry Port
Llanelli
Kidwelly
Ammanford
Llandeilo
Llandissilio
Cynwyl Elfed
Llangadog
Lampeter
Tregaron
Synod Inn
Pumsaint
Llanwrtyd Wells
Sennybridge
Brynamman
Ystalyfera
Pontardawe
Swansea
Port Talbot
Maesteg
Pencoed
Bridgend
Cowbridge
Llantwit Major
Port-Eynon
Swansea Bay
Worms Head/ Pwyr
St Govan's Head
Dinas Head
Bardsey Island
Caernarfon Bay
Holy Island
Llanfairpwllgwyngyll
Menai Bridge
Beaumaris
Benllech
Llanfairfechan
Penmaenmawr
Llandudno
Colwyn Bay
Rhyl
Prestatyn
Flint
Mold
Buckley
Queensferry
Holywell
St Asaph
Llanfair Talhaiarn
Abergele
Pentrefoelas
Betws-y-Coed
Llanrwst
Llanberis
Bethesda
Nefyn
Criccieth
Pwllheli
Abersoch
Harlech
Trawsfynydd
Blaenau Ffestiniog
Llan Ffestiniog
Corwen
Ruabon
Llanfyllin
Oswestry
Shrewsbury
Welshpool
Llanfair Caereinion
Carno
Mallwyd
Barmouth
Tywyn
Llanidloes
Newtown
Montgomery
Llanrhystud
Lledrod
Aberaeron
Aberporth
Cardigan
Newport
Fishguard
Crymych
Cynwyl Elfed
Llandissilio
Narberth
St Clears
Carmarthen
Llandeilo
Llandovery
Llangadog
Lampeter
Tregaron
Synod Inn
Pumsaint
Llanwrtyd Wells
Sennybridge
Brecon
Builth Wells
Talgarth
Hay-on-Wye
Hereford
Leominster
Knighton
Presteigne
Wigmore
Kington
Rhayader
Llandrindod Wells
Llangurig
Llanidloes
Aberystwyth
Machynlleth
Carno
Newtown
Welshpool
Llanfair Caereinion
Llanfyllin
Oswestry
Shrewsbury
Ellesmere
Wrexham
Ruabon
Corwen
Llangollen
Ruthin
Denbigh
Rhyl
Prestatyn
Abergele
Llandudno
Conwy
Colwyn Bay
Bangor
Caernarfon
Porthmadog
Bala
Dolgellau
Barmouth
Machynlleth
Aberystwyth
Tywyn
Llanrhystud
Lledrod
Aberaeron
New Quay

Map 3 Ardaloedd â blaenoriaeth ar gyfer prif ffyrdd, heb gynnwys ardaloedd agosrwydd (2018)


Ardal â blaenoriaeth
Traffyrdd a chefnffyrdd
Ffyrdd awdurdodau lleol
WALES
GWYNEDD
CONWY
DENBIGHSHIRE
FLINTSHIRE
ANGLESEY
ISLE OF ANGLESEY
CARDIGAN BAY/ BAE CEREDIGION
CAMBRIAN MOUNTAINS
CEREDIGION
POWYS
CARMARTHENSHIRE
PEMBROKESHIRE
MONMOUTHSHIRE
CARDIFF
Holyhead
Llandudno
Conwy
Bangor
Caernarfon
Porthmadog
Pwllheli
Bala
Dolgellau
Barmouth
Aberystwyth
Machynlleth
Newtown
Welshpool
Llangollen
Wrexham
Mold
Ruthin
Abergele
Prestatyn
Rhyl
Colwyn Bay
Aberaeron
New Quay
Cardigan
Fishguard
Newport
Aberporth
Lampeter
Llandovery
Carmarthen
St Clears
Llandeilo
Llanelli
Swansea
Neath
Port Talbot
Pembroke
Pembroke Dock
Tenby
Haverfordwest
Brecon
Builth Wells
Llandrindod Wells
Rhayader
Llanidloes
Llangurig
Talgarth
Hereford
Abergavenny
Monmouth
Chepstow
Newport
Merthyr Tydfil
Pontypridd
Caerphilly
Bridgend
Porthcawl
Barry
Penarth
Cowbridge
Llantwit Major
Cardiff Airport
Aberystwyth
Aberaeron
Aberporth
Cardigan
Fishguard
Newport
Newcastle Emlyn
Crymych
Cynwyl Elfed
Llandissilio
Narberth
Johnston
Pembroke Dock
Pembroke
Tenby
Pendine
Carmarthen Bay
Burry Port
Kidwelly
Ammanford
Brynamman
Llangadog
Sennybridge
Llanwrtyd Wells
Pumsaint
Lampeter
Synod Inn
Tregaron
Lledrod
Llanrhystud
Tywyn
Aberdovey
Machynlleth
Carno
Mallwyd
Dolgellau
Barmouth
Llanfair Caereinion
Welshpool
Newtown
Llanidloes
Llangurig
Rhayader
Builth Wells
Llandrindod Wells
Knighton
Presteigne
Kington
Hay-on-Wye
Hereford
Talgarth
Brecon
Sennybridge
The Black Mountains
Crickhowell
Abergavenny
Monmouth
Raglan
Usk
Chepstow
Pontypool
Cwmbran
Caerphilly
Newport
Abergavenny
Ebbw Vale
Merthyr Tydfil
Aberdare
Treorchy
Pontypridd
Maesteg
Neath
Port Talbot
Swansea
Llanelli
Burry Port
Kidwelly
Ammanford
Brynamman
Llandeilo
Llandovery
Carmarthen
St Clears
Narberth
Johnston
Pembroke Dock
Pembroke
Tenby
Pendine
Carmarthen Bay
Llanaelhaearn
Nefyn
Criccieth
Pwllheli
Abersoch
Harlech
Trawsfynydd
Blaenau Ffestiniog
Llan Ffestiniog
Betws-y-Coed
Pentrefoelas
Llanrwst
Llanbedr
Caernarfon
Caernarfon Bay
Bethesda
Menai Bridge
Beaumaris
Llangefni
Holy Island
Rhosneigr
Benllech
Llanfairpwll
Llanfair Talhaiarn
Denbigh
St Asaph
Holywell
Mold
Buckley
Ruthin
Corwen
Llangollen
Ruabon
Wrexham
Oswestry
Llanfyllin
Shrewsbury
Ellesmere
Whitchurch
Bishops Castle
Clun
Church Stretton
Ludlow
Montgomery
Newtown
Llanidloes
Llangurig
Rhayader
Llandrindod Wells
Builth Wells
Llanwrtyd Wells
Pumsaint
Lampeter
Synod Inn
Tregaron
Lledrod
Llanrhystud
Aberystwyth
Aberaeron
New Quay
Aberporth
Cardigan
Fishguard
Newport
Newcastle Emlyn
Crymych
Cynwyl Elfed
Llandissilio
Narberth
Johnston
Pembroke Dock
Pembroke
Tenby
Pendine
Carmarthen Bay
Burry Port
Kidwelly
Ammanford
Brynamman
Llangadog
Sennybridge
Llandeilo
Llandovery
Carmarthen
St Clears
Llanelli
Swansea
Neath
Port Talbot
Pontardawe
Ystalyfera
Aberdare
Treorchy
Pontypridd
Maesteg
Merthyr Tydfil
Ebbw Vale
Abergavenny
Crickhowell
The Black Mountains
Brecon
Talgarth
Builth Wells
Llandrindod Wells
Rhayader
Llanidloes
Llangurig
Newtown
Welshpool
Llanfair Caereinion
Machynlleth
Carno
Mallwyd
Dolgellau
Barmouth
Llanfyllin
Oswestry
Shrewsbury
Ellesmere
Wrexham
Ruabon
Corwen
Llangollen
Ruthin
Buckley
Mold
Denbigh
St Asaph
Holywell
Abergele
Prestatyn
Rhyl
Colwyn Bay
Llandudno
Conwy
Bangor
Caernarfon
Porthmadog
Pwllheli
Abersoch
Harlech
Trawsfynydd
Blaenau Ffestiniog
Llan Ffestiniog
Betws-y-Coed
Pentrefoelas
Llanrwst
Llanbedr

Map 4a Sŵn o brif reilffyrdd (2012/2017)



(h) Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2018. Arolwg Ordnans 100021874. Llywodraeth Cymru.

Map 4b Ardaloedd â blaenoriaeth ar gyfer prif reilffyrdd (2018)

(h) Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2018. Arolwg Ordnans 100021874. Llywodraeth Cymru.

Map 5 Cwynion ynghylch sŵn trafnidiaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru



(h) Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2018. Arolwg Ordnans 100021874. Llywodraeth Cymru.

Atodiad B – Arolwg Cenedlaethol Cymru: llygredd sŵn

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys cyfweliadau wyneb yn wyneb â mwy nag 11,000 o oedolion 16 oed a throsodd a ddewisir ar hap. Mae'r arolwg yn ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio ar bobl a'u hardal leol. Ceir rhagor o wybodaeth ar dudalennau gwe'r Arolwg Cenedlaethol[92].

Cynhwyswyd nifer o gwestiynau am dai ac incwm yn yr Arolwg Cenedlaethol am y tro cyntaf yn 2017-18. Diben hyn oedd ategu Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18[93], y darparodd yr Arolwg Cenedlaethol sampl o gyfeiriadau ar ei gyfer[94]. Roedd un cwestiwn yn ymwneud â lefelau sŵn. Gofynnwyd i bobl p'un a oedd sŵn o'r tu allan i'w cartref wedi bod yn eu poeni'n rheolaidd yn ystod y 12 mis blaenorol. Dywedodd **24%** ei fod wedi. Roedd y ganran hon yr un peth ar gyfer dynion a merched. O'r rhain, dywedodd:

- **36%** fod y sŵn wedi'i achosi gan **gymdogion yn eu cartrefi**;
- **47%** ei fod wedi'i achosi gan **gymdogion y tu allan i'w cartrefi**;
- **45%** ei fod wedi'i achosi gan **draffig, busnesau neu ffatrïoedd**.

Roedd pobl a oedd yn byw mewn ardaloedd trefol yn fwy tebygol o gael eu poeni gan sŵn na'r rhai a oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig. Roedd **27%** o'r bobl mewn ardaloedd **trefol** wedi cael eu poeni gan sŵn, o gymharu ag **18%** mewn ardaloedd **gwledig**. Dangosir hyn hefyd drwy edrych ar ganran y bobl a gafodd eu poeni gan sŵn yn ôl maint eu hanheddiad. Roedd pobl a oedd yn byw mewn ardaloedd adeiledig yn llawer mwy tebygol o gael eu poeni gan sŵn.

Siart 1: Wedi'u poeni gan sŵn, yn ôl maint yr anheddiad



[92] http://llyw.cymru/statistics-and-research/national-survey/?lang=cy
[93] https://gov.wales/statistics-and-research/welsh-housing-conditions-survey/?skip=1&lang=cy
[94] Roedd yr arolwg yn cynnwys archwiliadau ffisegol o 2,550 o eiddo. Bydd y canfyddiadau ar gael ym mis Rhagfyr 2018.

Roedd pobl yn llawer mwy tebygol o gael eu poeni gan sŵn os **oeddent yn byw mewn tai cymdeithasol neu dai rhent preifat** o gymharu â phobl a oedd yn berchen ar eu cartref eu hunain, fel y dangosir yn Siart 2.

Siart 2: Wedi'u poeni gan sŵn, yn ôl deiliadaeth



Roedd y rhai a oedd yn **byw mewn fflatiau** yn fwy tebygol o gael eu poeni gan sŵn na'r rhai a oedd yn byw mewn cartrefi sengl.

Siart 3: Wedi'u poeni gan sŵn, yn ôl y math o annedd



Roedd **pobl iau** yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi cael eu poeni'n rheolaidd gan sŵn na phobl hŷn.

Siart 4: Wedi'u poeni gan sŵn, yn ôl oedran yr ymatebydd



Roedd pobl yn fwy tebygol o gael eu poeni gan sŵn os oeddent yn byw mewn **aelwydydd mewn amddifadedd materol neu ardaloedd difreintiedig**.

Siart 5: Wedi'u poeni gan sŵn, yn ôl amddifadedd ardal



Mathau o sŵn roedd pobl yn cael eu poeni'n rheolaidd ganddynt

Roedd pobl a oedd yn **berchen ar eu heiddo eu hunain** yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn cael eu poeni'n rheolaidd gan sŵn o draffig, busnesau neu ffatrïoedd na phobl a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol, ond roedd pobl a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol yn fwy tebygol o gael eu poeni gan sŵn a achoswyd gan eu cymdogion.

Siart 6: Math o sŵn, yn ôl deiliadaeth



Roedd **pobl iau** yn fwy tebygol o gael eu poeni'n rheolaidd gan sŵn a achoswyd gan eu cymdogion, ond roedd pobl hŷn yn fwy tebygol o gael eu poeni gan sŵn o draffig, busnesau neu ffatrïoedd.

Siart 7: Math o sŵn, yn ôl oedran yr ymatebydd



Atodiad C – rhestr o ofynion ar gyfer cynlluniau gweithredu ynghylch sŵn

Mae'r tabl hwn yn rhestru cynnwys cynllun gweithredu ynghylch sŵn sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol, a lle y'u ceir yn y ddogfen hon.

Elfen orfodol	**Cynllun gweithredu** (at ddibenion y Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol)				
	Prif ffyrdd	Prif reilffyrdd	Caerdydd a Phenarth	Casnewydd	Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot
Disgrifiad o'r grynodref, y prif ffyrdd, y prif reilffyrdd neu'r prif feysydd awyr a'r ffynonellau eraill o sŵn a ystyriwyd	Pennod 6	Pennod 7	Pennod 10	Pennod 11	Pennod 12
Yr awdurdod sy'n gyfrifol	Pennod 6	Pennod 7	Penodau 6-8	Penodau 6-8	Penodau 6-8
Y cyd-destun cyfreithiol	Rhagair	Rhagair	Rhagair	Rhagair	Rhagair
Unrhyw werthoedd terfyn a bennwyd yn unol ag Erthygl 5	dd/g	dd/g	dd/g	dd/g	dd/g
Crynodeb o ganlyniadau'r ymarfer mapio	Pennod 6 ac Atodiad A	Pennod 7 ac Atodiad A	Pennod 10 ac Atodiad A	Pennod 11 ac Atodiad A	Pennod 12 ac Atodiad A
Gwerthuso nifer amcangyfrifedig o bobl a amlygir i sŵn, nodi problemau a sefyllfaoedd y mae angen eu gwella	Pennod 6	Pennod 7	Pennod 10	Pennod 11	Pennod 12

Cofnod o'r ymgynghoriadau cyhoeddus a drefnwyd yn unol ag Erthygl 8(7)	Rhagair	Rhagair	Rhagair	Rhagair	Rhagair
Unrhyw fesurau lleihau sŵn sydd eisoes mewn grym ac unrhyw brosiectau sy'n cael eu paratoi	Pennod 6	Pennod 7	Penodau 6-8 a 10	Penodau 6-8 a 11	Penodau 6-8 a 12
Camau y mae'r awdurdodau cymwys yn bwriadu eu cymryd yn ystod y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys unrhyw fesurau i ddiogelu mannau tawel	Penodau 1-6	Penodau 1-5 a 7	Penodau 1-8 a 10	Penodau 1-8 a 11	Penodau 1-8 a 12
Strategaeth hirdymor	Penodau 1-6	Penodau 1-5 a 7	Penodau 1-8 a 10	Penodau 1-8 a 11	Penodau 1-8 a 12
Gwybodaeth ariannol (os yw ar gael): cyllidebau, asesiad o gosteffeithiolrwydd, asesiad cost-budd	Ddim ar gael ar hyn o bryd	Ddim ar gael ar hyn o bryd	Ddim ar gael ar hyn o bryd	Ddim ar gael ar hyn o bryd	Ddim ar gael ar hyn o bryd
Darpariaethau a ragwelir ar gyfer gwerthuso'r broses o roi'r cynllun gweithredu ar waith a'i ganlyniadau	Rhagair	Rhagair	Rhagair	Rhagair	Rhagair
Amcangyfrifon o ran y lleihad yn nifer y bobl yr effeithir arnynt (yn ddig, tarfu ar gwsg, neu arall)	Ddim ar gael ar hyn o bryd	Ddim ar gael ar hyn o bryd	Ddim ar gael ar hyn o bryd	Ddim ar gael ar hyn o bryd	Ddim ar gael ar hyn o bryd

Atodiad D – rhestr o'r byrfoddau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

BB93	Bwletin Adeiladu 93
BGC	bwrdd gwasanaethau cyhoeddus
CBS	Cyngor Bwrdeistref Sirol
CDLl	cynllun datblygu lleol
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
dB	desibel
MOD	y Weinyddiaeth Amddiffyn
PCC	Polisi Cynllunio Cymru
ProPG	Canllawiau Cynllunio Proffesiynol
RDG	y Grŵp Cyflenwi Rheilffyrdd
RSSB	y Bwrdd Diogelwch a Safonau Rheilffyrdd
TAN	Nodyn Cyngor Technegol
WelTAG	Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru

Atodiad E – y sefydliadau a gyfrannodd at ddatblygu'r ddogfen hon

CBS Caerffili

CBS Castell-nedd Port Talbot

CBS Merthyr Tudful

CBS Pen-y-bont ar Ogwr

CBS Rhondda Cynon Taf

CNC

Cyngor Abertawe

Cyngor Bro Morgannwg

Cyngor Caerdydd

Cyngor Dinas Casnewydd

Cyngor Sir Caerfyrddin

Extrium Ltd

Heddlu Gogledd Cymru

Heddlu Gwent

Iechyd Cyhoeddus Cymru

MOD

RSSB

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch